1607/6101.(3.)

# LLYFR Y SALMAU,

Wedi eu Cyfieithu, a'u Cyfanſoddi

## Ar feſur Cerdd, yn Gymraeg.

Drwy waith EDMUND PRYS, Arch-Diacon Meirionydd.

### SALM I.

Y GWŶL ni rodia, dedwydd yw
yn ol drwg yſtryw gyngor,
Ni ſaif ar ffordd trofeddwyr ffol,
nid eiſte'n ſiol y gwatwor.
2 Ond ei holl ſerch ef ſydd yn rhwydd
ar ddeddf yr Arglwydd uchod:
Ac ar ei ddeddf rhydd ddydd a nos
yn ddiddos ei ſyfyrdod.
3 Ef ſydd fel pren plan ar lan dŵr,
dwg ffrwyth amſerol arno,
Ni chrina'i ddalen, a'i holl waith,
a lwydda 'n berffaith iddo.
4 Nid felly bydd y drwg di-rus,
ond fel yr us ar gorwynt:
Yr hwn o'r tir a'i chwyth a'i chwal,
anwadal fydd ei helynt.
5 Am hyn y drwg ni ſaif mewn barn
o flaen y cadarn uniawn:
Na'r pechaduriaid mawr eu bar,
ynghynnulleidfa 'r cyflawn.
6 Canys yr Arglwydd Dduw fel hyn
a edwyn ffyrdd gwirioniaid:
Ac ef ni ad byth i barhau,
mo lwybrau pechaduriaid.

### SALM II.

PAham y terfyſg gwŷr y byd,
a pha'm y cyfyd rhodres?
Pa'm y mae'r bobloedd yn cyd-wau,
yn eu bwriadau dilles?
2 Codi y mae brenhinoedd Byd,
a'u bryd yn gyd-gynghorol;
Yn erbyn Duw a Chriſt (ein plaid)
y mae pennaethiaid bydol.
3 Dryllliwn eu rhwymau, meddant hwy,
ni wnawn ni mwy ufudd-dod:
Ac ymaith taflwn eu trom lau,
ni chant yn frau mo'n gorfod.
4 Ond Duw'r hwn ſydd uwch wybrol lên
a chwardd am ben eu geiriau:
Yr Arglwydd nef a wel eu bar
efe a'u gwatwar hwythau.
5 Yna y dywaid yn ei lid
a hyn fydd rhybrid iddyn':
O'i eiriau ef y cyfyd braw,
a'i ddig a ddaw yn ddychryn.
6 Goſodais inneu (meddai ef)
a llaw gref yn dragywydd,
Fy mrenin i, yn llywydd llon,
ar ſanctaidd Seion fynydd.
7 Dymma'r ddeddf a dd'wedai yn rhwydd
hon gan yr Arglwydd elywais:
Ti yw fy mab (o'm perffaith ryw)
a heddyw y'th genhedlais.
8 Gofyn im', a mi it' a'i rhydd,
holl wledydd i'w 'tifeddu:
Y cenhedlaethau dros y byd,
i gyd a gai 'meddiannu.
9 Ti a'u briwi hwynt yn dy farn'
a gwialen haiarn hayach:
Ti a'u maluri, hwythau an,
mor fan a lleſtri priddach.
10 Am hyn yn awr frenhinoedd coeth,
byddwch ddoeth, a ſynhwyrol:
A chwithau farnwyr cymrwch ddyſg,
i oſtwng terfyſg fydol.

11 Gwas

11 Gwaf'naethwch chwi yr Arglwydd Nef
ac ofnwch ef drwy oglud:
A byddwch lawen yn Nuw cu,
etto drwy grynu hefyd.
12 Cufenwch y Mab rhag ei ddig,
a'ch bwrw yn ffyrnig heibio:
A gwyn ei byd pob calon lan,
a ymddirieda'n yuddo.

SALM III.

O Arglwydd, amled ydyw'r gwyr,
fydd yn drallodwyr i mi:
A llawer lawn i'm herbyn fydd,
o ddydd i ddydd yn codi.
2 D'wedai lawer o'r gwrthgyrch blaid,
yn drwm am f' enaid eifoes:
Nid oes iddo yn ei Dduw lor,
chwaith fawr yflor o'i enioes.
3 Tithau O Arglwydd ymhob man,
ydwyd yn darian i mi;
Fy ngogoniant wyt; tu a't nen
y codi 'mhen i fynu.
4 Ar Dduw yr Arglwydd a'm holl lais
y gelwais yn dofturaidd,
Ac ef a'm clybu i ar frys,
o'i uchel freinllys fanctaidd.
5 Mi orweddais, ac a gyfgais,
ac mi a godais wedi:
Canys yr Arglwydd oedd i'm dal,
i'm cynnal, ac i'm codi.
6 Nid ofnaf fi, o'r achos hwn,
mo fyrriliwn fydd yn barod,
O bobloedd o'm hamgylch yn dyn
i'm herbyn wedi dyfod.
7 Cyfod ti Arglwydd, achub fi
drwy gofpi fy ngelynion:
Trewaift yr en, torraift eu daint,
er maint yr annuwiolion.
8 I'r Arglwydd byth (o achos hyn)
y perthyn iechydwriaeth:
Ac ar ei bobl y difgyn gwlith,
ei fendith yn dra helaeth.

SALM IV.

DUW fy nghyfiawnder clywaift fi,
i'm cledi pan y'th elwais:
Rhyddheaift fi, dod i'm un wedd,
drugaredd, clyw fy oer-lais.
2 O feibon dynion hyd ba hyd
y trowch trwy gyd ymgabledd,
Fy march yn warth? a hynny fydd
drwy gelwydd, a thrwy wagedd.
3 Gwybyddwch ethol o Dduw cun,
iddo 'i hun y duwiolaf:
A phan alwyf arno yn hy,
efe a wrendy arnaf.
4 Ofnwch, a thewch, ac na phechiwch,
meddyliwch ar eich gwely:
5 Aberthwch, gobeithiwch Dduw ner,
rhodd cyfiawnder yw hynny.
6 Pwy (medd llaweroedd) y pryd hyn,
a ddengys in' ddaioni?
O Arglwydd, dyrcha d'wyneb-pryd,
daw digon iechyd inl.
7 Rhoift i'n calon lawenydd mwy;
(a hynny trwy dy fendith:)
Naw a fyddai gan rai yn trin,
amlder o'u gwin a'u gwenith.
8 Mi orweddaf ac a hunaf,
a hynny fydd mewn heddwch:
Can's ti Arglwydd o'th unig air,
a bair i'm ddiogelwch.

SALM V.

ARGLWYDD clyw 'ngweddi yn ddiball
Duw deall fy myfyrdod:
2 Erglyw fy llais a'm gweddi flin,
fy Nuw a'm brenin hyglod.
3 Yn foreu gwrando fi fy Naf,
yn foreu galwaf arnad:
4 Can's nid wyd Dduw i garu drwg,
ni thrig i'th olwg anfad.
5 Ni faif ynfydion yn dy flaen;
na't rhai a wnaen' anwiredd:
Y rhai hyn fydd genny yn gas,
fef diflas it' bob gwagedd.
6 Y rhai a dd'wedant ffug a hud,
a phob gwyr gwaedlyd creulon,
Ti a'u tynni hwynt hwy o'r gwraidd,
fel ffiaidd annuwiolion.
7 Dof finneu tua'th dy mewn hedd,
am dy drugaredd galwaf:
Trwy ofn a pharch, a goglud dwys,
i'th fanctaidd Eglwys treiglaf.
8 I'th gyfiawnder arwain fi Ner,
rhag blinder a chafineb:
Duw gwna dy ffordd rhag ofn eu brad
yn waftad rhag fy wyneb.
9 Can's i'w genau nid oes dim iawn,
mae llygredd llawn i'w ceudod:
Eu gyddfau fel ceulannau bedd,
a gwagedd ar eu tafod.
10 Diftrywiau hwynt, i'w camwedd, lon,
o'u holl gynghorion cwympant,
Hwnt a hwy, a'u holl ddrygioni,
i'th erbyn di rhyfelant.
11 A'r rhai a'mddiried ynot ti,
am it' gyfodi droftynt,
Llawenhant, a phob rhai a'th gar,
cei fawl yn llafar ganddynt.
12 Can's ti Arglwydd, anfoni wlith
dy fendith ar y cyfion:
A'th gywir ferch fel tarian gref,
rhoi drofto ef yn goron.

SALM VI.

O Arglwydd na cherydda fi,
ym mhoethni dy gynddaredd
Ac na chofpa fi yn dy lid,
oblegid fy anwiredd.
2 O Arglwydd dy drugaredd dod,
wyf lefg mewn nychdod rhybrudd:
O Arglwydd tyr'd, iacha fi'n chwyrn,
mae f' efgyrn i mewn cyftudd.
3 A'm henaid i o'r lleigedd hyn,
y fydd mewn dychryn 'fgeler:
Tithau O Arglwydd, pa ryw hyd,
rhoi arnaf ddybryd brudd-der?
4 Duw gwared f' enaid, dychwel di,
iacha fi a'th drugaredd:
5 Nid oes yn angau gof na hawl.
a phwy a'th fawl o'r pridd-fedd?
6 Diffygiais gan ochain bob nos,
mewn gwal anniddos foddfa:

Rwy'n

# Salmau VII, VIII, IX:

Rwy'n gwlychu drwy y cyſtudd mau,
a'm dagrau fy'ngorweddfa:
7 O ddig i'm cas a goddef drwg,
fy'ngolwg fy'n tywyllu:
A chan y dwfr a red yn rhaff,
ynt angraff ac yn pylu.
8 Pob un a wnelo, aed ymhell,
na dichell nac anwiredd.
Can's, clybu yr Arglwydd fy llais,
pan lefais am drugaredd.
9 Yr Arglwydd clybu ef fy arch,
rhoes finneu barch a moliant:
Fe dderbyn fy ngweddi, a'm gwaedd,
am hyn yr haedd ogoniant.
10 Fe wradwyddir, fe drallodir,
yn dir fy holl elynion:
Ac fo'u dychwelir drwy feſl glwth,
hwynt yn ddiſymmwth ddigon.

## S A L M VII.

O ACHUB ſi fy Nuw fy Ner,
can's mae fy hyder ynod:
Rhag fy erlidwyr gwared ſi,
can's mae o'r rheini ormod.
2 Rhag llarpio f' enaid fel y llew,
heb un dyn glew a'm gweryd:
A'm rhwygo i yn ddrylliau man,
ſal dyna amcan gwaedlyd.
3 O Arglwydd Dduw o's gwnaethum hyn
os drwg y fy'n fy nwylaw.
4 Na thrwy ymddiried, dwyll i neb,
pe bawn wrthwyneb iddaw:
5 I erlid f' oes y gelyn dood,
dalied, a rhoed ſi'n iſaf,
A ſathred f' urddas yn y llwch,
drwy'r diyſtyrwch eithaf.
6 Cyfod, O Dduw, cyfod i'th ddig,
a goſtwng big pob gelyn:
A deffro drofof yn y farn,
fef cadarn yw d'orchymmyn.
7 Pan ddringych, yr holl bobl yn llu,
a ddaw o'th ddeutu attad:
Duw dychwel i'th farn er eu mwyn,
a gwrando'n cwyn yn waſtad.
8 Duw dyro i'r bobl dy farn dau,
a barn di finnau Arglwydd:
Ac fel yr haeddais dod farn iawn;
yn ol fy llawn berffeithrwydd.
9 Derfid anwiredd y rhai drwg,
gwna 'n amlwg ffordd y cyfion:
Can's union-wyr, a chraff, Duw cu,
yn chwilio deutu'r galon.
10 Ac am fod Duw yn canfod hyn,
Duw yw f' ymddiffyn innau:
Duw fydd Iachawdwr i bob rhai,
fydd lan ddifai 'u calonnau.
11 Felly mae Duw byth ar yr iawn,
a Duw yw'r cyfiawn farnydd.
Wrth yr annuwiol ar bob tro
mae Duw yn digio beunydd.
12 Ac oni thry'r annuwiol cas,
fo lifa 'i loywlas gleddau:
Ar annel y mae bwa'r Ion,
a'i barod lymmion ſaethau.
13 Sef arfau angau at y nod,
y maent yn barod ddigon:
Ac ni faetha ef ergyd byr
ar yr erlidwyr poethion.
14 Wele hanes y gelyn drwg,
efe a 'mddwg ar draha:
O chwydd ar gamwedd, beichiog fudd,
ar gelwydd yr digora.
15 Cloddiodd ef bwll hyd elgion llawr,
o fwriad mawr i'r truan:
Ac ef a fyrthiodd ymron bawdd,
i'r defyn i'w glawdd ei hunan.
16 Ei holl anwiredd ar ei ben,
o uchder nen a ddiſgyn:
A Duw a ddymchwel yr un wedd,
ei gamwedd ar ei goryn.
17 I'm hargiwydd Dduw rhof finnau g'
caf ganfod ei gyfiawnder;
A chanmolaf ei enw yn rhwydd,
yr Arglwydd o'r uchelder.

## S A L M VIII.

O Arglwydd ein Ior ni a'n nerth,
mor brydferth wyd drwy'r hollfyd f'
Dy enw, a'th barch, a roiſt uwch ben
daiar ac wybren hefyd.
2 Peraiſt it' nerth o enau plant,
a'r rhai a ſugnant beunydd,
Rhag d' elynion: tawed am hyn,
y gelyn a'r dialydd.
3 Wrth edrych ar dy nefoedd faith
a gweled gwaith dy fyſedd,
Y lloer, y ſer, a threfn y rhod,
a'u gofod mor gyfannedd,
4 Pa beth yw dyn it' i'w goffhau,
o ddoniau ac anwyl-fraint?
A pheth yw mab dyn yr un wedd
lle rhoiſt ymgeledd cymmaint?
5 Ti wnaethoſt ddyn o faint a phris,
ychydig is Angylion:
Mewn mawr ogoniant, parch, a nerth,
rhoiſt arno brydferth goron.
6 Ar waith dy ddwylo is y Nef,
y gwnaethoſt ef yn bennaeth:
Gan oſod pob peth dan ei draed,
iddo y gwnaed llywodraeth.
7 Defaid, gwartheg, a holl dda maes;
a'r adar llaes eu heſgyll,
Ehediad Nef, a'r pyſg o'r don,
fy'n tramwy'r Elgion erchyll.
8 O Arglwydd ein Ior ni a'n nerth,
mor brydferth wyd drwy'r hollfyd
Dy enw a'th barch a roiſt uwch ben
daiar ac wybren hefyd.

## S A L M IX.

CLodforaf ſi fy Arglwydd Ion,
o'm calon, ac yn hollawl,
Ei ryfeddodau rhof ar led,
ac mae'n ddyled eu canmawl.
2 Byddaf ſi lawen yn dy glod,
ac ynod gorfoleddaf:
I'th enw (O Dduw) y canaf glod,
wyd hynod, y Goruchaf.
3 Tra y dychwelir draw'n ei hol
fy holl elynol luoedd,
Llithrant o'th ſlaen, difethir hwy,
ni ddon' hwy mwy i'w lleoedd.

4 Can's rhoiſt ſy marn yn ſatter da,
gwnaethoſt eiſteddfa union:
Eiſteddaiſt ar y gwir, yn ſiwr,
tydi yw'r barnwr cyſion.
5 Ceryddaiſt, a diſtrywiaiſt di
y cenhedlaethi cyndyn,
Diwreiddiaiſt ynfyd yn y bon,
ni bydd byth ſon am danyn'.
6 Diſtrywiaiſt dithau (elyn glas)
do lawer dinas hyſryd:
Darfu dy nerth byth, darfu hyn,
a'r cof o honyn' hefyd.
7 Ond yr Arglwydd i'w nerth a fydd
ac yn dragywydd pery:
A pharod fydd ei faingc i farn,
a chadarn ydyw hynny.
8 Can's efe a farna y byd,
a'r bobl i gyd ſydd ynddo:
Trwy gyfiawnder, heb ofni neb,
a thrwy uniondeb rhagddo.
9 Gwna'r Arglwydd hefyd hyn wrth raid,
trueiniaid ſo'u hymddiffyn:
Noddfa a fydd i'r rhai'n mewn pryd,
pan ſo caledfyd arnyn'.
10 A phawb a'th edwyn rhon eu cred,
a'u holl ymddiried arnad:
Can's ni adewaiſt Arglwydd neb,
a geiſio i' wyneb attad.
11 Molwch chwi'r Arglwydd yr hwn ſydd
yn ſanctaidd ſynydd Seion:
A d'wedwch i'r bobl fal yr oedd
ei holl weithredoedd mawrion.
12 Pan chwilio ſe am waed neu drais,
ſe gofia lais y truain,
Pan eiſteddo ar faingc y frawd,
ſe glyw y tlawd yn germain.
13 Dy nawdd Arglwydd, dydi im 'ſydd
dderchafydd o byrth angau:
A gwel ſy mlinder gan ſy nghas,
y ſydd o'm cwmpas innau.
14 Fel y mynegwyf dy holl wyrth,
a hyn ymhyrth merch Seion:
Ac fel y bwyf lawen a ffraeth,
i'th iachawdwriaeth dirion.
15 Y cenhedloedd cloddiaſant ffos,
lle'i ſuddent, agos boddi:
I arall lle cuddiaſant rwyd,
eu traed a faglwyd ynddi.
16 Yr Arglwydd Nef fel hyn yn wir,
adwaenir wrth ei farnau:
A'r annuwiol a wnaethai'r rhwyd,
yn hon y daliwyd yntau.
17 Ar annuwiol i uffern aed,
ac yno gwnaed ei wely:
A'r rhai a 'llyngant Dduw dros goſ,
bydd yno ſyth eu letty.
18 Can's byth y gwirion a'r dyn tlawd
hyd ddydd brawd nis anghofir:
Y gweiniaid a'r trueiniaid hwy,
eu gobaith mwy ni chollir.
19 O cyſod Arglwydd yn dy wyn,
na ad i ddyn mo'th orfod:
Barna'r cenhedloedd ger dy fron,
a'th farn yn union goſod.
20 Gyr arnynt Arglwydd ofn dy rym;
yn awchlym i'th elynion;
Fel y gwybyddont, pe baent mwy,
nad ydynt hwy ond dynion.

## S A L M X.

O Arglwydd pa'm y ſefi di,
oddiwrthym ni cyn belled?
Pa'm yr ymguddi di a'th rym,
pan ydym mewn caethiwed?
2 Y drygai ſydd yn blino'r tlawd,
gan drallawd, a chan falchder:
Yn y dichellion a wnai' rhai'n,
hwynt-hwy eu hunain dalier.
3 Hoff gan ddyn drwg ei chwant ei hun,
pawb yn gyttun a'i bechod:
Bendithio mael ydyw eu ſwydd,
a'r Arglwydd maent i'w wrthod.
4 Yr annuwiol ni chais Dduw ner,
(mae ef i'w falchder cyſuwch:)
Ni chred ef, ac ni feddwl fod,
un fath awdurdod goruwch.
5 Am fod ei ffyrdd mewn llwyddiant hir
ni wel mo'th wir gyfammod:
Bydd dordyn wrth elynion man,
fel chwythu tan mewn ſorod.
6 Fe dd'wedodd hyn a'i feddwl ſyth,
ni ddigwydd byth im' adfyd:
Ni'm ſymmudir o oes i oes,
ni chaf na gloes, na dryſgyd.
7 Yn ddichellgar, yn dwyllgar iawn,
a'i ſafn yn llawn melldithion:
Tan ei dafod y mae camwedd,
a thraws anwiredd creulon.
8 Mewn cilfechydd y diſgwyl ſan,
i ladd y truan gwirion:
Ac ar y tlawd a llygad llym,
yn dangos grym ei galon.
9 Fe orwedd fel y llew i'w ffau,
i fwrw ei faglau trawſion:
Y gwan a'r tlawd a dyn i'w rwyd,
ac yno daliwyd gwirion.
10 Fe duchan, fe a'mgrymma 'i hun,
fel un ar farw o wendid,
Ac ef yn gryf, a fel yn wael,
ar wan i gael ei ergyd.
11 Yn ei galon, d'wedodd am Dduw,
nad ydyw yn gofiadur:
Cuddiodd ei wyneb, ac ni wel
pa beth a wnel creadur.
12 Cyſod Arglwydd, dercha dy law,
dy fod i'n cofiaw dangos:
Ac nag anghofia, pan ſo rhaid,
dy weiniad a'th werinos.
13 Paham y cablant hwy wir Dduw,
yr enwir annuw lledfrom?
Pa'm y meddyliant arnat ti
nad ymofynni 'm danom?
14 Gwelaiſt hyn; can's canfyddi drais
a choſpi falais anfad:
Tydi yw gobaith tlawd a'i borth,
a chymmorth yr ymddifad.
15 Tor ymaith yr annuwiol rym
yn gyſtlym, a'r maleiſus;
Cais allan eu hanwiredd hwy
ni chai di mwy 'n ddrygionus.
16 Yr Arglwydd ſydd yn Frenin byth
ef yw'r gwehelyth lywydd:

Diſtrywiwyd

Diſtrywlwyd pob cenhedlaeth gref
o'i dir ef, yn dragywydd.
17 Duw, gweddi'r gwan a glywaiſt di:
ac a gyſmyri'r galon:
Tro eilwaith attom y gluſt dau,
a chlyw weddiau ffyddlon.
18 Tros yr ymddifad y rhoi farn,
a'r gwan ſydd cadarn bellach:
Megys nas gall daiarol ddyn
mo'r pwyſo arnyn' mwyach.

## SALM XI.

CRedaf i'r Arglwydd yn ddi-nam
paham y d'wedwch weithian,
Wrth f' enaid, hwnt, a hed i'th fryn,
fel wrth aderyn bychan?
2 Wele'r annuwiol a'u bwau,
a'u cawell ſaethau'n barod.
Am wirioniaid yn llechu'n ſain,
i ſaethu 'r rhain o gyſgod.
3 Y ſeilfain oll i lygredd aeth;
ond beth a wnaeth y gwirion?
Mae'r Arglwydd yn ei ddinas gref,
ſe weryd ef y cyſion.
4 Yr Arglwydd o'i orſeddfa fry
at y tlawd try ei olwg,
Gweithredoedd holl hiliogaeth dyn,
i'w lygaid ydyn' amlwg.
5 Mae'r Arglwydd o'r naturiaeth hon,
prawf gyſion er ymgeledd:
Ond cas yw gan ei enaid ſo
ddyn drwg a hoffo wagedd.
6 Ar bechaduriaid marwor tan,
a brwmſtan a ddaw'n gawod,
A gwynt tymheſtlog uchel iawn,
fal dyna lawn wialennod.
7 Can's cyſion ydyw'r Arglwydd ner,
cyfiawnder mae'n ei garu,
A'i wyneb at yr union try,
a hynny i'w ymg'leddu.

## SALM XII.

OAchub bellach Arglwydd cu,
ſe ddarfu'r trugarogion:
A'r holl wirionedd ar ball aeth,
o blith hiliogaeth dynion.
2 A gwefus gweniaith d'wedant ffug:
er twyll a hug i'r eiddynt;
A chalon ddyblyg yr un wedd
y cair oferedd ganddynt.
3 Yr Arglwydd torred o'i farn faith
wefuſau'r gweniaith diles:
A'r holl dafodau ffroſtus iawn
a fyddo llawn o rodres.
4 Gallwn orfod o nerth tafod,
dwy wefus y ſydd eiddom:
Fal hyn y d'wedant hwy yn rhwydd,
a phwy ſydd Arglwydd arnom?
5 Yntau ein Duw a ddwedodd hyn
rhag llethu'r gwaelddyn codaf:
Y dyn gofidus, tlawd, a'r caeth,
mewn iechydwriaeth dodaf.
6 Pur iawn yw geiriau'r Arglwydd Nef,
a'i ddewid ef ſydd berffaith.
Fel arian o ffwrn, drwy aml dro
wed'i goeth buro ſeithwaith.
7 Ti Arglwydd, yn ol dy air di,
a'u cedwi mewn hyfrydwch
Byth rhag y ddrwg genhedlaeth hon,
dy weiſion i gael beddwch.
8 Pan dderchafer y trawſion blin,
da ganddyn' drin anwiredd:
Felly daw dynion o bob parth
i ſwyſwy gwarth o'r diwedd.

## SALM XIII.

PA hyd fy Arglwydd Dduw dilyth?
a'i byth yr wyf mewn anghof?
Pa guddio'r wyd (O Dduw) pa hyd,
dy lau wyneb pryd rhagof?
2 Pa hyd y rhed meddyliau tro
bob awr i ſlino 'nghalon?
Pa hyd y goddefaf y dir?
dra codir fy nghaleion.
3 O Arglwydd edrych arnaf fi,
a chlyw fy ngweddi ffyddlon,
Agor fy llygaid, rhag eu cau
ynghyſgfa angau ddigllon.
4 Pe llithrwn ddim, (rhag maint yw'r llid)
fo dd'wedid fy nghorchfygu,
A llawen fyddai fy holl gas:
dal fi o'th ras i fynu.
5 Minnau'n dy nawdd a rois fy ffydd,
a'm holl lawenydd eithaf:
Canaf i'm Duw am helpodd i,
gwnaf gerddi i'r Goruchaf.

## SALM XIV.

HE ddwedai'r ynfyd nad oes Duw,
ac felly byw drwy goegni;
Ymſygru'n ffiaidd, ni chais gel:
nid oes a wnel ddaioni.
2 O'r Nef yr edrychodd yr Ion,
ar holl drigolion daiar,
A roddai neb ei goel ar Dduw,
a cheiſio byw'n ddealigar.
3 Fe giliodd pawb at lygredd byd,
ymdroent i gyd mewn brynti:
Nid oes un a wnel well na hyn,
nac un a fyn ddaioni.
4 Eu gwddf fy fedd agored cau
maent a thafodau' ſtrywgar:
A gwenwyn lindys fy'n parhau
dan eu gwefuſau twyllgar.
5 A'u genau'n llawn (fel gwenwyn llith)
o felldith, ac o fuſtledd:
Ac anian elgud yw eu traed,
i dywallt gwaed a dialedd.
6 Diſtryw ac anhap fy'n eu ffyrdd
ni 'dwaenant briffyrdd heddwch,
Nid oes ofn Duw'n eu golwg hwy
ni cheiſiant mwy 'difeirwch.
7 Pa'm? oni wyddant hwy eu bod
drwy bechod, y modd yma,
Yn yſu fy mhobl a'u cildroi,
un wedd a chnoi y bara?
8 Gweddio'r Arglwydd hwy ni wnant,
yn hyn dychrynnant luoedd.
Am fod Duw'n dala gyda'r iawn,
yn un a'r cyfiawn bobloedd.
9 Gwradwyddoch gynt gyngor y tlawd
fel y gwnewch drallawd ette:

Am

Am i'r tlawd gredu y doe llwydd
oddiwrth yr Arglwydd iddo.
10 Pwy a all roi i Iſrael,
O Seion uchel iechyd?
Pwy ond ein Duw? yr hyn pan wnel,
bydd lago ac Iſr'el hyfryd.

## SALM XV.

DYWED i mi pa ddyn a drig,
i'th lys parchedig, Arglwydd,
A phwy a erys ac a fydd
yn mynydd dy ſanctteiddrwydd?
2 Yr hwn a rodia 'n berffaith dda,
yr hwn a wna gyfiawnder:
A'r hwn a draetha o'i galon wir,
a drig ar dir uchelder.
3 Yr hwn ni ddyweid, ac ni wna
ddim ond o'r da bwygilydd:
Ac ni chynnwys y rhai a ron
i'w cymmydogion g'wilydd.
4 Yr hwn ſydd iſel yn ei fryd,
yn caru'i gyd griſt'nogion,
Yr hwn ſy'n ofni'r Arglwydd Dduw,
ac ſydd yn byw yn ffyddlon.
5 Yr hwn ni thyng ddim ond y gwir
er dir neu niweid iddo:
Ac ni ro ei arian yn llog,
er dwyn cynnmydog dano.
6 Na gwobr, na rhodd, yr hwn ni fyn,
er dal yn erbyn gwirion.
7 A wnelo hyn ni lithra fyth,
ſe gaiff y ddilyth goron.

## SALM XVI.

CADW fi Dduw, can's rhois fy mhwys
a'm coel yn dradwys arnad:
2 Fy Arglwydd wyd; mae dan fy mron,
y gyffes hon yn waſtad:
3 Nad lles it' yw, ha'm da, na'm rhin:
Ond i drin ſaint daiarol;
I leſu'r rhai'n fy 'wyllys yw,
y rhai fy'n byw'n rhinweddol.
4 I'r rhai a redant at Dduw gau,
y daw gofidiau amlder;
Eu diod offrwm o waed, ni
offrymmaf fi un amſer.
5 Ni henwaf chwaith. Yr Arglwydd yw
fy modd i fyw, a'm phiol:
A thydi lor, fy'n rhoi 'mi ran,
a chyfran yn ddigonol.
6 A thrwy Dduw fyrthiodd i mi ran,
o fewn y ſan hyfrydaf:
Digwyddodd i mi, er fy maeth,
yr etifeddiaeth lanaf.
7 Bendithiaf finnau Dduw fy lor,
hwn a roes gyngor i mi:
F'arennau hefyd ddydd a nos,
fydd im'yn dangos hynny.
8 Rhois fy Ner (bob awr) ger fy mron;
o'r achos hon ni lithraf,
Can's mae ef ar fy neheu-law,
yma na thraw ni fyddaf.
9 O herwydd hyn, llawen a llon
yw fy nghalon; ac eilwaith
Hyfryd yw fy mharch a di-ddig,
a'm cnawd a drig mewn gobaith.
10 Can's yn uffern ni edi di
mo'm henaid i, i aros;
Na'th anwyl ſanct (drwy naws y bedd)
i weled llygred ceuflos.
11 Dangoſi im lwybr ſyw 'n iawn,
dy fron yw'r llawn llawenydd:
Can's yn dy neith, nid yn y llwch,
mae digrifwch tragywydd.

## SALM XVII.

OClyw gyfiawnder Arglwydd mad,
yſtyr fy nad i'th grybwyll,
Cluſt ymwrando ar weddi fau
ſydd o wefuſau didwyll.
2 Diſgwylia 'marn oddiwrthit ti,
can's da y gweli'r union:
Profaiſt a gwyddoſt gunol nos
mor ddiddos ydyw' nghalon.
3 Pan chwiliaiſt fi (da yw dy gof)
ni chefaiſt ynof gamwedd,
Fy myſr mad na'm meddwl llaes,
na ddoed i faes o'm dannedd.
4 I ochel cydwaith dynion drwg,
drwy d'air a'th amlwg gyngor,
Ffoidd y dyn trawſgryf haerllyd llym,
ſe ddyſgwyd im' ei hepgor.
5 Ond yn dy union lwybrau di,
Duw cynnal fi yn waſtad,
Rhag llithro allan o'th iawn hwyl,
Duw diſgwyl fy ngherddediad.
6 Galw yr wyf arnad, am dy fod
yn Dduw parod i wrando,
Goſtwng dy gluſt, a chlyw yn rhodd
fy holl ymadrodd etto.
7 Cyfranna dy ddaionus rad,
(ti 'r hwn wyt geidwad ffyddlon)
I'r rhai fy'n ymroi dan dy law,
rhag broch, a braw y trawſion.
8 Cadw fi'n anwyl rhag eu twyll,
fel anwyl ganwyll llygad;
Ynghyſgod dy adenydd di,
o cadw fi yn waſtad:
9 Rhag yr annuwiol a'u mawr bwys
a rhag fy nghyſrwys elyn,
Y rhai a gais fy enaid i,
gan godi yn fy erbyn.
10 Maent hwy mor dordyn ac mor fras,
ac yn rhy gas eu geiriau:
Ac yn rhoi allan ſtroſt ar led,
gan falched eu parablau.
11 Maent hwy yn amgylchu yn flin,
lle yr ym ni'n cynniwer,
Ac a'u golygon tua'r llawr
mewn gwg a thramawr hyder.
12 Maent hwy fel llew, dan godi gwrych
a fai'n chwennych yſglyfaeth:
Neu fel llew ifangc (er ei les)
a geiſiai loches hyfaeth.
13 Cyfod Arglwydd, o'i flaen ef ſaf
dy help a gaf i'm henaid,
A tharo i lawr a'th gleddyf noeth
yr enwir ffamboeth tanbaid.
14 Rhag gwyr dy law rhag gwyr y byd
ſ' a'u rhan i gyd oddiyma,
Gan lenwi boliau, a rhoi i'w plant
yn fawr eu chwant a'u traha.
15 Minnau mewn myfyr, fel mewn hun
a welaf fun d'wynebpryd,

# Salmau XVIII.

A phan ddihunwyf o'r hun hon
y byddaf ddigon hyfryd.

## S A L M XVIII.

1 I'OR fy 'ngrym caraf di'n fawr,
fy nghreiglawr, twr fy 'mwared:
2 Fy Naf, fy nerth, fy nawdd, fy Nuw,
hwn yw fy holl ymddiried.
3 Pan alwyf ar fy Ior hynod.
i'r hwn mae clod yn gyfion,
Yna i'm cedwir yn ddiau
rhag drygau fy nghaſeion.
4 Gofidion angau o bob tu
oeddynt yn cyrchu 'm herbyn.
A llifodd afonydd y fall
yn ddiball, er fy nychryn.
5 Pan ydoedd ſwyaſ ofn y bedd,
a gwaedlyd ddiwedd arnaf,
Ag arfau angau o bob tu,
a'm cas yn neſu attaf:
6 Yna y gelwais ar fy Ner,
ef o'r uchelder clywodd.
A'm gwaedd a ddaeth hyd ger ei fron,
a thirion y croeſawodd.
7 Pan ddigiodd Duw, daeth daiar-gryn,
a ſail pob bryn a ſiglodd:
A chyffro drwy'r wlad ar ei hyd,
a'r oll ſyd a gynhyrſodd.
8 O'i eneu tan, o'i ffroenau tarth,
yn nynnu pob parth wybren:
9 A chan gymmylau dan ei draed,
du y gwnaed y ffurfafen.
10 Ac fal yr oedd ein Ior fel hyn,
uwch Cerubyn yn hedeg:
Ac uwch law adenydd y gwynt,
mewn nefol helynt hoywdeg.
11 Mewn dyfroedd a chymmylau fry,
mae'i wely heb ei weled:
12 Ac yn eu gyrru'n genllyſg man
a marwor tan i wared.
13 Gyrrodd daranau dyna 'i lef,
gyrrodd o'r Nef gennadon.
14 Cenllyſg, marwor tan, mellt yn gwau
fal dyna'i ſaethau poethion.
15 Diſtrywiwyd dy gas; felly gynt
gan chwythiad gwynt o'th enau,
Gwaſgeraiſt di y moroedd mawr,
gwelwyd y llawr yn olau.
16 Felly gwnaeth Duw a mi'r un modd,
anfonodd o'r uchelder,
Ac a'm tynnodd o'r lle yr oedd,
i'm hamgylch ddyfroedd lawer.
17 Fe a'm gwaredodd Duw fel hyn,
oddiwrth fy ngelyn cadarn,
Yn rhyddrwm i mi am ei fod;
rhof finnau glod hyd ddydd-farn.
18 Safent o'm blaen ni chawn ffordd rydd,
tra fum yn nydd fy ngofid;
Ond yr Arglwydd ef oedd i'm dal,
a'm cynnal yn fy ngwendid.
19 Fy naf ei hun a'm rhoes yn rhydd,
fe fu waredydd i mi;
Ac o draſerch i mi y gwnaeth,
na bawn i gaeth ond hynny.
20 Yr Arglwydd a'm gobrwya'n ol
fy ngwaſtadol gyfiawnder:
Ac yn ol glendid fy nwy law,
tal im' a ddaw mewn amſer.
21 Can's ceiſiais ffyrdd fy Arglwydd Nef
ni wneuthum hyder ormod,
Na dim 'ſgeler erbyn fy Nuw,
gochelais gyfryw bechod.
22 Can's ei ddeddfau, maent ger fy mron
a'i hollawl gyfion farnau;
Ac ni rois heibio'r un o'r rhai'n,
hwy ynt fy nghoelfain innau.
23 Bum berffaith hefyd o'i flaen, ag
ymgedwais rhag byw'n rhyddrwg.
24 A'r Arglwydd gobrwyodd fi'n llawn
yr hyn fu'n iawn i'w olwg.
25 I'r trugarog, trugaredd rhoi,
i'r perffaith troi berffeithrwydd:
26 A'r glan gwnei lendid, ac i'r tyn
y byddi gyndyn, Arglwydd.
27 Can's mawr yw dy drugaredd di,
gwaredi'r truan tawel:
Ac a oſtyngi ger dy fron,
rai a golygon uchel.
28 Ti a olcui 'nghanwyll i,
am hynny ti a garaf,
Tydi a droi fy nos yn ddydd,
a'm tywyll fydd goleuaf.
29 Oblegid ynot ti, fy Naf,
y torraf trwy y fyddin:
Ie 'n fy Nuw y neidiai'n llwyr,
ie tros y fagwyr feinin.
30 Ys perffaith ydyw ffordd Duw Nef,
a'i air ef ſydd buredig:
Ac i bob dyn ynddo a gred
mae'n fwcled bendigedig.
31 Can's pwy ſydd Dduw? d'wedwch yn
pwy ond yr Arglwydd nefol? [rhwydd
A phwy ſydd graig onid ein Duw?
ſef, difigl yw'n dragwyddol.
32 Duw a'm gwregyſodd i a nerth,
a rhoes im' brydferth lwybrau.
33 Fe roes fy nrhaed ar hy lwybr da,
gorſeddfa'r uchel fannau.
34 Eſe ſy'n dyſgu rhyfel im',
gan roi grym i'm pawennau:
Fel y torrir bwa o ddur
yn bryſur rhwng fy mreichiau.
35 Daeth o'th ddaioni hyn i gyd,
rhoiſt darian iechyd i mi;
A'th law ddeau yr wyd i'm dwyn,
o'th fwynder yr wy'n tyfu.
36 Ehengaiſt i mi lwybrau teg,
i redeg buan gamrau.
Nid oes ynof un cymmal gwan,
ni weggian fy mynyglau.
37 Erlidiais i fy nghas yn llym,
a daethum i'w goddiwedd:
Ac ni throis un cam i'm hol mwy
nes eu bod hwy'n gelanedd:
38 Gwnaethum arnynt archollion hyll
fel ſefyll na's gallaſant.
Ond trwy ammharch i'w cig a'u gwaed
i lawr dan draed ſyrthiaſant.
39 Gwregyſaiſt fi a gwregys nerth,
at wres ac angerth rhyfel:
A'r rhai a ddaeth i'm herbyn i,
a gwympaiſt di'n ddiogel.

40 Fal

40 Fal hyn y gwnaethoft imi gau
a'r gwrthu fy ngelynion,
A'm holl gas a ddifethais i,
rhois hwynt i weiddi digon.
41 Ac er gweiddi drwy gydol dydd
ni ddoe achubydd attynt:
Er galw'r Arglwydd, ni ddoe neb
a roddai atteb iddynt.
42 Maluriais hwy fel llwch mewn gwynt,
fel dyna helynt efrydd:
Ac mi a'n fethrais hwynt yn ffrom,
fel pridd neu dom heolydd.
43 Gwaredaift fi o law fy nghas,
rhoift bawb o'm cwmpas danaf:
Doe rai ni welfent fi erioed
a llaw, a throed, hyd attaf.
44 Addaw ufuddl-dod, ond fo gaid
gan blant eftroniaid gelwydd.
45 A phlant eftroniaid twyll a wnant,
ond crynant i'w ftafellydd.
46 Eithr byw yw'r Arglwydd ar fy mhlaid;
fy nghraig fendigaid hefyd
Derchafer Duw; ynddo ef trig
fy nerth a'm hunig lechyd.
47 Fy Nuw tra fo a'i nerth i'm dal,
rhoi dial hawdd y gallaf:
A rh'oli pobloedd: cau's efo
fydd yn eu t'wyfo attaf.
48 Fy ngwaredydd, a'm derchafydd,
o chyfyd rhai i'm herbyn,
Wyt ti o Dduw; a'm dug ar gais
rhag drwg a thrais y gelyn.
49 Am hyn canmolaf di yn rhwydd
O Arglwydd, Dduw y llnoedd:
Canaf dy glod; a hyn fydd dyfg
ym myfg yr holl genhedloedd.
50 Duw fydd yn gwneuthur (o'i fawr rad)
fawrhad i frenin Dafydd,
Ac i'w enneiniog ei wellhad
ac i'w had yn dragywydd.

## S A L M XIX.

DATGAN y nefoedd fawredd Duw
yr unrhyw gwna'r ffurfafen:
2 Y dydd i ddydd, a'r nos i nos,
fy'o dangos cwrs yr wybren.
3 Er nad oes ganddynt air nac aith,
da 'dywaid gwaith Duw lywydd,
Dian nad oes na mor na thir,
na chlywir eu lleferydd.
4 Aeth eu fain hwy drwy yr holl fyd;
a'u geiriau hyd eithafoedd.
Yr haul teg a'i gwmpas fydd bell,
a'i babell yn y nefoedd.
5 O'r hon y cyfyd ef yn rhod,
fel priod o'i orweddfa:
I'w gwrs cyrch drwy lawenydd mawr
fel cawr yn rhedeg gyrfa.
6 O eithaf hyd eithafoedd Nef
y mae ef a'i amgylchied:
Ac ni all dim (lle rhydd ei dro)
ymguddio o'i oleuad.
7 Dyfg yr Arglwydd fydd berffaifh ddawn
a dry i'r iawn yr enaid,
Felly rhydd ei wir dyftiolaeth
wybodaeth i'r ffyddloniaid.
8 Deddfau Duw Ion ydynt union,
A'i orchymmyn fydd bur ddiau,
a rydd olau i'r golwg.
9 Ofn yr Arglwydd fydd lan, a byth
y pery'n ddilyth hyfryd.
Barnau'r Arglwydd ynt yn wir llawn
i gyd, a chyfiawn hefyd.
10 Mwy deifyfedig ynt nac aur,
ie na choeth-aur lawer,
Melyfach hefyd ynt na'r mel,
fef dagrau ter-fel tyner.
11 Can's ynddynt dyfgir fi, dy was,
ar addas, a'r unionder:
A'r holl gam'fy o'u cadw hwy,
felly ceir gobrwy fawer.
12 Er hynny i gyd, pwy a all,
iawn ddeall ei gamweddau?
O gwna fi'n lan, a (bydd ddiddig)
o'm holl guddiedig feiau.
13 Duw attal feiau rhyfyg, chwant,
na thyfant ar fy ngwarthaf:
Yno byddaf wedi 'nglanhau
o'm holl bechodau mwyaf.
14 O Arglwydd, fy mhrynwr a'm nerth
bydded yn brydferth gennyd
Fy 'madrodd, pan ddel ger dy fron,
a'm myfyr calon hefyd.

## S A L M XX.

GWrandawed di yr Arglwydd Ner,
pan ddel cyfyngder arnad.
Enw Duw Jacob, ein Duw ni,
a'th gadwo di yn waftad.
2 O'i gyffegr rhoed it' help a nerth,
a braich o brydfreth Seion.
3 Cofied dy offrwm poeth a'th rodd,
bo 'rhai'n wrth fodd ei galon.
4 Rhoed iti wrth dy fodd dy hun,
dy ddymun a'th adduned
Dy fwriad iach a'th arfaeth tau,
a'th weddiau gwrandawed.
5 Yn enw ein Duw gorfoleddwn
yn hyf, a chodwn faner:
A'th ddeifyfiadau gwnaed yn rhwydd,
yr Arglwydd o'r uchelder.
6 Yr Arglwydd gweryd (felly gwn)
o'i gyffegr drwn ei 'neiniog:
Gwrendy ei arch, gyr iddo rym
yn gyflym ac yn gefnog.
7 Rhai ar gerbydau rhont eu pwys,
rhai ar feirch ddwys ymddiried:
Minneu ar enw yr Arglwydd Dduw
mai hwnnw yw'n ymwared.
8 Hwy a'mroefant a fyrthiafant,
yn eu nerth eifoes yno:
Codafom a fafafom ni,
O Dduw, a thi i'n llwyddo.
9 Cadw ni Arglwydd a'th law gref,
boed brenhin y Nef drofom:
Gwrandawed hwnnw arnom ni,
a'n gweddi pan y llefom.

## S A L M XXI.

O Arglwydd, yn dy nerth a'th rin,
mae'r brenhin mewn llawenydd;
Ac yn dy iechyd, yr un wedd,
mae ei orfoledd beunydd.

2 Hoff

# Salmau XXII.

2 Holl ddelfyfyd ei galon lan
iddo yn gyfan dodaiſt:
Cael pob dymuniad wrth ei fodd,
ac un rhodd ni phallaiſt.
3 Can's da 'r achubaiſt ei flaen ef
a doniau Nef yn gyntaf:
Ac ar ei ben (ddaionus lon)
rhoiſt gonor aur o'r puraf.
4 Ef a ofynodd gennyd oes,
a rhoddaiſt hiroes iddo:
A hon dy rodd dros byth y bydd,
nid a'n dragywydd heibio.
5 I'th lachawdwriaeth y mae'n byw,
a mawr yw ei ogoniant:
Goſodaiſt arno barch a nerth,
a phrydferth yw ei lwyddiant.
6 Rhoiſt dy fendithion, uwch pob tawl,
yn rhodd drag'wyddawl iddo:
A llewyrch d' wyneb byth a fydd
yn fawr lawenydd arno.
7 Am fod y Brenhin yn rhoi 'i gred
a'i 'mddiried yn yr Arglwydd:
Dan nawdd y Goruchaf tra fo,
gwn nâ ddaw iddo dramgwydd.
8 A thydi, Arglwydd, a'th law lan,
cei allan dy elynion:
Rhag dy ddeheulaw (er a wnant)
ni ddiangant dy gaſeion.
9 Di a'u goſodi 'n nydd dy ddig,
fel ffwrnais ffyrnig danllyd;
Yr Arglwydd i'w lid a'u diſa,
a'r tan a'u hyfa'n enbyd.
10 Diwreiddi di eu ffrwyth o'r tir,
a'u had yn wir ni thycciant:
11 Am fwriadu it' ddrwg dilen,
heb ddwyn i ben mo'u hamcan.
12 Ti a'u goſodi hwy 'r naill du,
a thi a'th lu i'w herbyn:
Ac a leſeli dy fwau
at eu hwynebau cyndyn.
13 Ymddyrcha dithau, f' Arglwydd Gun,
i'th nerth dy hun a'th erfid:
Ninnau a ganwn, o'n rhan ni,
i foli dy gadernid.

## S A L M XXII.

DAngos, fy Nuw, fy Nuw a'm grym,
ba achos y'm gadewaiſt:
Pell wyd o'm hiechyd, ac o nad
fy mloeddiad; llwyr y'm pallaiſt.
2 Fy Nuw, rwy 'n llefain, tithau heb
roi im' mor atteb etto;
Bob dydd a nos mae 'nghri 'n ddi-ffael,
a heb gael mo'm dyhuddo.
3 A thi wyd ſanct, ſanct i barhau,
lle daw gweddiau 'n waſtad:
A holl dy Iſrael, a'u clod,
a'u pwys a'u hyſtod attad.
4 Ynot gobeithiai 'n tadau ni,
a thydi oedd eu bwcled:
Ymddiried ynot, Arglwydd hael,
ac felly cael ymwared.
5 Llefaſant drwy ymddiried gynt;
dâ fuoſt iddynt, Arglwydd:
Eu hachub hwynt a wnaethoſt di,
rhag cyni, a rhag gw'radwydd.
6 Fo'm rhifir innau megis pryf,
nid fel gwr cryf ei arfod:
Fel dirmyg dynion, a gwarth gwael;
a thybiant gael eu hyſtod.
7 Pawb a'm gwelent, a'm gwatworent
ac a'm min gamment hefyd:
Yſgwyd eu pennau yn dra hy,
a chwedi hynny d'wedyd.
8 Ar yr Arglwydd rhoes bwys a chred,
doed ef i'w wared allan:
Os myn ei ollwng ef ar led,
cymmered iddo 'i hunan.
9 Duw, tynnaiſt fi o groth fy mam,
rhoiſt ynof ddynam obaith,
Pan oeddwn i yn ſugno hon,
ac o'i dwy fron a'm harchwaith.
10 Arnat ti bwriwyd fi o'r bru,
arnat ti bu fy 'mddiried;
Fy Nuw wyt ti o groth fy mam;
ffyddiais it' am fy ngwared.
11 Oddiwrthyf fi yn bell na ddos,
tra fo yn agos flinder;
I'm cymmorth i, gan nad oes neb
a drotho i' wyneb tyner.
12 Buſtych lawer, a chryfion iawn,
daethant yn llawen i'm gogylch:
A theirw Baſan, o bob parth,
yn codi tarth o'm hamgylch.
13 Egorant arnaf enau rhwth,
i'm bygwth, fel y llewod,
A faent yn rhuo eiſiau maeth,
o raib yſglyfaeth barod.
14 Fel dwfn 'rwyf fi 'n diferu 'n chwyrn,
a'm heſgyrn, ſigla'r rheini:
Fy nghalon o'm mewn darfu 'n llwyr,
fel cwyr a fai yn toddi.
15 Fel priddleitr mae fy nerth mor ſwrth,
ynglyn wrth fy ngorchfannau
Mae fy nhafod: yr wyf mor drwch,
fy nghyſle yw llwch angau.
16 Can's cwn cylchaſant fi, fy Ner,
a chadfa 'ſgeler ddiffaith:
Cloddiaſant fy nwy law a'm traed,
ac felly gwnaed fy artaith.
17 A rhifo fy holl eſgyrn i,
gan gulni, hawdd y gallaf:
Maent hwythau 'n gweled hynny 'n wych,
bob tro yn edrych arnaf.
18 Rhyngthynt i'w myſg y dillad mau
yn rhannau doſparthaſant:
A hefyd ar fy mhrif-wiſg i
coelbrenni a fwriaſant.
19 Tithau, fy nerth, a'm Harglwydd da,
nac ymbella oddiwrthy:
O bryſia, tydi yw fy mhorth;
a thyr'd a chymmorth ymy.
20 O tyr'd, ac achub yr oes fau
rhag ofn y cleddau ffyrnig:
A gwared o feddiant y ci
fy enaid i fy'n unig.
21 Ymddiffyn fi rhag y llew glwth;
dwg o'i ſafn rhwth fy enaid:
Achub, a gwrando fi yn chwyrn,
rhag cyrn yr unicorniaid.
22 Mynegaf finnau d'enw yn bur
i'm brodyr yn yr orfedd:

Lle mwyn 'r gynnylleidfa lan,
dy glod a wna 'n gyfannedd.
23 Had Iago ac Iſrael, chwychwi
rhai ych yn ofni 'r Arglwydd,
Drwy ofn y rhowch iddo foliant,
a rhowch ogoniant ebrwydd.
24 Can's ni'ch llyſodd, ni'ch dirmygodd
ni chuddiodd ei wyneb pryd:
Eithr gwrandawodd weddi y gwan,
a'i duchan yn ei adfyd.
25 Honot ti bydd, ac i ti gwedd
mewn aml orfedd y moliant:
I Dduw rhof f' addunedau 'n llon,
gar bron y rhai a'i hofnant:
26 Diwellir y tlodion: a'r rhai
a geiſiai at yr Arglwydd,
A'i molant ef, fe gaiff (gwir yw)
eich enaid fyw'n dragywydd.
27 Ttigolion byd a droſont yn rhwydd
at yr Arglwydd, pan gofiant:
A holl dylwythau 'r ddaear lon
dont gar ei fron, ymgrymmant.
28 Can's yr Arglwydd biau 'r deyrnas,
a holl gwmpas y bydoedd:
Ac uwch eu llaw ef unig ſydd
ben Llywydd y cenhedloedd.
29 Y cyfoethogion a fwyttant,
addolant yn en gwnfyd:
Rhai a ant i'r llwch gar ei fron,
a rhai, braint meirwon hefyd.
30 Y rhai 'n oll a'u had, yn un fryd,
gwnant iddo gyd waſanaeth:
A'r rhai 'n i'r Arglwydd, drwy'r holl dir,
a rifir yn genhedlaeth.
31 Dont, dangoſant ei uniondeb,
y rhai ſydd heb eu geni:
Hyn a addawod, ef a'n gwnaeth,
hynny a ddaeth o ddifri'.

## SALM XXIII.

YR Arglwydd yw fy Mugail clau,
ni âd byth eiſiau arnaf.
2 Mi gaf orwedd mewn porfa fras
ar lan dwfr gloywlas araf.
3 Fe goledd f' enaid, ac a'm dwg
'rhyd llwybrau diddrwg, cyfion:
Er mwyn ei Enw mawr dilys,
fe'm tywys ar yr union.
4 Pe rhodiwn (nid ofnwn am hyn)
yn nyffryn cyſgod angau,
Wyd gyd a mi, a'th nerth, a'th ſion:
ond tirion ydyw'r arfau?
5 Goſodaiſt fy mwrdd i yn fras,
lle 'r oedd fy nghas yn gweled:
Olew i'm pen, a chwppan llawn:
daionus iawn fu'r weithred.
6 O'th nawdd y da y donian hyn
i'm canlyn byth yn hylwydd:
A minnau a breſwyliaf byth
a'm nyth yn nhy yr Arglwydd.

## SALM XXIV.

YY Arglwydd piau 'r ddaear lawr,
a'i llawnder mawr ſy'n eiddo:
Yr Arglwydd biau yr holl fyd,
a'r bobl i gyd ſydd ynddo.
2 Can's fe roes ei ſail hi a'i gwedd
yn rhyfedd uwch y moroedd:
Ac a'i goſodadd hi yn lan
yn drigfan uwch llif-ddyfroedd.
3 Er hyn, pwy a ddringa yn hy
i gyſſegr fry yr Arglwydd?
A phwy a ſaif a theilwng wedd
yngorſedd ei ſanctaiddrwydd?
4 Dyn a llaw lan, a meddwl da,
ac yn ddidraha 'i enaid:
Diorwag, ac ni roes un tro
er twyllo 'i gyfneſeifiaid.
5 Gan yr Arglwydd y caiff hwn wlith
ei raſlawn fendith helaeth:
A cyfiawnder i bob cyfryw
gan Dduw yr lachawdwriaeth,
6 Hon ſy gan Dduw 'n genhedlaeth gref,
a'i ceiſiant ef yn effro:
A geiſiant d'wyneb, dyma 'u maeth,
ſef gwir genhedlaeth Iago.
7 Dyrchefwch chwi, byrth, eich pennau,
a chwithau ddorau bythol:
Can's Brenhin mawr daw i'ch mewn chwi,
ſef pen bri gogoneddol.
8 Pwy yw'r Brenhin hwn gogonedd?
Arglwydd rhyfedd ei allu:
Yr Arglwydd yw, cyfion ei farn,
a chadarn i ryfelu.
9 Dyrchefwch chwi, byrth, eich pennau,
ehengwch ddorau bythol:
Can's Brenhin mawr daw i'ch mewn chwi,
Brenhin o fri gogonol.
10 Pwy, meddwch, ydyw 'r Brenhin hwn
a gofiwn ei ogoniant?
Ior y lluoedd yw, Brenhin hedd,
a gogonedd, a ffyniant.

## SALM XXV.

F' Arglwydd, dyrchefais f' enaid i
hyd attad ty yn union.
2 Fy Nuw, fy ngobaith, gwarth ni cha';
na lawenha 'ngelynion.
3 Sawl a obeithiant ynot ti,
y rhei'ni ni w'raddwyddir:
Gwarth i'r rhai a wnel am i ham
ryw dwyll neu gam yn ddihir.
4 Arglwydd, dangos im' dy ffordd di,
a phar i mi ei deall:
Dyſg, ac arwain fi yr un wedd
yn dy wirionedd diball.
5 Can's tydi ydwyd Dduw fy maeth,
a'm hiachawdwriaeth unig:
Dy ddiſgwyl 'rwyf ar hyd y dydd,
a hynny fydd i'm diddig.
6 O cofia dy nawdd a'th ſerch di,
a'th fawr doſturi, Arglwydd:
Cofia fod ynot ti erioed
lawn ddioed drugarowgrwydd.
7 Na chofia yr anwiredd mau,
na llwybrau fy ieuengctyd:
Ond, Arglwydd, coffa fy nghur i,
er dy ddaioni hyfryd.
8 Yr Arglwydd, ſydd union a dâ,
a'i ffyrdd-im' noddfa ydynt:
Fe arwain (fel y mae yn rhaid)
y pechaduriaid ynddynt.

9 Fe ddyſg ei lwybrau mewn barn iawn
i'r rhai ufuddlawn yſtig:
Hyddyſg yw ei ffyrdd i bob rhai
a fyddai oſtyngedig.
10 I'r ſawl a gadwo ddeddfau 'r Ion,
a'i union dyſtiolaethau,
Gwirionedd a thrugaredd fydd
ei lywydd yn ei lwybrau.
11 Er mwyn dy enw (O Arglwydd mau)
Duw maddau fy anwiredd:
Can's fy nhroſeddiad i mawr yw;
mwy ydyw dy drugaredd.
12 Mae, pa ryw wr, yn ein myſg ni,
fydd yn pur ofni 'r Arglwydd?
Fe ddengys y ffordd iddo fo,
hon a ddewiſo'n ebrwydd.
13 O hyn y calff fy enaid cu
le i lettyu'n eſmwyth:
A'r holl ddaear hon, a'i gwellad,
a gant ei had a'i dylwyth.
14 Ei holl ddirgelwch a ddyſg fo
i'r ſawl a ofno'r Arglwydd:
Ac o'i holl gyfanneddau glan
efe a'i gwna 'n gyfarwydd.
15 Tueddu 'r wyf, fy Arglwydd mad,
yn waſtad a'm golygon:
Can's ef yn unig (yn ddioed)
rhydd fy nau droed yn rhyddion.
16 Tro attaf, dod im'nawdd di-ddig;
can's unig wyf, a rhydlawd.
17 Gofidiau 'nghalon ynt ar led,
Duw, gwared fi o'm nychdawd.
18 Duw, gwel fy mliuder a'm poen fawr,
a madde 'n awr fy mhechod:
19 Gwel fy ngelynion, a amlhant,
ac a'm caſant yn ormod.
20 Cadw f' enaid, ac achub fi
na wnelo 'r rheini 'm w'radwydd:
Rhois fy mhwys arnat ti, fy Naf,
a rhodiaf mewn perffeithrwydd:
21 Cadwed fi fy uniondeb maith;
can's rhois fy ngobaith ynod:
22 Duw, cadw di holl Iſrael,
gwared, a gwel ei drallod.

## S A L M XXVI.

BARN fi (O Dduw) a chlyw fy llais;
mi rodiais mewn perffeithrwydd:
Ac ni lithraf, am im' roi 'mhwys
yn llownddwys ar yr Arglwydd.
2 Prawf di fy muchedd, Arglwydd da,
a hola ddull fy mywyd:
A manwl chwilia 'r galon fau,
a phrawf f' arennau hefyd.
3 O flaen fy llygaid wyf ar led
yn gweled dy drugaredd:
Gwnaeth dal ar hynny ar bob tro,
'm rodio i'th wirionedd.
4 Nid cyd-eiſtedd gyd a gwagedd,
neu geogwyr yn llawn malais:
5 Cas gennyf bob annuwiol rith,
ac yn eu plith ni 'ſteddais.
6 Mi olchaf fy nwy law yn lan;
can's felly byddan', f' Arglwydd:
Ac a dueddaf tu a'th gor,
ac allor dy ſanctteiddrwydd.
7 Y modd hyn teilwng yw i mi,
luoſogi dy foliant,
Sef, addas i mi fod yn lan,
i ddatgan dy ogoniant.
8 Arglwydd, cerais drigfan dy dy,
lle 'r ery, dy anrhydedd:
9 N' ad f' enaid i a'm hoes, ynghyd
a'r gwaedlyd, llawn anwiredd.
10 Eu dwylaw hwynt fy 'ſgeler iawn,
y maent yn llawn malcifiau:
A dehau law yr holl rai hyn
fy'n arfer derbyn gwobrau.
11 Minnau 'n ddiniweid (felly gwedd)
ac mewn gwirionedd rhodiaf:
Gwared fi drwy dy ymgeledd,
cymmer drugaredd arnaf.
12 Fe ſaif fy nhroed i ar yr iawn,
ni ſyfl o'r uniawn droedfedd:
Mi a'th glodforaf, Arglwydd da,
lle byddo mwya'r oſfedd.

## S A L M XXVII.

YR Arglwydd yw fy ngoleu 'gyd,
a'm hiechyd: rhag pwy 'r ofnaf?
Yr Arglwydd yr nerth f' oes: am hyn
rhag pwy doe ddychryn arnaf?
2 Pan ddaith rhai anfad, ſef fy nghas,
o'm cwmpas er fy llyngcu,
Llithraſant, a chwympaſant hwy,
ni ddaethant mwy i fynu.
3 Ni ddoe ofn ar fy nghalon gu,
pe cyrchai llu i'm herbyn:
Neu pe codai gad y modd hwn,
mi ni wan-ffyddiwn ronyn.
4 Un arch a erchais ar Dduw naf,
a hynny a archaf etto:
Cael dyfod i dy'r Arglwydd glan,
a bod a'm trigfan ynddo:
5 I gael ymweled a'i ddemi deg,
a hyfryd oſteg ynddi,
Holl ddyddiau f' einioes: ſef wyf gaeth
o fawr hiraeth am dani.
6 Can's y dydd drwg fo'm cudd efe
i'w babell neu ddirgelfa:
I'w breſwylfod, fel mewn craig gref,
caf gantho ef orphwyſfa.
7 Bellach fe'm codir uwch fy nghas,
ſudd mewn galanas ymy:
Aberthaf, caraf, mola'r Ion,
yn ffyddlon byth am hynny.
8 Gwrando arnaf, fy Arglwydd byw,
bryſia a chlyw fy oernad:
Trugarha wrthyf, gwel fy nghlwyf,
y pryd y galwyf arnad.
9 Fel hyn mae 'nghalon o'm mewn;
yn holi ac yn atteb:
Ceiſiwch fy wyneb ar bob tro;
fy Nuw, rwy'n ceiſio d'wyneb.
10 Na chudd d'wyneb, na lys da was;
fy mhorth a'm hurddas fuoſt:
Duw fy iechyd, na wrthod fi;
o paid a ſorri 'n rhydoſt.
11 O gwrthyd fi fy nhad a'm mam,
a'm dinam gyfneſeiſiaid:
Gweddia 'r Arglwydd; ef er hyn,
o'i ras, a dderbyn f' enaid.

12 Duw, dyſg i mi d'ffordd yn rhwydd
o herwydd fy ngelynion:
Ac arwain fi, o'th nawddol rad,
yn wastad ar yr union.
13 Ac na ddyro fi, er dy ras,
wrth fodd yr ateas elyn:
Can's ceisiodd fy nghaſelon mau
dyſtion gau yn fy erbyn.
14 Oni bai gredu honof fi,
bum wrth fron torri 'nghalon,
Y cawn i weled da Duw yn rhad
o fewn gwlad y rhai bywion.
15 Disgwyl di ar yr Arglwydd da,
ymwrola dy galon:
Ef a rydd nerth i'th galon di,
os iddo credi'n ffyddlon.

## SALM XXVIII.

ATTAD (Ion fy-nerth) y rhof lef:
Duw Nef na fydd di fyddar:
Os tewi, rhag fy myn'd mor driſt,
O bod mewn cist dan ddaear.
2 O Arglwydd, erglyw fy llais i,
a derbyn weddi bruddaidd:
Pan godwyf fy nwy law o bell,
Duw; tu a'th gafell ſanctaidd.
3 Ac na ddaroſtwng fi, fy Ior,
dan ddwylo 'r annuwiolion:
Y rhai sy'n arwain minau mel,
a rhyfel yn eu calon.
4 Yn ol bwriad eu calon gau,
a'r twyll ddyfeisiau eiddynt,
Yn ol eu drwg weithredoedd hwy,
Duw, tal eu gobrwy iddynt.
5 Am na 'ſtyriant weithredoedd Duw,
ef a wna ddiſtryw arnynt:
Am na welent ei wyrth a'i rad,
ni wna adeilad honynt.
6 Bendigaid fyddo'r Arglwydd Nef,
fe glybu lef fy ngweddi:
Yr Arglwydd yw fy nerth, a'm rhan,
a'm tarian, a'm daioni.
7 Ymddiriedais iddo am borth,
a chefais gymmorth ganddo:
Minnau o'm calon, drwy fawr chwant,
a ganaf foliant iddo.
8 Yr Arglwydd fydd nerth i bob rhai
a ymddiriedai 'n hylyn;
A'i Enneiniog ef a fydd maeth
ac iachawdwriaeth iddyn'.
9 Gwared dy bobl dy hun yn dda,
bendithia d'etifeddiaeth:
Bwyda, cyſod hwy; am ben hyn
dod iddyn' drag'wyddol-faeth.

## SALM XXIX.

RHOWCH i'r Arglwydd, a rhowch yn
chwi blant y cedyrn, foliant: [chwyrn,
Cydnabyddwch ei barch, a'i nerth,
mor brydferth, a'i ogoniant.
2 Rhoddwch i enw yr Arglwydd glod,
heb orſod mwy mo'ch cymmell:
Addolwch Arglwydd yr holl fyd,
mor hyfryd yw ei babell!
3 Llais yr Arglwydd ſydd uwch dyſroedd,
Duw cryf Pair heddd y daran:
Uwch dyſroedd lawer mae ei drwn?
nid yw ei ſwn ef ſychan.
4 Llais yr Arglwydd, pan fyddo llym,
a ddengys tym a chyſſro:
A llais yr Arglwydd a fydd dwys,
fel y bo cymmwys gantho.
5 Llais yr Arglwydd a dyr yn ſan
y cedrwydd hirlan union:
Yr Arglwydd a dyr yn us-wydd
y cedrwydd o Libanon.
6 Fel llwdn unicorn, neu lo llon,
fe wna i Libanon lammu.
7 A Sirion oll: llais ein Ior glan
a wna'i fflam dan waſgaru.
8 Llais yr Arglwydd, drwy, ddyrys lym,
a godai ddychryn eres:
Yr Arglwydd a wna ddychryn fflwch
drwy holl anialwch Cades.
9 Llais yr Arglwydd a piau'r glod,
pair i'r ewigod lydnu:
Dinoetha goed; i'w deml, iawn yw
i bob rhyw ei foliannu.
10 Yr Arglwydd gynt yn bennaeth oedd
ar y lliſt-ddyfroedd cethin:
Yr Arglwydd fu, ef etto ſydd,
ac byth a fydd, yn Frenhin.
11 Yr Arglwyad a rydd i'w bobl nerth,
drwy brydferth gyſanneddwch:
Yr Arglwydd rhydd ei bobl ym mhlith
ei ſendith, a hir heddwch.

## SALM XXX.

FY Arglwydd, mi a'th fawrygaf di;
can's myſi a ddyrchefaiſt:
A'm gelynion i yn llawen
uwch law fy mhen ni pheraiſt.
2 Fy Nuw, pan lefais arnat ti,
y rhoddaiſt i mi iechyd:
3 Cedwaiſt fy enaid rhag y bedd
a rhag diwedd anhyfryd.
4 Cenwch i'r Ion, chwi ei holl ſaint,
a maint yw gwyrthiau 'r Arglwydd:
A chlodforwch ef gar ei fron,
drwy gyſion o'i ſanctelddrwydd.
5 Ennyd ſechan y ſai 'n ei ddig,
o gael ei fodd trig bywyd:
Heno brydnawn wylofain ſydd,
y bore ddydd daw iechyd.
6 Dywedais, yn fy llwyddiant hir,
Ni'm ſyflir yn dragywydd:
O'th ddaioni dodaiſt, Dduw Ner,
ſail cryfder yn fy mynydd.
7 Cuddiaiſt dy wyneb ennyd awr,
a blinder mawr a gefais.
8 Arnad (O Arglwydd) drwy lef ddir,
fy Arglwydd, iti ymbiliais.
9 Pa fudd (O Dduw) ſydd yn fy ngwaed,
pan fwyf dan draed yn gorwedd?
A phwy a gan it' yn y llawr
dy glod a'th fawr wirionedd?
10 Clyw fi, Arglwydd, a thrugarha,
dod gymmorth da i'm bywyd:
11 Canys yn rhad y troiſt fy mar,
a'm galar, yn llawenſyd:
Am iti ddattod fy ſach grys,
rhoiſt wregys o lawenydd:

12 Molaf,

Molaf, a chanaf o'm tafod
i'm Harglwydd glod dragywydd.

## S A L M XXXI.

MI a 'mddiriedais ynot, Ner,
fel na'm gw'radwydder bythoedd:
Duw, o'th gyfiawnder, gwared fi,
a chlyw fy 'nghri hyd nefoedd.
2 Gogwydd dy glust attaf ar frys,
o'th nefol lys i wared:
A bydd im' yn graig gadarn fiwr,
yn dy a thwr i'm gwared.
3 Sef fy ngrhaig wyt, a'm caftell cryf;
wyf finpau hyf o'th fawredd;
Er mwyn dy enw tywys fi,
ac arwain i drugaredd.
4 A thyn fy fi o'r rhwyd i'r lan,
a roifan' er fy maglu:
Can's fy holl nerth fydd ynot ti;
da gelli fy ngwaredu.
5 Dodaf fy yfpryd yn dy law,
ac af ger llaw i orwedd:
Da y gwaredaift fi yn fyw,
(O Arglwydd Dduw 'r gwirionedd)
6 Llwyr y cafe'is y neb a fag
i'w galon orwag affwydd:
Ac mi ofodais yn llwyr faith
fy ngobaith yn yr Arglwydd.
7 Mi a 'mhyfrydaf ynot ti;
canfuoft fi mewn amfer:
Ac adnabuoft, wrth fy rhaid,
fy enaid mewn cyfyngder.
8 Llawn fyddaf finnau am hyn;
i'm gelyn ni'm gwarcheaift:
Eithr fy nhraed i, yn eang rydd,
da beunydd y fefydlaift.
9 O dangos dy drugaredd, Dduw;
can's cyfyng ydyw arnaf:
Fy llygaid, f' enaid, a'm bol fydd
yn dioddef cyftudd gwaelaf.
10 Fy mywyd im' gwir ofid oedd
fy holl dlynyddoedd blinion:
Fy nerth, a ballodd o'm drwg cynt,
a'm hefgyrn ydynt bydron.
11 A gwatwor i'm gelynion wyf;
fy nghyd-blwyf a'm gwatworent:
Fy holl gym'dogion, a phob dyn,
gan ddychryn a'm gochelent.
12 Fe a'm gollyngwyd i dros go',
fal mawr a fo efgeulus;
A hawdd yw hepgor y lleftr twn,
o byddai hwn drwg llafus.
13 Can's clywais ogan llawer dyn
o'm deutu, dychryn oerloes:
Hwy a 'mgynghorent ar bob twyn,
bwriadent ddwyn fy einioes.
14 Ond yn fy ngobaith (Arglwydd byw)
y d'wedais, fy Nuw ydwyd:
15 Y mae f' amferoedd ar dy law;
nid oes na braw nac arfwyd:
Tyred, a gwared fi dy was
oddiwrth fy nghas a'm herlid.
16 A dangos d'wyneb im' o'th rad,
rhag brad y rhai fy'n hymlid.
17 O Arglwydd, na w'radwydder fi,
a rois fy ngweddi arnad:
Ond i'r annuwiol gwrth a wedd
yn fud i'r bedd o lygriad.
18 Cau gelwyddog weftiau 'rhai'n
y fydd yn darllain crafder,
O ddiyftyrwch, a thor tyn,
yn erbyn y cyfiawnder.
19 O mor fawr yw dy rad di-drai,
a roift i'r rhai a'th ofnant!
Cai o flaen meibion dynion glod,
ac ynod ymddiriedant.
20 Oddiwrth fyth feiliibion (o'th flaen di)
y cuddi hwynt yn ddirgel:
Cuddi yn dda i'r babell dau:
rhag fen tafodau uchel.
21 Mi a fendigaf Dduw yn hawdd;
dangofawdd im' ei gariad:
A gwnaeth ryfeddod uros ei was,
mewn cadarn dinas gaead.
22 Ofnais i gynt, o'm gobaith drwg,
fy nhroi o'th olwg allan:
Eithr pan lefais arnat ti,
y clywaift fi yn fuan.
23 O cerwch Duw, ei holl faint ef;
da y clyw lef ffyddloniaid:
Ac ef a dal yn helaeth iawn
i'r beilch anghyfiawn tanbaid.
24 Cymmerwch gyfur yn Nuw lon,
ef a rydd galon ynoch:
Ac os gobeithiwch ynddo ef,
ei law yn grief bydd drofoch.

## S A L M XXXII.

YSAWL fy deilwng, gwyn ei fyd,
drwy fadde 'i gyd ei drofedd:
Ac y cyfgodwyd ei holl fai,
a'i bechod, a'i anwiredd.
2 A'r dyn a gwynfyd Duw a'i llwydd,
ni chyfri'r Arglwydd iddo
Mo'i gamweddau: yr hwn ni chad
dim twyll dichell-frad ynddo.
3 Minnau, tra celwn i fy mai,
yn hen yr ai 'mhibellion:
A thrwy fy rhuad i bob dydd,
cyftuddio bydd fy nghalon.
4 Dy law ddithau, y dydd a'r nos,
fydd drom drwy achos arnaf:
Troi 'rcidd-dra fy efgyrn mer
fel fychder y gorphenhaf.
5 Yna y trois innau ar gais,
addefais fy anwiredd:
Tyft yn fy erbyn fy hun fum;
maddeuaift ym' fy nghamwedd.
6 Amferol weddiau, am hyn,
a rydd pob glanddyn arnad:
Rhag ofn, mewn ffrydau dyfroedd maith,
na chair mo'r daith hyd attad.
7 Rhyw loches gadarn wyt i mi,
rhag ing y'm cedwi 'n ffyddlon:
Amgylchyni fy fi ar led
a cherdd ymwared gyfon.
8 Dithau (O ddyn) dyig gennyf fi
y ffordd y rhodi'n waftad:
Mi a'th gynghoraf di rhag drwg;
y mae fy ngolwg arnad.
9 Fel y march neu y mul na fydd,
y rhai y fydd heb ddarnad:

Mân

# Salmau XXXIII. XXXIV.

Mae yn rhaid genfa, neu ffrwyn den,
i ddal eu pen yn wastad.
10 Caiff annuwiolion, a wnant gam,
fawr ofid am eu traha:
A ffyddloniaid Duw, da y gwedd,
trugaredd a'u cylchyna.
11 Chwithau 'r cyfion yn dirion ewch,
a llawenhewch yn hylwydd,
A phob calon fydd union fyth:
clodforwch fyth yr Arglwydd.

## SALM XXXIII.

PA rai bynnag, yn Nuw yr Ion,
fy gyfion, llawenychwch:
I bawb y fydd yn iawn yn byw,
gweddus yw diolchgarwch.
2 A thannau telyn molwch ef;
rhowch hyd y Nef ogoniant:
Ar y nabl gywair ei thon,
ac ar y gyfon ddeclant.
3 Cenwch i'r Ion fawl a mawrhad,
wiw gerdd o ganaid newydd:
Cenwch idd yn llafar glod,
bid parod eich lleferydd.
4 Am mai union ydyw ei air,
ffyddlon y cair ei weithred:
5 Cyfiawnder a barn ef a'i car,
a'r ddaear llawn o'i noddeu.
6 Gair yr Arglwydd a wnaeth y Nef,
a'i yfpryd ef eu lluoedd:
7 Cafglai efe ynghyd y mor,
a'i dryfor yw'r dyfnderoedd.
8 Yr holl ddaear ofned ein Duw,
a phob dyn byw a'i prefwyl:
9 Ei arch a faif, a'i air a fydd:
a hynny fydd i'w ddifgwyl.
10 Ef a ddirymmodd (fy Nuw Ior)
holl gynghor y cenhedloedd:
A thrwy lyfiant gwnai yn ddi rym,
amcanion llym y bobloedd.
11 Ond ei gynghor ef oddi fry,
a bery'n drag'wyddoliaeth:
A'i galon-fryd efe ei hun,
uwch bob rhwy un genhedlaeth.
12 A phob cenhedloedd dedwydd ynt,
os Duw iddynt fydd Arglwydd:
A'i etholion efe a'u gwnaeth
yn etifeddiaeth hylwydd.
13 O'r nefoedd fry yr edrych Duw
ar lwybrau pob rhyw ddynion:
14 Ac o'i breftwylfa edrych ar
y ddaear, a'i thrigolion.
15 Yr hwn a luniodd galon dyn,
a edwyn ei weithredoedd:
16 Ac ni chedwir un bydol gun
o'i nerth ei hun, na'i luoedd.
17 A pheth pallediq ydyw march,
i gael parch ac ymwared:
Ac ni all achub o law'r Ner
mo'i farchog, er ei gryfed.
18 Wele lawn olwg Duw, a'i wawl,
maent ar y fawl a'i hofno:
A'i drugaredd ef fydd ar led
i'r fawl a 'mddiried ynddo;
19 Er mwyn gwared, pan fo yn rhaid,
chag angau, enaid adyn:
Ac i borthi y tlawd yn glau
rhag eifiau, a rhag newyn.
20 Ein henaid gan yr Arglwydd hael
fy'n difgwyl cael ei bywyd:
Efe a byrth ein henaid gwan;
efe yw'n tarian hefyd.
21 Sef yn unig yn Nuw yr Ion
mae'n calon yn llawenu:
Ac yn ei enw fanctaidd ef
mae hon yn gref yn credu,
22 Duw, dy drugaredd dod i ni,
fef ynot ti y credwn:
Dy drugaredd a'th nawdd i'n dod;
can's ynod ymddiriedwn.

## SALM XXXIV.

DIOLCHAF fi, a chalon rhwydd,
i'r Arglwydd bob amferau:
Ei foliant ef, a'i wir fawrhad
fy'n wastad yn fy ngenau.
2 Fy enaid fydd yn boftio'n rhwydd
o'm Harglwydd, ac o'm perchen:
A phob difalch hynny a glyw,
ac a fydd byw yn llawen.
3 Molwch fy Arglwydd gyd a mi,
cyd-folwn ni ei enw ef:
4 Criais arno yn fy ofn caeth,
a gwrando wnaeth fy ynglef.
5 Y fawl a edrych arno ef,
a llewyrch Nef eglurir:
Nid w'radwyddir o honynt neb,
a'u hwyneb ni ch'wilyddir.
6 Wele, y truan a roes lef,
a Duw o'r Nef yn gwrando,
A'i gwaredodd ef o'i holl ddrwg,
a'i waedd oedd amlwg iddo.
7 Angel ein Duw a dry yn gylch
o amgylch pawb a'i hofnant:
Ceidw ef hwynt; a llawer gwell
na chaftell yw eu gwarant.
8 O profwch, gwelwch, ddaed yw
yr Arglwydd byw i'r eiddo:
A gwyn ei fyd pob dyn a gred,
10i ei ymddiried ynddo.
9 Ofnwch Duuw ei holl faint (heb gel)
a'i gwnel, ni bydd pall arnyn':
10 Nac eifiau dim fydd dda; er bod
ar g'nawon llewod newyn.
11 Chwychwi feibion, deuwch yn nes,
gwrandewch hanes yftyriol:
Dowch, a dyfgaf i chwi yn rhwydd
ofni yr Arglwydd nefol.
12 Y fawl a chwennych fywyd hir,
a gweled gwir ddaioni:
13 Cau dy enau rhag drwg di bwyll,
a'th fafn rhag twyll a gwegi.
14 Gwrthod ddrwg, gwna dda, a chais hedd;
hon hyd y diweod dilyn:
A chadw'r heddwch wedi ei chael;
fal dyna duiwael deftyn.
15 Y mae yr Arglwydd a'i olwg
ar y dyn diddrwg cyfion;
A'i gluftiau ef, o'i lawn wir fodd,
egored i'r rhai gwirion.
16 Wyneb yr Ion a'i guwch fy dyn
yn erbyn gweithwyr diflaith;

Y coffa o honynt ef a'i tvr
ar fyr o'r ddaear ymaith.
17 Hawdd y clybu fy Naf o'r Nef
leferydd llef y cyfion:
A thra buan (o'i rad a'i rodd)
y tynnodd o'u trallodion.
18 Agos iawn yw ein Duw ar gur
y galon bur ddrylliedig:
A da ceidw ef bob pryd
yr yſpryd cyſtuddiedig.
19 Trwch, ie, ac aflwyddiannus iawn,
a fydd gur cyfiawn weithiau:
Ei ddrygau oll, Duw, oddi fry,
a'u tvn a'i try i'r gorau.
20 Ceidw ei eſgyrn ef ei hun,
o honynt un ni ddryllir.
21 A drwg a laddo y drwg was,
a ffrwyth ei gas y lleddir.
22 Eithr holl was'naethwyr Duw ei hun
yr Arglwydd gun a'u gwared:
I'r ſawl a 'mddiried ynddo ef,
ni all law gref mo'r niwed.

## S A L M XXXV.

PLEIDIA (O Arglwydd) yn fy hawl,
a'r ſawl a dery'n f' erbyn:
Lle'r ymryſonant a myfi,
ymwana di a'r gelyn.
2 Mae dy gymmorth? O moes ei gael:
ymafael yn y tarian:
O cyſod, cais dy aſtalch gron,
a dwg dy waywffon allan.
3 Argana ar y rhai s' ar gaun,
i'm herlid am fy mywyd:
Wrth fy enaid dywaid fel hyn,
Myfi a fyn it' iechyd.
4 Gwarth a gw'radwydd fo i bob gradd
a geiſio ladd fy enaid:
A thrwy gywilydd troed iw ol
y ffals niweidiol gablaid.
5 Fel yr us o flaen gwynt y bon,
Angel yr Ion i'w chwalu:
6 Ar hyd fford dywyll lithrig lefn,
a hwn wrth gefn i'w gyrru.
7 Cloddio pwll, a chuddio y rhwyd,
a wnaethpwyd lm' heb achos:
Heb achlyfir, maglau a wnaid
i'm henaid yn y cyſnos.
8 O deued, cwymped yn ei rwyd,
yr hon a guddiwyd allan:
Syrthied, a glyned i'w delm rwyll,
a'i drap o'i dwyll ei hunan.
9 Eithr am fy enaid i (Amen)
bid llawen yn yr Arglwydd:
Fe a fydd hyfryd gantho hyn,
lle daw i'r gelyn aflwydd.
10 O Arglwydd, dywaid f' eſgyrn i,
pwy ſydd a thi un gyflwr?
Rhag ei drech yn gwared y gwan,
a'r truan rhag ei 'ſpeiliwr.
11 Tyſtion gau a godent yn llym
a holent ym' beth anfad:
12 Drwg im' dros dda talent heb raid,
a'm henaid braint ymddifad.
13 Ond fi, tra fyddent hwy yn glaf,
rhown i'm neſaf lain ſach:
Drwy hir ymoſtwng ac ympryd,
cym'rais fy myd yn bruddach.
14 Yr un doſturiol weddi fau,
a ddaeth o'm genau allan,
A droes eilwaith (er fy lles)
i'm mynwes i fy hunan.
15 Mi a ymddygais mor brudd dlwad,
fel am fy mrawd nau 'nghymmar:
Neu fel arwyl dyn dros ei fam,
ni cherddai gam heb alar.
16 Hwythau yn llawen doent ynghyd,
pan bwyſodd anfyd attaf:
Ofer ddynion, ac echrys lu,
fyth yn min-gammu arnaf.
17 Rhai 'n rhagrithwyr, rhai 'n watworwyr
torrent hwy eiriau mwyſaidd:
Hwy a'ſgyrnygent arnaf fi
bob daint, a'r rheini'n giaidd.
18 Arglwydd, edrych: Ow pa ryw hyd
yw'r pryd y dof o'u harfod?
Gwared fy enaid rhag y bedd,
f' oes o ewinedd llewod.
19 Minnau a ganaf i ti glod,
lle bo cyfarfod lluoedd:
Ac a folaf dy enw a'th ddawn,
wrth lawer iawn o bobloedd.
20 Na fydded lawen fy nghas ddyn
i'm herbyn, heb achoſion:
Ac na throed (er bwriadu 'mrad)
mo gwr ei lygad digllon.
21 Nid ymddiriedant ddim mewn hedd;
dych'mygant ryfedd gelwydd:
Dirwyn dichell, a goſod cryw,
i'r rhai ſy'n bwy yn llonydd.
22 Lledu ſafnau, taeru yn dyn,
a d'wedydd hyn yn unblaid:
Ffei, ffei, o honot, hwnt a thi;
ni a'th welſom di a'n llygaid.
23 Tithau (O Arglwydd) gwelaiſt hyn,
mor daer yn f' erbyn fuon':
Ac na ddos oddiwrthyf ym mhell,
rhag dichell fy nghaſeion.
24 Cyfod, deffro, fy Nuw, i'm barn,
yn gadarn gyd a'm gofid:
25 Dydi a fynni 'r uniondeb;
ni watwar neb o'm plegid.
26 Na ad i'r gelyn, calon wael,
ddiweddu cael ei wynfyd:
Na rhodrefu fy llyngcu'n grwn,
Llyngcaſom hwn yn ddybryd.
27 Gwarth a gw'radwydd iddynt a ddel,
fy'n codi uchel chwerthin:
Gwiſger hwynt a meſl, ac a chas,
fydd im' alanas rvflin.
28 Llawen fo'r llaill, a llawn o glod,
fy'n coelio 'mod yn gyfion:
D'wedant, Bid i'n Duw ni fawrhant
am roi llwyddiant i'w weiſion.
29 Minnau, fy Arglwydd, gyd a'r rhain,
myfyriaf arwain beunydd:
Dy gyfiawnder di, a'th fawr glod,
a'm tafod, yn dragywydd.

## S A L M XXXVI.

WRTH gamwedd dyn annuwiol fur,
mae'n eglur yn fy nghalon,

Naſ

# Salmau XXXVII.

Na'l oes ofn Duw, na'i farn, na'i ddrwg,
o flaen ei olwg trawfion.
2 Mae yn cyd-ddwyn a'i fai ei hun,
ni wel mo'i wrthun drofedd:
Nes cael yn eglur i'r holl fyd
ei gas wyd, a'i anwiredd.
3 O's ei ymadrodd, mae heb wir,
ei enau dihir hydwyll,
Ny fyn wneuthur dim da ychwaith,
yr adyn diffaith dibwyll.
4 Ef yn ei wely ni chais hun,
ond gofod llun ar gelwydd:
Os yn effro, neu yn ei waith,
ni ochel daith annedwydd.
5 Dy drugaredd (fy Arglwydd Ion)
fydd hyd eithafon nefoedd:
A'th wirjonedd di fydd yn gwau
hyd y cymmylau dyfroedd.
6 Dy uniondeb fel mynydd mawr,
dy farn fel llawr yr eigion:
Dy nerth fyth felly a barha,
i gadw da, a dynion.
7 O mor werthfawr (fy Arglwydd Dduw)
i bawb yw dy drugaredd!
I blant dynion da iawn yw bod
ynghyfgod dy adanedd.
8 Cyflawn o frafder yw'r ty tan,
lle llenwir hwythau hefyd:
Lle y cant ddiod gennyt Ion,
o flafus afon hyfryd.
9 Gyd â thi mae y loyw-ffrwd hon,
a dardd o fynnon einioes:
A'th deg oleuni, ac a'th rad,
y cawn oleuad eifoes.
10 O eftyn ette i barhau,
dy drugareddau tirion:
Ni a'th adwaenom di a'th ddawn
i'r rhai fydd uniawn galon.
11 O Dduw, i'm herbyn i na ddoed
na ffyrdd na throed y balch-ffol:
A lleflair attaf, fel na ddaw
na gwaith na llaw'r annuwiol.
12 Felly y fyrthiodd gynt, yn wir,
y rhai enwir a'u drygwaith:
Felly gwthiwyd i lawr hwynt hwy,
heb godi mwy yr eilwaith.

## S A L M XXXVII.

NA ddala ddrygdyb yn dy ben,
nac o gynfigen ronyn:
Er llwyddo'r enwir, a wnai gam,
cai weled llam yn canlyn.
2 Sef hwy a dorrir fel gwellt glas
neu lyfiau diflas gwywon:
A hwy a grinant yn ddi-lwydd,
a hynny 'nebrwydd ddigon.
3 Cred yn yr Arglwydd, a gwna dda,
gobeithia yr hyn gorau:
Bydd ymarhous yn y tir,
ti a borthir yn ddiau.
4 Bydd di gyfurus yn dy Dduw,
di gei bob gwiw ddymuniad:
5 Dy ffyrdd cred iddo, yn ddilys
fe rydd d'ewyllys atrad.
6 Cred ynddo ef, fo'th ddwg i'r lan,
myn allan dy gyfiawnder:
Mor oleu a'r haul hanner dydd,
fal hynny bydd d'eglurder.
7 Ymddiried i Dduw, difgwyl, taw,
a heb ymddigiaw gronyn:
Er llwyddo i ddryg-dyn ei fawr fai,
yr hwn a wnai yn gyndyn.
8 Paid a'th ddig, na ofidia chwaith;
gad ymaith wyllt gynddaredd:
Rhag i hynny dyfu i fod
yn bechod yn y diwedd.
9 O herwydd hyn difgwyl yr Ion,
gwel ddiwedd dynion diffaith:
A'i difgwyl ef, meddianna'r tir;
a'r drwg, fo'i torrir ymaith.
10 Goddef y dryg-ddyn dros dro bach,
ni welir mwyach honaw:
Mi ga'i weled y lle y bu,
heb ddim yn fynnu ganthaw.
11 Ond y rhai ufudd a hawddgar
y ddaear a feddianant:
A'r rheini, a thangnefedd hir,
diddenir yn eu meddiant.
12 Bwriada'r dryg-dynn, o'i chwerw-ddaint,
ar ddrygu braint cyfiawn ddyn:
13 Duw yn ei watwar yntau fydd,
fy'n gweled dydd ei derfyn.
14 Annelu bwa, tynnu cledd,
yw trofedd yr annuwiol,
Er lladd y truan: fel dydd brawd,
i'r tlawd a'r defofionol.
15 Ei fwa torrir yn ddellt man,
a'i gledd a a'n ei galon:
16 Mawr yw golud yr yfgeler,
ond gwell prinder y cyfion.
17 Yr Arglwydd a farn bob rhyw fal,
tyr freichiau'r rhai annuwiol:
Ac ef a gynnal, yn ddi ddig
y cyfion, yftig, gweddol.
18 Sef edwyn Duw ddyddiau a gwaith
pob rhai o berffaith helynt:
Ac yn dragywydd Duw a wnaeth
deg etifeddiaeth iddynt.
19 Efe a'u ceidw hwynt i gyd,
na chant ar ddrygfyd w'radwydd:
Amfer newyn hwynt-hwy a gant
o borthiant ddigonolrwydd.
20 Y rhai trawf enwir, heb ddim cwyn,
fel brafder wyn a doddant:
Cafeion Duw fydd dynion drwg,
hwy gyd a'r mwg diflannant.
21 Y gwr annuwiol a fyn ddwyn
yn echwyn, byth ni thala:
A'r gwr cyfion trugarog fydd,
ac a rydd, ni's gommeddai.
22 Sawl a fendigo Duw (yn wir)
y tir a etifeddan':
A'r rhai a felldithio, o'r tir
i gyd a fwrir allan.
23 Duw a fforddia, ac a hoffa,
hy-ffordd y gwr calonnog:
24 Er ei gwympo, efe ni friw;
fo'i deil llaw Dduw'n fefydlog.
25 Aethum i bellach yn wr hen,
bum fachgen, rwy'n cydnabod:
Ni welais adu had gwr da,
na cheifio'u bara 'nghardod.

26 Echwyn a 'benthyg cair bob dydd,
trugarog fydd y cyfion:
A'i had ef drwy y nefol wlith
a gaiff o'i fendith ddigon.
27 Arfwyda ddrwg, a gwna di dda,
a chyfannedda rhag-llaw:
Can's Duw a gar y farn ddi-dwn,
ninnau a roddwn arnaw,
28 Nid ymedy efe a'i faint,
ceidw heb haint y rheini:
Ond had yr annuwiolion gau
a ddont i angau difri.
29 Y ddaear caiff y cyfion gwyl,
lle 'preſwyl byth mewn iawndeb:
30 A'i enau mynaig wybodaeth,
a'i dafod traeth, ddoethineb:
31 Deddf ei Dduw y fydd yn ei fron,
a'i draed (gan hon) ni lithrant:
32 Dyn drwg a ddiſgwyl ladd y da,
ond ni chaiff yna ffynniant.
33 Ni ad yr Arglwydd (er ei gais,
nac er ei falais lidiog)
Y gwirion yn ei waedlyd law,
i hwn ni ddaw barn euog.
34 Gobeithia yn yr Arglwydd tau,
a chadw ei lwybrau'n gywir:
Cei feddiannu, cei uwch o radd,
a gweled lladd yr enwir.
35 Gwelais enwir yn llym ei big,
a'i frig fel gwyrdd bren lawri:
36 Chwilliais a cheiſiais yr ail tro,
'r oedd efo wedi colli.
37 Yſtyria hefyd y gwr pur,
ac edrych dy'r cyflawnedd:
Di a gei weled cyfryw ddyn,
ma'i derfyn fydd tangnefedd.
38 A gwel y rhai drwy drais fy'n byw,
ynghyd i ddiſtryw cwmpant:
Fe a ddiwreiddir plant y fall
i ddiwedd gwall, a methiant.
39 Iechyd y cyfion fy o Dduw Ner,
a'i nerth mewn amſer cyffro:
40 Cymmorth, ceidw, o ddrwg y tyn,
a hyn am gredu ynddo.

## S A L M XXXVIII.

FY Arglwydd, na cherydda fi
ym mhoethni dy gyndaredd:
Ac na choſpa fi yn dy lid,
oblegid fy anwiredd.
2 Can's glyn dy ſaethau ynof fi,
a phennau'r rheini'n llymion:
A dodaiſt arnaf y llaw dau,
a rhoiſt ddyrnodiau trymion.
3 Nid oes mo'r iechyd, gan dy lid,
i'm cnawd, ond gofid creulon:
Ac nid oes (gan fy mhechod chwyrn)
mor hedd i'm heſgyrn ſychion.
4 Can's fy nghamweddau aent i'r nen,
a thros fy mhen tyfaſent:
Un wedd a baich rhy drwm o bwys,
fel hon ddwys y'm llethant.
5 Fy nghleiſiau ſydd fal yn bwdr ddu
yn llygru gan f' ynfydrwydd:
6 Crymmais, a phallais beth bob dydd,
Sef galar ſydd ac aflwydd.
7 Can's mae fy lwynau'n llawn o wres,
a'm cnawd heb les nac iechyd:
8 Lleſg-wan ac yſig yw fy mron,
lle gwaedda calon nychlyd.
9 Clyw, Arglwydd, fi; harwydd o'th flaen
yn hollawl mae 'nymuniad,
Ni chuddiwyd mo'm hochenaid i
oddiwrthit di, fy Ngheidwad.
10 Llamma 'nghalon, palla fy nerth,
a'm golwg prydferth hefyd:
11 Cyfneſaf, cyfaill, car nid gwell,
hwy aent ym mhell i'm hadfyd.
12 A'm caſeion i yn neſau,
a'u maglau ffug a'u dichell:
Safai fy ngheraint i yn ſyn,
i edrych hyn o hirbell.
13 Minnau fel dyn byddar a awn,
megis pe bawn heb glywed:
Neu fel y mudan (dan driſtau)
heb enau yn egored.
14 Yn fud fel hyn gwn fy mod,
fel un a thafod efrydd;
Heb dd'wedyd unwaith air o'm pen,
i dalu ſen a cherydd.
15 Gan im' gredu i ti yn rhwydd,
O Arglwydd Dduw goruchaf:
Rhwydd a hyſpys iawn gennyf fi
yw, y gwrandewi arnaf.
16 Mi a ddymunais arnat hyn,
rhag bod i'm gelyn wawdio:
O llithrai fy nhroed ronyn bach,
fo fydd llawenach gantho.
17 Cloffi yn barod 'rwyf yn wir,
a dolur hir fy'm poeni:
18 Addef yr wyf mai iawn im' fod,
fy mhechod fy'n ei beri.
19 A'm gelynion i ſydd yn fyw
yn aml eu rhyw, a chryfion,
Sydd yn dwyn cas i mi ar gam,
ſef am fy mod yn gyfion
20 Y rhai a dalant ddrwg dros dda,
a'm gwrthwyneba'n efrydd:
A hyn am ddilyn honof fi
y pur ddaioni beunydd.
21 Duw, nac ymad, na fydd ym mhell
pan ddelo dichell ffyrnig:
22 Bryſia, cymmorth fi yn y byd.
fy Nuw, a'm iechyd unig

## S A L M XXXIX

ADDEWAIS gadw 'ngenau'n gu
rhag pechu yn fy ngeiriau:
Y dyn annuwiol lle y bo,
bwriedais ffrwyno 'ngenau.
2 Tewais, tewais fel y dyn mud,
chag d'wedyd peth daionus:
Pan y cyffroais o hir ddal,
ymattal oedd ofidus.
3 Yn fy nghalon y cododd gwres,
a'm mynwes o'm myfyrdod,
Fel y tan ennynu a wnaeth,
a rhydd yr aeth fy nhafod.
4 O dangos im' (fy Arglwydd Ner)
pa amſer y diweddaf
Rifedi 'nyddiau: a pha hyd
o fewn y byd y byddaf.

5 Rhoddaiſt fy nyddiau fel lled llaw;
i'm heinioes daw byr ddiwedd:
Diau yn d'olwg di (O Dduw)
fod pob dyn byw yn wagedd.
6 Sef mewn cyſgod y rhodai gwr,
dan gaſglu pentwr ofer:
Odid a wyr wrth dyrru da,
pwy a'u mwynha mewn amſer.
7 Beth bellach a obeithiaf fi?
Duw rhois i ti fy nghalon:
8 Tyn fi o'm camweddau yn rhwydd,
n'ad fi'n w'radwydd i ffolion.
9 Yn fudan gwael yr aethum i,
a hyn tydi a'i parodd:
10 O tyn dy goſp oddiwrthyf ſwrn,
ſef pwys dy ddwrn a'm briwodd.
11 Pan goſpech di am bechod wr,
fo wywa'n ſiwr ei fawredd,
Fel y gwyfyn: gwelwch wrth hyn
nad yw pob dyn ond gwagedd.
12 Clyw fy ngweddi, O Dduw o'r Nef,
a'm llef; a gwel fy nagrau:
Dy was caeth wyf (O clyw fy mloedd)
ac felly 'r oedd fy nheidiau.
13 O paid a mi, gad im' gryfhau,
cyn darfod dyddiau 'mywyd:
O gwna a mi, fy 'mron fy medd,
drugaredd a ſyberwyd.

## SALM XL.

BUM yn dyfal ddi gwyl fy Ner,
ef o'r uchelder clybu:
Cluſt-ymwrandawodd ef fy llais,
pan lefais ar i fynu.
2 Cododd fyfi o'r pydew blin,
a'r pridd tra gerwin tomlyd:
A rhoes ar graig fy nhroed i wau,
a threfn fy nghamrau hefyd.
3 A newydd gerdd i'm genau rhoes,
clod iddo troes yn hylwyddd:
Pawb ofnant pan y gwelant hyn,
a chredant yn yr Arglwydd.
4 Pob gwr yn ddiau dedwydd yw
a roddo ar Dduw ei helynt:
A'r beilch, a'r ffeils a'r chwedlau tro,
nid edrych efo arnynt.
5 Aml (O Dduw) vm y gwyrthiau tau,
fel dv feddyliau ynny:
A heb un dyn yn dyfgu i ti,
nac yn blaenori hynny.
6 Y rhai, pe ceiſiwn i drwy gred,
eu rhoi ar led, a'u canu,
Mwy amlach ydynt nag y gall
un dyn heb pall eu traethu.
7 Ni fynnaiſt offrwm rhodd na gwerth,
na chwaith un aberth genny':
Er hyn fy nghluſtiau i mewn pryd
hwy a egoryd ymy.
8 Hyn pan wrthodaiſt, d'wedais i,
Duw, wele fi yn dyfod:
Megis o honof mae gwir pur
yn dy yſgrythyr hynod.
9 Y rhyngwn i dy fodd yn llawn,
(O Dduw) 'rwy 'n foddlawn ddigon;
Dy ewyllys di a'th lan ddeddf
ſy'n gleddf yn neutu'r galon.
10 Mi a bregethais dy air cu
ynghanol llu mawr anian:
Ac ni thawaf, fy Arglwydd gwyn;
ti wyddoſt hyn dy hunan.
11 Dy iawnder, iechyd, a'th air gwir,
ni bum chwaith hir i'w celu,
Na'th drugaredd, na'th roddion da,
rhag un gyn'lleidfa meithlu.
12 Dithau (O Dduw) rhagof na chel
dy dawel drugareddau:
Dy nawdd a'th wir goſod ar led,
bont byth i'm gwared innau.
13 Dagrau o'm hamgylch fydd uwch rhif,
a throſo'n llif mae pechod:
Amlach ydynt na'm gwallt i'm brig,
a'm calon ddig fy'n darfod.
14 Tyred (fy Arglwydd) helpa 'n rhodd,
a rhynged bodd it' hynny:
Bryſia i'm gwared, na thrig yn hwy,
a bydd gynhorthwy ymy.
15 A chyd-w'radwydder hwynt ar gais,
a fyn drwy drais fy nifa:
A throer i'w hol y rhai y ſy
yn chwennych ymy ddirdra.
16 Bont bwy annedd-wag, yn lle tal,
y rhai a dyfai dyfod:
Er gw'radwydd i'm a dd'wedant hyn,
Ffei, ffei, ar deſtyn dannod,
17 Y rhai a'th geiſiant di bob pryd,
bont lawen hyfryd hylwydd:
A d'weded a'th gar di (Duw Ner)
Mawryger Enw'r Arglwydd.
18 Coſia (O Dduw) fy mod yn wan,
ac yn druan, a dyred:
(O Dduw fy nerth) na thrig yn hir,
tyr'd rhag y dir i'm gwared.

## SALM XLI.

GWYN ei fyd yr yſtyriol frawd,
a wnel a'r tlawd ſyberwyd;
Yr Arglwydd yſtyriol o'r Nef
a'i ceidw ef rhag drygfyd.
2 Duw a'i ceidw, a byw a fydd
yn ddedwydd yn ddaearol:
O na ddyro efo yn rhodd
wrth fodd y rhai gelynol.
3 Yn ei wely pan fo yn glaf,
rhydd y goruchaf iechyd:
A Duw a g'weiria oddi fry
ei wely yn ei glefyd.
4 Dywedais innau yna'n rhwydd,
Dod, f' Arglwydd, dy drugaredd;
Iacha di'r dolur ſy dan f' ais,
lle pechais mewn anwiredd.
5 Traethu y gwaethaf a wnae 'nghas
am danaf, atcas accen:
Pa bryd y bydd marw y gwan,
a'i enw o dan yr wybren?
6 Os daw i'm hedrych, dywaid ffug,
dan gaſglu crug i'w galon:
Ac a'i traetha pan el i ffwrdd
i gyfwrdd a'i gyfeillion.
7 Fy holl gaſeion doent ynghyd,
i fradu i gyd yn f' erbyn:
Ac i ddych 'mygu i mi ddrwg,
a minnau'n ddiddrwg iddyn'.

8 Yna dywedent hwy yn rhwydd,
Tywalltwyd aflwydd arno:
Mae ef yn gorwedd yn ei nyth,
ni chyfyd byth oddiyno.
9 F' anwyl gyfaill rhwym im' wrth gred,
fy 'mddiried a'm dewis-ddyn;
A fu yn bwytta' mara erioed,
a godai 'i yroed yn f' erbyn.
10 Eithyr dy hunan cyfod fi,
o'th ddaioni Duw o'r Nef:
Felly y gallaf fi ar hynt
gael talu iddynt adref.
11 Da gwn fy mod i wrth dy fodd,
wrth hyn, na chafodd cas-ddyn,
A gwna na chaiff un gelyn glas
ddim urddas yn fy erbyn.
12 Felly y gwn am danaf fi,
di a'm cynheli'n berffaith:
Can fy rhoi i byth gar dy fron
o fyfg y dynion diffaith.
13 I Dduw Ifrael boed yn flith
y fendith (Ior goruchaf)
Yn oes oefoedd: a thrwy air llen,
Amen, Amen, a draethaf.

## SALM XLII.

YR un wedd ag y bref yr hydd
am yr afonydd dyfroedd:
Felly y mae fy hiraeth i
am danat ti, Duw 'r nefoedd.
2 Fy enaid i fychedig yw
am fy Nuw byw, a'i gariad:
Pa bryd y dof fi gar dy fron,
fy Nuw a'm cyfion Ynad?
3 Fy nagrau oeddynt ddydd a nos
yn fwyd im', achos gofyn
Im' am fy Nuw hob pen awr bach,
Ple mae fo bellach? meddyn.
4 O gofio hyn wrthyf fy hun,
fel tywallt ffun fy einioes:
Ynghyd a theulu Duw yr awn,
pe cawn fy meddwl eifoes.
5 Hyd at dy Dduw yn yftig iawn
yr awn, dan ganu clodydd:
Fel tyrfa a fai'n cadw gwyl:
hyn bum i'w ddifgwyl beunydd.
6 Trwm wyd f' enaid o'm mewn: paham
y rhoi brudd lam ochenaid?
Difgwyl wrth Dduw, a doi gar bron
ei wyneb tirion cannaid.
7 Fy enaid o'm mewn pan fo prudd,
a a yn rhydd o'th gofion:
A chofio yr Iorddonen iach,
a'r mynydd bach o Hermon.
8 Dyfnder is dyfnderau y fydd,
ac ar eu gilydd galwant:
A dwfr pob ffrwd, pob llif, pob ton,
hwy dros fy mron a aethant.
9 Fy Naf a roes y dydd im' hedd,
a'r nos gyfannedd ganu,
I ganmawl fy Nuw, hwn a roes
im' einioes i'w foliannu.
10 Paham y'm gedyt dros gof cyd?
Duw, wrthyd yr achwynaf:
Er gorthrymder y gelyn cam,
mewn galar pa'm y rhodiaf?
11 Trwy f' efgyrn taro cleddyf llym
mewn gwarthlid ym', oedd edliw
Im' o'm gelynion er fy ngwae,
dy Dduw p'le mae fo heddiw?
12 Trwm wyd f' enaid o'm mewn: paham
y rhoi brudd lam ochenaid?
Difgwyl wrth Dduw, a doi gar bron
ei wyneb tyrion cannaid.

## SALM XLIII.

BARN fi (O Dduw) a dadleu'n dynn
yn erbyn pobloedd enwir:
Rhag y gwyr twyllgar gwared fi,
a rhag drygioni'r dihir.
2 Can's ti yw Duw fy nerth i gyd;
paham y'm bwryd ymaith?
A pha'm yr af mor drwm a hyn,
gan bwys y gelyn diffaith?
3 Gyr dy oleu, o moes dy wir;
ac felly t'wyfir finnau:
Arweiniant fi i'th breftwyl f' ydd,
i'th fynydd, ac i'th demlau.
4 Yna yr af at allor Duw,
fef goruchel Dduw hyfryd:
Ac ar y delyn canaf fawl,
Duw, Duw, fy hawl a'm gwynfyd.
5 Trwm wyd f' enaid o'm mewn: paham
y rhoi brudd lam ochenaid?
Difgwyl wrth Dduw, a doi gar bron
ei wyneb tirion cannaid.

## SALM XLIV.

CLWYSOM a'n clufiau (O Dduw cu)
a'n tadau fu'n mynegy;
I ni dy wyrthiau gynt a oedd
yn yr amferoedd hynny.
2 Sef y cenhedloedd tynnaift hwy,
a'th bobl yn fwyfwy plennaift:
Lladd eftroniaid heb ado un,
a'th bobl dy hun a gedwaift.
3 Can's nid a'u cledd eu hun, yn wir,
y cawfant dir na thyddyn:
Nid a nerth eu breichiau yn ffiwch
y cadwyd heddwch iddyn':
4 Ond dy law ddeau, a'th fawr nerth,
a'th olwg prydferth effro,
O herwydd it' eu hoffi: hyn
a barodd iddyn' lwyddo.
5 Ti, Dduw, fy Mrenhin ydwyd; O
Duw, par i Iago lwyddiant:
Lladdwn a fathrwn, yn d'enw di,
y rheini a'n cafaant.
6 Nid yn fy mwa mae fy ngrym,
na'm cleddyf llym f' ymddiffyn:
7 Ond tydi, Dduw, achubaift fi,
a rhoift warth fri i'r gelyn.
8 Am hynny molwn di bob dydd:
cai yn dragywydd fawredd:
Canwn i'th enw gerdd gan dant,
o glod a moliant rhyfedd.
9 Ond ti a giliaift ymaith beth,
daeth arnom feth a gw'radwydd:
Nad ait ti allan gyd a'n llu,
cyfagos fu i dramgwydd.
10 Gwnaethoft i nyni droi, heb drefn,
ein cefn ar y gelynion:

# Salmau XLV, XLVI.

Felly yr aeth ein da o'n gwlad,
yn 'sglyfiad i'n casteion.
11 Rhoist ni yn fwyd (fel defaid gwar)
ar wasgar i'r cenhedloedd.:
12 A gwerthaist dy bobl ar bris bach,
nid hythrach dy oludoedd.
13 Rhoist ni yn watwar (O Dduw lon)
i'n cymmydogion gwrthrym:
A diystyrwch oll a gwarth
i bawb o bob-parth ydym.
14 Dodaist ni yn ddihareb chwith
ym mhlith yr holl genhedloedd:
Ac yn arwydd i ysgwyd pen,
a choeg gyfatgen pobloedd;
15 Fy ngwarth byth o'm blaen daw yn hawdd
fy chwys a dawodd fy thagdal.
16 Gan lais gwarthruddwr, bablwr cas,
a gwaith galanas dial.
17 Er dysod arnom hynny i gyd,
ni throes na'n bryd na'n cohon:
Ac ni buom j'th air (O Ner)
un amser yn unfyddlon.
18 Ein calon yn ei hol ni throed,
ni lithrai 'n troed o'th lwybrau:
19 Er ein gyrru i ddreigiaidd gell
a'n tol a mantell angau.
20 Os aeth enw ein Duw o'n co',
ac estyn dwylo i arall:
21 Oni wel Duw y gaugred hon?
ein calon mae'n ei deall.
22 O herwydd er dy fwyn yn wir,
O Dduw, y'n lleddir beunydd,
Fal y defaid ymron eu lladd;
fal dyna radd y llonydd.
23 O deffro, cysod, Dduw, mewn pryd:
pa'm yr wyd cyd yn gorwedd?
A dihuna, a chlyw fy nghri;
a chofia fi o'r diwedd.
24 Paham y cuddi d'wyneb-pryd?
a darbod hyd ein blinder:
Ein henaid mathrwyd yn y llwch,
gan driftwch y gorthrymder.
25 Wrth y llwch mae ein bol ynglyn;
fal dyna derfyn gwagedd:
26 Duw, cysod, cymmorth, gwared ni,
o egni dy drugaredd.

## SALM XLV.

TRAETHODD fy ngalon bethau da;
i'r Brehin gwna fyfyrdod:
Fy nhafod fel y pin, y sydd
yn llaw 'sgrifennydd parod.
2 Uwch meibion dynion teccach wyd,
tywalltwyd rhai i'th enau:
Herwydd i Dduw roi arnat wlith
ei fendith byth, a'i radau.
3 Gwisg dy gleddau yngwasg dy glun,
O gadarn Gun gogonedd:
A hyn sydd weddol, a hardd lawn,
mewn llwydd a llawn orfoledd.
4 Marchog ar air y gwir yn rhwydd,
lledneisrwydd a chyfiawnedd:
A'th law ddeau di a drwy
bethau ofnadwy rhyfedd.
5 A thanat ti pobloedd a syrth,
gan wyrth dy saethau llymion:
Briwant hwy, a glynant yn glau
ym mronnau dy elynion.
6 Dy lan orsedd-faingc (O Dduw fry)
pery i drag'wyddoldeb:
Awdur-faingc dy deyrnas y sydd
awdurol, rhydd uniondeb.
7 Ceraist uniondeb, casc'ist gam:
o achos pa'm, Duw Lywydd,
Dy Dduw rhoes arnat ragor fraint,
sef ennaint y llawenydd.
8 Aroglau Myrr, ac Aloes da,
a Chasia, sy ar dy ddillad,
Pan ddelych di o'th ifyrn dai,
lle y'th lawenai 'r holl wlad.
9 Sef merched brenhinoedd yn gwau
gyd a'th garesau cywir:
O'th du deau'r frenhines ddoeth,
mewn gwisg Aur coeth o Ophir.
10 Clyw hyn, O ferch, a hefyd gwel,
ac a chlust isel gwrando:
Mae'n rhaid it' ollwng pawb o'th wlad,
a thy dy dad, yn angof.
11 Yna'i bydd (gan y Brenhin) wych
gael edrych ar dy degwch:
Dy Arglwydd yw, gwna iddo foes,
i gael i'th oes hyfrydwch,
12 Merched Tyrus oedd a rhodd dda:
a'r bobloedd apla o olud
A ymryfonent gar dy fron,
am roi anrhegion hefyd.
13 Ond merch y Brenhyn, glan o fewn,
anrhydedd llawn fydd iddi:
A gwisg o aur a gemmau glan
oddiallan fydd am dani.
14 Mewn gwaith gwe nodwydd y daw hon
yn wych gar bron ei Hargiwydd:
Ac a'i gwyryfon gyd a hi,
daw attad ti yn ebrwydd.
15 Ac mewn llawenydd mawr a hedd,
ac mewn gorfoledd dibrin,
Hwynt-hwy a ddeuant, wrth eu gwys,
i gyd i lys y Brenhin.
16 Dy feibion yn attegion tau
yn lle dy dadau fyddant:
Tywysogaethau, drwy fawrhad,
yn yr holl wlad a feddant.
17 Cofiaf dy enw di ym mhob oes,
tra caffwyf einioes i mi:
Am hyn y bobloedd a rydd fawl
byth yn drag'wyddawl i ti.

## SALM XLVI.

GOBAITH a nerth in' yw Duw hael;
mae help i'w gael mewn cyfwng:
2 Dacar mynydd, aent hwy i'r mor,
nid ofnaf f' angor deilwng.
3 Pe ymgymmysgai'r tir a'r dwfr,
nid ofnwn gynnwrf rhuad.
Ped ai'r mynyddoedd i'r mor mawr,
a'r bryniau i lawr y gwastad.
4 Dinas Duw lle llawen a fydd,
cysagos glennydd afon:
Cyllegr presswylfa y rhad,
gan ddyfal rediad Cedron.
5 Duw fydd yn trigo o'i mewn hi,
ni ad hi 'sgogi unwaith:

Duw

# Salmau XLVII, XLVIII, XLIX.

Duw a'i cymmerth ar y wawr ddydd
i phreſwylſeydd perffaith,
6 Y cenhedloedd pan fyddent ddig,
a ffyrnig y t'yrneſydd,
Toddai y ddaear o'i flaen ef,
pan glywid llef Duw Ddofydd.
7 Y mae yr Arglwydd gyd a ni,
Ior anifeiri luoedd:
Y mae Duw Iago yn ein plaid,
gyr help wrth raid o'r nefoedd.
8 Y wlad, O dowch i gyd yn rhwydd,
a gwaith yr Arglwydd gwelwch,
Y modd y gofodod ef ar
y ddaear anniddanwch.
9 Gwna i ryfeloedd beidio 'n war
hyd eitha'r ddaear lychlyd:
Dryllia y bwa, tyr y flon,
llyfg y cerbydon hefyd.
10 Peidiwch, gwybyddwch mai fi yw
eich unig Dduw a'ch Gwaear:
Ym myſg cenhedloedd mi gaf barch,
a'm cyfarch ar y ddaear.
11 Y mae yr Arglwydd gyd a ni,
Ior anifeiri luoedd:
Y mae Duw Iago yn ein plaid,
gyr help wrth raid o'r nefoedd.

## S A L M XLVII.

CENWCH, a chut wch ddwylaw 'nghyd,
holl bobl y byd cyfannedd:
A llafar genwch i Dduw Nef,
gan leiſio a llef gorfoledd.
2 Sef ofuir Duw uwch daear gron,
ef fydd dros hon yn Frenhin:
3 Dwg bobloedd danom, a phob gwaed,
a thun ein traed fo'n diſgyn.
4 Fe a rydd i ni feddiant ſiwr,
gwlad Iago, gwr a garai:
5 Duw a ddyrchafodd wrth y ſain,
yr utgorn gain pan leiſiai.
6 O cenwch, cenwch, glod ein Duw;
ein Brehin yw, O cenwch:
7 Duw dros y byd fy Frenhin call,
drwy ddeall ymhyfrydwch.
8 Brenhin yw ef, a da y gwnaeth
lywodraeth ar wyr bydol:
Ac y mae'n eiſtedd yn ei drwn,
gorſeddaf ſwn ſanctteiddiol.
9 Ymgaſglant bendengion byd,
ynghyd a llu Duw Abra'm:
Duw biau tariannau y tir,
drwy foliant hir yn ddinam.

## S A L M XLVIII.

MAWR ei enw'n ninas ein Duw,
a hynod yw yr Arglwydd:
A'i drigfan ef yno y fydd,
ym mynydd ei ſanctteiddrwydd.
2 Tegwch bro, a llawenydd gwlad,
yw Seion lathriad fynydd,
Yn yſtlyfau y gogledd lawr,
tre'r Brehin mawr tragywydd.
3 Adweinir Duw ym mhlafau hon
yn gymmorth digon hynod:
4 Ac wele, nerth brenhinoedd byd
doent yno i gyd-gyfarfod.
5 A phan welſant, rhyfedd a fu,
ar frys brawychu rhagor:
6 Dychryn a dolur ar bob ffaig,
fel dolur gwraig wrth eſgor.
7 Ti a dwyreinwynt dryllit'n frau
eu llongau ar y morloedd:
8 Fel y clywſom y gwelſom ni,
yn ninas Rhi y lluoedd:
Sef hyn yn ninas ein Duw ni,
ſierha Duw hi byth bythoedd:
9 Duw, diſgwyliaſom am dy ras
i'th deml, ac addas ydoedd.
10 Duw, fel yr aeth dy enw o hyd,
felly drwy'r byd y'th foliir:
Dy law ddeau y fydd gyflawn,
a chyfiawn y'th adweinir.
11 A bryn Seion a fawenha,
a merched Juda hefyd:
A'u llawenydd hwy yn parhau,
o ran dy farnau hyfryd.
12 Ewch, ewch odliamgylch Seion fail,
a'i thyrau adail rhifwch:
13 Ei chadarn fur, a'i phlafau draw,
i'r oes a ddaw mynegwch.
14 Can's ein Duw ni byth yw'r Duw hwn;
hyd angau credwn ynddo:
A hyd angau hwnnw a fydd
yn dragywydd i'n t'wyſo.

## S A L M XLIX.

GWRANDEWCH chwi y bobloedd i gyd,
trigolion byd deallwch:
2 Gwerin, tlawd, bonheddig, a chryf,
cyfoethog hyf, yſtyriwch.
3 O'm genau daw doeth air didwyll,
a'm calon pwyll fyfyriaf:
4 A'm clufl gwrandawaf ddammeg ddwys,
a'm llais cerdd fwys a ganaf.
5 Paham yr ofnaf ddrygau 'r byd,
yn amſer adfyd atcas,
Pan fo anwiredd wedi cau
wrth fy ſodlau o'm cwmpas?
6 Mae llawer rhai o wyr y byd
mewn golud a 'mddiriedant,
A thrwy fiarad am warth, a rhi'
y rheini y rhodreſant.
7 Ond ni wareda neb mo'i frawd,
ni thal yn ddidlawd drofto:
Ac ni chymmer Duw y fath dal,
nac iawn mor fal am dano.
8 Sef pryniad enaid dyn drud fydd,
a hyn byth gorfydd peidio:
9 Fel y gallo efe fyw byth,
heb fyn'd i nyth yr amdo.
10 Gwelir mai'r bedd yw lletty'r doeth,
y ffol a'r annoeth unwedd:
Marw yw'r naill, a marw yw'r llall,
i arall gad ei anuedd.
11 Meddwl am eu had cilad byth,
yn ddilyth y parhaunt:
Am hyn wrth eu henwau, yn wir,
henwau eu tir a âlwant.
12 Ni phery dyn o gnawdol dras
mewn urddas, er ei adail:
Biau pob dyn, pan ddel ei ddydd,
a ddeifydd fal anifail.

23 Dyma eu ffordd, ffordd ffoledd fydd,
na welant ddydd yn pafio:
Er hyn eu hil a ddel i'w hol
fydd yn eu canmol etto.
24 Angau yw terfyn pob dyn byw,
i hwn nid yw ond tammaid:
Myned fydd raid o'r ty i'r bedd,
yn fhwym un wedd a'r defaid.
25 Daw dydd i'r cyfion drannoeth teg,
daw im' ychwaneg yflyn:
Daw im' o'r bedd godiad i fyw,
deheu-law Duw a'm derbyn.
26 Er codi o wr mewn parch, neu dda,
nac ofna di un gronyn:
27 Ei olud ef, na'i barch, na'i dda,
i'r bedd nid a i'w ddilyn.
28 Hwn, tra fu fyw yn rhodio llawr,
gwnai 'n fawr o hono 'i hunan.
Gwna 'honot ti dy hun yn fwy,
a hwynt-hwy a'th ganmolan'.
29 At oes ei dadau hwn pan ddel,
a i'r bedd dirgel efrydd:
30 Dyn mewn anrhydedd heb ddeall,
(fal llwdn o wall) a dderfydd.

## S A L M L.

DUW y duwiau, yr Arglwydd cu,
gan lafaru, a alwodd:
O godiad haul hyd fachlud hwn,
yr holl fyd erwn cyffroodd.
2 O fryn Sion y daeth Duw Naf,
hon fydd berffeithiaf ddinas,
Mewn tegwch a goleuni mawr
a llewyrch gwawr o'i gwmpas.
3 Doed rhagddo'n Duw, na fid fel mud,
o'i flaen flam danllyd yfed:
A mawr dymheftloedd i'w gylch ef,
pan ddel o Nef i wared.
4 Geilw ef am y nefoedd fry,
a'r ddaear obry ifom,
I gael barnu ei bobloedd ef:
fal hyn rhydd lef am danom?
5 O ceiglwch attaf fi fy faint,
y rhai, drwy rydd-fraint brydferth,
A wnaethant amnod a myfi,
a'i rhymo hi drwy aberth.
6 A phan ddangofo mintai Nef
ei farnu ef yn union:
Sef Duw fydd yn barnu ei hun,
yr unig Gun fydd gyfion.
7 Clyw di fy mhobl, traethaf yn ffraeth
dyftiolaeth yn dy erbyn,
Dithau Ifrael; ac iawn yw,
Duw, fef dy Dduw a'th ofyn.
8 Ni chei di am yr ebyrth tau,
na'th boeth offrymmau gerydd:
Nac am na baent hwy gar fy mron,
y cyfryw roddion beunydd.
9 Ni chymmeraf o'th dy un llo,
na hyfr a fo'n dy gorlan:
10 Mi biau 'r da 'n y maes fy'n gwau
ar fil o fryniau allan.
11 Pob aderyn erbyn ei ben,
a adw'en ar y mynydd,
Pob da maefydd, y lle y maen',
y maent o'm blaen i beunydd.
12 Nid rhaid im' ddangos i ti hyn,
pe delai newyn arnaf:
Ac yn eiddof fi yr holl fyd,
a'i dda i gyd yn llownaf.
13 Ai cig y teirw fydd fy mwyd?
na thyb: nid wyd ond angall:
Ai gwaed hyfrod fydd fy niod?
dyfg di o newydd ddeall.
14 Dod dy oglud ar Dduw yn drwm,
a thal yr offrwm pennaf i
Can ei fawl: fi; a dod ar led
d'addunedi'r Goruchaf.
15 Galw arnaf yn dy ddydd blin;
yno cei fi'n Waredydd:
Yna y ceni i mi glod,
am droi y rhod mor ddedwydd.
16 Duw wrth yr enwer dywaid hyn;
Ai 'ti perthyn fy neddfau?
Paham y cym'ri di na'm clod,
na'm hammod, yn dy enau?
17 Sef, cas fu gennyt ti iawn ddyfg,
ac addyfg ni chymmeraift:
A'm geiriau i (fel araith ffol)
i gyd o'th ol a deflaift.
18 A phan welaift leidr, rhedaift,
a rhwydaift ran oddiwrtho:
Ac os gordderchwr brwnt allan,
mynnaift ti gyfran gantho.
19 Gollyngaift di dy lafn yn rhydd
yn efrydd ar ddrygioni:
A'th dafod a lithrai ym mhell
at ddichell, a phob gwegi.
20 Eifteddaift di, d'wedaift ar gam
ar fab dy fam er enllib;
Pan wnaetholt hyn, ni'th gofpais di,
a thybiaift fi'n gyffelyb.
21 Ond hwy na hyn tewi ni wnaf,
mi a'th geryddaf bellach:
Mi a ddangofaf dy holl ddrwg
o flaen dy olwg hayach.
22 Gwrandewch; a pheidiwch tra fo'ch byw
a gollwng Duw yn angof:
Pan ni bo neb i'th gwared chwi,
rhag ofn i mi ich rhwygo.
23 Yr hwn 'abertho i mi fawl,
yw'r fawl a'm gogonedda:
I'r neb a drefno'i flordd yn wiw,
gwir iechyd Duw a ddyfga'.

## S A L M LI.

TRUGAREDD dod i mi,
Duw o'th ddaioni tyner:
Ymaith tyn fy anwiredd mau,
o'th drugareddau lawer.
2 A golch fi yn llwyr ddwys
oddiwrth fawr bwys fy meian:
Fy Arglwydd, gwna'n bur lan fyfi
rhag brynti fy nghamweddau.
3 Can's adwaen fy nghamwedd,
a'm brwnt anwiredd yfig:
Sef beunydd maent gar fy mron i,
yn d'erbyn di yn unig.
5 Y gwneuthum hyn oedd ddrwg,
yn dy lan olwg diftrych:
Fel y'th gyfiawner yn ol d'air,
yn burair pan y bernych.

6 Mewn

5 Mewn pechod llunìwyd fi,
ac mewn drygioni dygas:
Felly yr wyf o, groth fy mam
yn byw bob cam yn atcas.
6 Ac wele, ceri'r gwir
o fewn yr gywir galon:
Am hyn dyfgaiſt ddoethineb iach
im' o'th gyfrinach ffyddlon.
7 Ag iſop golch fi'n lan;
ni byddaf aflan mwyach:
Byddaf fi, o'm golchi mal hyn,
fel eira gwyn, neu wynach.
8 Par i mi weled hedd,
gorfoledd, a llawenydd,
I adnewyddu f' eſgyrn i,
a ddrylliaiſt di a cherydd.
9 O cuddia d'wyneb-pryd
rhag fy mhechodau i gyd:
Fy anwireddau tyn en lliw,
O Arglwydd, bid wiw gennyd.
10 Duw, crea galon bur,
dod i mi gyſur beunydd:
fyw yn well tra fwy'n y byd,
dod ynof yſpryd newydd.
11 O Dduw, na ddyro chwaith
fi ymaith o'th olygon:
Ac na chymmer dy yſpryd glan
oddiwrthyf, druan gwirion.
12 Gorfoledd dwg i mi,
drwy roddi im' dy iechyd:
A chynnal a'th yſprydol ddawn
fi, i fyw'n uniawn hefyd.
13 A dyſgaf dy ffordd wir
i'r enwir, a'th addoliad:
A phob pechadur try i'r iawn,
a chyrch yn uniawn attad.
14 Rhag gwaed gwared fi, Dduw,
ſef Duw fy iachawdwriaeth:
A'm tafod o'th gyfiawnder di
a gan gerdd wiſgi hy-ffraeth.
15 Duw, egor y min mau,
a'm genau mi a ganaf,
O Arglwydd, gerdd o'th fawl a'th nerth:
fal dyna 'r aberth pennaf.
16 Can's aberth ni'n ceiſi,
ac ni fynni offrwn poeth:
Pe y mynnaſit, cawſit hyn;
nid rhaid it' dderbyn cyſoeth.
17 Aberthau Duw i gyd
yw yſpryd pur drylliedig:
Ac ni ddiſtyri (O Dduw Ion)
y galon cyſtuddiedig.
18 Bydd dda wrth Seion fryn,
O Arglwydd, hyn a fynni:
Ac wrth Gaerſalem dy dreſtad;
a gwna adeilad arni.
19 Cei aberth iawnedd coeth,
cei offrwm poeth yn rhagor:
Cei aberth llo'g, a boddlon ſych,
cei fuſtych ar dy allor.

## S A L M LII.

PA'M y rhodreſi yn dy frad,
a'th ddrwg fwriad (O gadarn?)
A maint trugaredd Duw bob dydd,
ac felly bydd hyd dydd-farn.
2 Dychymmyg drwg yw'r fyſyrdawd,
a gwaith dy dafawd 'ſgeler:
Hwn fydd fel ellyn llym o ddur,
a'i fwydd yw gwneuthur ffalſder.
3 Ni hoffaiſt dda, gwnait ddrwg yn hawa,
a'r traws yn fwy na'r union.
4 Hoffaiſt eiriau diſtryw a bar,
ti gulyn twyllgar, creulon.
5 Duw a'th ddiſtrywia llithau byth,
fo dynn dy chwyth o'th gaban:
Ac a dyn dy wraidd di i gyd
o dir y bywyd allan.
6 Rhai a'i gwelant a arſwydant;
can's hwy a ydynt gyflon:
A hwy a chwarddant am ei ben,
pan welon' ddilen greulon.
7 Gwelweh y gwr ni rodd yn ddwya
ar Dduw na'i bwys na'i oglud:
Ond ar ddrygioni yn rhoi nerth,
a rhif, a gwerth ei olud.
8 Minnau, fel olew wydden werdd,
yn nhy Dduw cerdd a ganaf:
Ymddiriedaf iddo yn hawdd,
byth dan ei nawdd y byddaf.
9 Mi a'th folaf, a gobeithiaf,
byth bythoedd drwy ymddiried:
Da yw dangos gar bron dy ſaint
dy enw, a maint dy weithred.

## S A L M LIII.

DYWEDAI'R ynfyd wrtho 'i hun,
nad oes un Duw, na dial:
Ei ddrwg ffieidd-dra, a'i drais tyn,
a ddengys hyn yn ddyfal.
2 Edrychodd Duw i lawr o'r Nef,
ar ddynion ef a graffodd:
Oedd neb yn deall, oedd un byw
yn ceiſio Duw o'i wirfodd.
3 Ciliafai bawb yn ol ei gefn,
a hwy drachefn cyd-lygrynt:
Nid oedd neb a wnelai yr iawn,
nac un yn gyflawn 'honynt.
4 Pa'm na 'ſtyria gweithwyr traha
eu bod yn bwytta 'mhobloedd,
Fel y bara? ac heb ddim bri;
ni alwant fi o'r nefoedd.
5 Ofn heb achos arnynt a ddaeth,
y rhai a'ch caeth warchaeodd:
Can's, trwy eu gwaſgar i bob parth,
mewn gwarth Duw a'n gwaſgarodd.
6 Och fi, na roid i Iſrael,
o Seion uchel, iechyd:
Pan roddo Duw ei bobl ar led
o drom gaethiwed adfyd.
7 Yna y bydd Iago yn iach,
ac Iſrael bach yn hyfryd:
Yna y bydd Iago yn iach,
ac Iſrael bach yn hyfryd.

## S A L M LIV.

DUW, yn d'enw cadw fi'n dda,
a barna i'th gadernid:
2 Duw, clyw fy ngweddi, gwrando 'nghwyn,
a'm llef yn achwyn wrthid.
3 Can's codi 'm herbyn i yn chwyrn
mae cedyrn ac eſtroniaid:



Ac

Ac heb ofod Duw gar eu bron,
mor greulon ynt i'm henaid.
4 Wele, Duw fydd i'm cymmorth rhag
pwy bynnag a gais ddial:
Duw fydd gyd a'r rhai fy ar blaid
fy enaid, er ei gynnal.
5 Efe a dal, o'r achos hon,
i'm gelynion eu drygedd:
O tor di ymaith hwynt (fy Ion)
yn elgion dy wirioned.
6 Rhof aberth it', o'wyllys da,
a chlodfora' dy enw,
Fy Arglwydd, cymmwys ydyw hyn;
ſef ti wyd yn fy nghadw.
7 Gwir yw, Duw a'm gwaredodd i
o'm cyni a'm trallodion:
A'm llygad a gaſodd ei fryd
a'i wynfyd o'm caſeion.

## SALM LV.

O DDUW, gwrando fy ngweddi brudd
nac ymgudd rhag fy nghwynfan:
2 Erglyw a gwel fy ngwael yſtad,
a llais fy nad a'm tuchan.
3 Hyn rhag rhuadaidd lais fy nghas,
a phwys dyn llym-ias enwir:
Y rhai a daerant arnaf dirwg,
a'u llid yn amlwg gwelir.
4 Gofid calon fy'n dwyn fy oes;
daeth angau loes hyd attaf.
5 Mae ofn ac arſwyd arnaf caeth,
a dychryn daeth ar f' uchaf.
6 O dra ofn d'wedwn yn fy nghri,
Gwae fi am eſgyll e'lommen:
Yna'r ehedwn i le rhydd,
i gael im' lonydd amgen.
7 Wele awn i grwydro ym mhell,
lle cawn yſtafell fachog:
8 Yna y bryſiwn ar fy hynt,
rhag rhuad gwynt tymheſtlog.
9 Dinyſtria di hwynt (Arglwydd da)
gwahana eu tafodau:
Sef yn y ddinas amlwg drais
a welais, a chynhennau.
10 Dydd a nos ei chylchu yn dro,
a rhodio 'r hyd ei chaerau:
O'i mewn y mae anwiredd mawr,
ac ar ei llawr bechodau.
11 Gan faint ei anwireddau hi,
a maint drygioni beunydd,
Nid ymad twyll na dichell chwaith
fyth ymaith o'i heolydd.
12 Ac ni wnaeth fy nghas y gwaith hyn;
pe gelyn, goddefaſwn:
A phe dyn atgas yn ei roch,
yn hawdd y gochelaſwn.
13 Ond tydi, wr, fy nghyfaill gwar,
fy nghymmar a'm cydnabod.
14 A fu mewn cyd-gyfrinach ddwys
yn eglwys Dduw'n cyfarfod.
15 Terfyſg angau arnaw y del,
i'r pwll yr el yn lledfyw:
Sef ym mherfedd eu cartref cau
nid oes ond drygau diſtryw.
16 Minnau gweddiaf ar Dduw byw,
yn hwn a'm clyw mewn amſer.
17 Hwyr, a bore, a chanol dydd
a hyn a fydd drwy daetder.
18 Gwaredodd Duw yr einioes fau
mewn hedd yn nyddiau drygnaws:
Lle'r oedd o'r blaen yn f' erbyn lu,
ſef ar fy nhu troes llaws.
19 Duw a'u goſtwng hwynt, ac a'm clyw,
ſef Brenhin yw er cynnoes:
Hwythau heb ymado a'u chwant,
fy Nuw nid ofnant elfoes.
20 Ef wedi cymmod, a thoi llaw,
drwy godi braw, a frochodd:
Ef a'r un llaw (yn erbyn hedd)
yr un gyfaredd torrodd.
21 Ei eiriau ſal ymenyn gwyrf,
a'i ſwrlad ffyrf am ryfel:
Pan fu oel ar ei dafod doeth,
tyn gleddyf noeth yn ddirgel.
22 O hwrw d'ofal ar dy Dduw,
o mynni fyw heb fyrthio:
Duw a geidw y cyfion byth,
a'r drwg fo'i chwyth i gwympo.
23 Sef pob dyn gwaedlyd bradog dro,
nid oeſa fo hyd hanner:
(Fy Arglwydd Dduw) ond ynot ti
mae 'ngobaith i bob amſer.

## SALM LVI.

DUW, dy nawdd im' rhag marwol ddyn,
hwn yn ei wyn a'm llyngcai:
Sef ymryfelu a mi bydd,
a beunydd y'm gorthrymmai.
2 Llyngcent fi beunydd o dra chas,
(dy ras, O Dduw goruchaf)
Rhai heiloh rhy dynnion maent yn llu
yn poeth ryfelu arnaf.
3 Y dydd y bai mwyaf fy ofn,
rhown ynot ddoſn ymddiried:
4 Molaf, credaf, nid ofnaf gnawd,
doi yn ddidlawd i'm gwared.
5 Yn fy ymadrodd i fy hun
y ceiſiant lun i'm maglu:
Ac ar bob meddwl, a phob tro,
y maent yn ceiſio 'nrygu.
6 Ymgaſglu, llechu, dirgel hwyl,
a diſgwyl fy holl gerdded,
Drwy ymfwriadu i mi loes,
a dwyn i'm heinioes niwed.
7 A ddiangant hwy? Duw, tal y pwyth,
dod iddynt ffrwyth eu 'nwiredd:
Diſgyn y bobloedd yn dy lid;
Duw, felly hid eu diwedd.
8 Duw rhifaiſt bob tro ar fy rhod;
fy nagrau dod i'th goſtrel:
On'd yw pob peth i'th lyfrau di
a wneuthum i yn ddirgel?
9 Y dydd y llefwyf, gwn yn wir,
dychwelir fy ngelynion:
Am fod drofof fy Nuw a'i law,
mi wn y daw yn union.
10 Gorfoleddaf yngair fy Nuw,
gair f' Arglwydd byw a folaf:
11 Yn Nuw y rhof ymddiried ſiwr;
beth a wnel gwr nid ofnaf.
12 O Duw, mae arnaf fi yn ddled
lawer adduned ffyddlon:

Ac mi a'u taflaf hwynt yn rhwydd
i ti, fy Arglwydd eyhon.
12 Am it' ludd dwyn fy oes a'm gwaed,
a llettair i'm traed lithro,
Fel y rhodiwyf fi gar dy fron
yngoleu 'r bywion etto.

## SALM LVII.

DYrcha, dy nawdd (fy Nuw) im' dod,
fef ynod ymddiriedaf i:
Nes myned heibio 'r aflwydd hyn,
dan d'edyn ymgyfrodaf.
2 Ymddiried f' enaid ar Dduw fydd;
ar Dduw drwy ffydd y galwaf i:
Ac a gwbliaf ei air yn iawn,
fef cyflawn yw 'r Goruchaf.
3 O'r nef yr enfyn geidwad ym',
rhag nerth dyn llym a'm llyngcai:
Enfyn fy Nuw ei nawdd, a'i hedd,
a'i lan wirionedd didrai.
4 Ym myfg y llewod mae fy oes,
plant dynion poeth-foes eirlau:
Eu dannedd fydd fel gwayw neu faeth,
a'u tafod gwaeth na'r cleddau.
5 Ymddyrcha, Dduw, y nef uwchlaw,
oddiyno daw d'arwyddion:
A bydded dy ogoniant ar
y ddaear, a'i thrigolion.
6 O flaen fy nhraed y rhoifant rwyd,
ac felly'm rhwymwyd weithian:
Ar fy ffordd y cloddiafant glawdd,
i'r hwn yn hawdd fyrthiafan'.
7 Parod yw fy nghalon (O Dduw)
O parod yw fy nghalon:
Canaf it' a dateanaf wawd
o fawl fy nhafawd eyfion.
8 Deffro dafod, a deffro dant,
a chan ogoniant beunydd,
Nabl a thelyn, heb ado un:
deffrof fy hun ar las-ddydd.
9 Mawl it' (O Arglwydd) pan ddeffrof,
a roi ym myfg y bobloedd:
A chlodfori dy enw a wnaf
lle amlaf y cenhedloedd.
10 Can's cyrhaeddyd y mae dy ras
hyd yn nh'yrnas y nefoedd:
A'th wirionedd di hyd at len
yr wybren, a'i th'yrnafoedd.
11 Ymddyrcha (Dduw) y nef uwchlaw,
oddiyno daw d'arwyddion:
A bydded dy ogoniant ar
y ddaear, a'i thrigolion.

## SALM LVIII.

AI'r uniondeb (O bobloedd wych)
yr ydych yn ei dd'wedyd?
A ydych chwi, O blant dynion,
yn barnu 'r union hefyd?
2 Hytrach malais fy yn eich bron,
ac yftryw calon dwyllgar:
A gwaith eich dwylaw trawfter blin,
tra foch yn trin y ddaear.
3 Y rhai annuwiol aent ar gam,
o groth eu mam newidient:
Ac ar gyfeiliorn myn'd o'r bru,
a chelwydd fu a draethent.
4 Un wedd a gwenwyn y farph yw
y gwenwyn byw fydd ynddyn'
Neu'r neidr fyddar yn trofan
dan gau ei chluftiau cyndyn;
5 Yr hon ni wrendy ddim ar lais
na'r wers a'gais y rhinwyr:
Nac un gyfaredd a'r a wna
y cyfarwydda' o fwynwyr.
6 Duw, tor eu dannedd yn eu fafn,
diwreiddia'r llafn o dafod:
Duw, dryllia'r bonau, a gwna'n don
bob grudd i'r e'nawon llewod.
7 Todder hwynt fel dwfr ar y tir,
felly dillenner hwythau:
Os mewn bwa rhoifant faeth gron,
boed torri hon yn ddryllian.
8 Boent hwy mor ddiffrwyth, ac mor hawdd
a malwen dawdd y todder:
Neu fel rhai bach ni welai 'r byd,
o eiliau pryd ac amfer.
9 Tal Duw iddynt ffrwythau eu llid,
eynt nag y llofgid ffagidan:
Tyn hwynt-hwy ymaith yn dy ddig
cyn twymnai cig mewn crochau.
10 A phan weler y dial hyn,
fe chwardd y glanddyn eyfion:
Pan fo rhydd iddo olchi 'draed
yngwaed yr annuwiolion.
11 Yna dywaid dynion fod iawn
a ffrwyth i gyflawn bobloedd:
A bod ein Duw yn Farnwr ar
y ddaear a'i therfynoedd.

## SALM LIX.

FY Nuw gwareda fi rhag brad,
a rhag twyll fwriad gelyn:
Derbyn di drofof, rhag y rhai
a godai yn fy erbyn.
2 Ac ymddiffyn fi yn bybyr
oddiwrth weithredwyr camwedd;
Achub fyfi rhag cas y byd,
a rhag gwyr gwaedlyd hygledd.
3 Ac wele' maent hwy i'm canlyn;
amcanent ddwyn fy mywyd:
Nid ar fy mai yr haeddais hyn,
ond tynder gelyn gwaedlyd.
4 Duw, rhedent hwy yn barod iawn,
dim ni wnawn i'w herbyn:
Edrych dithau, fy Arglwydd, rhed,
a thyred i'm hymddiffyn.
5 Ti, Dduw y llu, Duw Ifrael,
O deffro, gwel anwiredd,
I'r cenhedloedd na ad di 'n rhad.
lle gwnant trwy ffrad eu trawfodd.
6 Maent hwy yn arfer, gyd a 'r hwyr,
o 'mdroi ar wyr o bob-parth:
A thrwy y ddinas clywch eu fwn,
un wedd a'r cwn yn cyfarth.
7 Wele, maent a thafodau rhydd;
awch cledd a fydd i'w genau:
Pwy, meddant hwy, all glywed hyn,
ac a wna i'n herbyn ninnau?
8 Ond tydi, fy Arglwydd a'm Duw
a'u gwel, a'u clyw, a'u gwatwar;
Am ben eu gwaith y chwerd di di:
y cenhedlaethi twyllgar.
9 Ti a attebi ei nerth ef,
a'th law gref a'm hymddiffyn:

10 Duw a'm thaflaena innau chwip ;
caf weled trip i'm gelyn.
11 Na ladd hwynt, rhag i'm pobloedd i
anghofio dy weithredoedd :
Gwafgar, goltwng hwy yn dy nerth,
Duw darian preyderth lluoedd.
12 Am pechod eu tafodau hwy,
a'u geiriau, mwyfwy balcheudd,
Telir iddynt ni ront air teg,
ond celwydd, rheg, a choegedd.
13 Duw, difa, difa hwynt i'th lid :
a byth na fid un mwyach :
Gwybyddant mae Duw Iago fydd
drwy 'r byd yn Llywydd hytrach.
14 Maent hwy yn arfer, gyda'r hwyr,
o'mdroi yn llwyr o bob parth :
A thrwy y ddinas clywch eu fwn,
un wedd a chwn yn cyfarth.
15 I gael ymborth crwydro a wnant
ac oni chant eu digon,
Nes cael byddant ar hyd y nos
yn aros dan ymryfon.
16 Minnau a ganaf o'r nerth tau,
a'th nawdd yn foreu molaf :
Nerth im' a nawdd buoft (O Ner)
pan fu gorthrymder arnaf.
17 I ti canaf, O Dduw fy nerth,
a'm hymadferth rymmufol :
Sef tydi yw fy Nuw, fy Naf,
fy Nhwr' fy Noddfa rafol.

## SALM LX.

O Dduw, dydi a'n gwrthodaift,
ar wafgar gyrraift ymaith :
O forraift wrthym yn ddi gel !
tro attom, dychwel eilwaith.
2 Dychrynaift di y ddaear gron,
a holltaift hon yn ddryllian :
Can's o'th lid di ffglo y mae :
iacha, a chae ei briwiau.
3 Dangofaift i'th elynion di
o bwys caledi ormod :
A'r ddiod a roift yn eu min,
oedd megis gwin madrondod.
4 Rhoddaift faner, er hyn i gyd,
i bawb o'r byd a'th ofnant,
I fanerw, drwy dy air gwir,
dros lu eu tir lle trigant.
5 Fel y gwareder, drwy lan hwyl,
bob rhai o'th anwyl ddynion :
O achub hwynt a'th law ddeau,
a gwrando finnau 'n ffyddlon.
6 Yn ei fanctaiddrwydd d'wedodd Duw,
Llawen yw fy nghyfammod :
Mi rannaf Sichem rhyd y glyn :
meſuraf ddyffryn Succod.
7 Myfi biau y ddwy dref-tad,
fef Gilead a Manaffe :
Ephraim hefyd yw nerth fy mhen,
a Juda wen f' anneddle.
8 Ym Moab ymolchi a wnaf,
dros Edom taflaf f' eſgid :
A chwardded Paleſtina gaeth
a'i chwerthin aeth yn rhybrid.
9 Duw, pwy a'm dwg i 'r ddinas gref?
pwy a'm dwg i dref Edom ?
10 Er it' ein gwrthod, pwy ond ti,
O Dduw, a'm leddi drofom ?
Yfiat yn unig mae'n cael ni,
pe rhen i ti ein gwrthod :
Er nad aethoft o flaen ein llu,
bydd ar ein tu mewn trallod.
11 O unig Dduw, bydd di 'n ni 'n berth ;
ofer yw cymmorth undyn :
12 Yn Nuw y gwnawn wroldeth fawr ;
fe fathra i lawr y gelyn.

## SALM LXI.

Erglyw (O Dduw) fy llefain i,
ac ar fy ngweddi gwrando :
2 Rhoff lef o eithaf'r ddaear gron,
a'm calon yn llefmeiria.
Dwg fi i dalgraig uwch na mi,
ac 1ddi bydd i 'm derbyn :
3 Can's Craig o obaith, Twr di-foft,
im' fuoft rhag y gelyn.
4 O fewn dy babell y bydd byth
fy nhrigfan dilyth dedwydd :
A'm holl ymddiried a fyn fod
ynghyfgod dy adenydd.
5 Sef tydi, Dduw, clywaift yn glau
fy addunedau puraidd :
Rhoift etifeddiaeth i bob rhai
a ofnai d' enw fanctaidd.
6 Rhoi oes i 'r Brenin, nid oes fer ;
fo fydd fyw lawer blwyddyn.
7 (Duw) gar dy fron y trig yn hir :
dod nawdd a gwir i 'w ganlyn.
8 A thrwy y rhai 'n y molaf fi
dy enw di 'n dragywydd :
Ac felly peri i mi gwblhau
fy addunedau beunydd.

## SALM LXII.

Fy unig Dduw ydyw fy mhlaid ;
mae f' enaid yn ei ddifgwyl :
O honaw ef, a thrwy ei rym,
daw iechyd ym' o'm hanhwyl.
2 Duw yw fy Nghraig, a'm hunig Nerth,
ac Ymadferth fy einioes :
Ac am hyn, drwy ymddiffyn hir,
mi ni 'm yfgogir eifoes.
3 Pa hyd y mae 'n eich bryd barhau
i fwrw'ch maglau aflwydd ?
Lleddir chwi oll ; gwthir yn llwyr
fel magwyr ar ei gogwydd.
4 Ymgafglent, llunient gelwydd mawr,
i'w roi i lawr o'i fawredd :
Ar eu tafodau rhoi bendith,
a melldith dan eu dannedd.
5 Fy enaid, dod (er hyn i gyd)
ar Dduw dy fryd yn ddyfal :
Ynddo gobeithiaf fi er hyn ;
efo a'm tyn o'm gofal.
6 Sef Craig ymddiffyn yw ei ym',
fy Nhwr, a Grym fy mywyd :
Am hynny y credaf yn wir
na'm mawr yfgogir ennyd.
7 Yn Nuw yn unig mae i gyd
fy iechyd a'm gogoniant :
Fy Nghraig yw, a'm Cadernid maith,
a'm Gobaith yn ddilyftant.

8 Gobeithiwch

8 Gobeithiweh ynddo, gar ei fron,
tywelltweh galon beunaith:
Ac ymddiriedweh tra foeh byw,
a d'wedweh, Duw yw 'n gobaith.
9 Plant Adda gwagedd ynt i gyd,
Plant gwyr fydd hud a gwenyn:
Gwaeeaeh na gwagedd yn eu tawl,
mewn mantawl wrth eu codi.
10 Na roweh eich coel ar gam na thrais;
thaid yw i falais drweio:
Os cynnydda cyfoeth y byd,
na roweh mo'ch goglud arno.
11 Duw a lafarodd hyn unwaith,
mi glywais ddwywaith hynny:
Sef, mae Duw biau 'r nerth i gyd,
goflyngiad byd, neu ffynnu.
12 O Arglwydd, ti hefyd a fedd
drugaredd a daioni:
I bawb dan gwmpas wybren faith
yn ol ei waith y teli.

## SALM LXIII.

TYDI, O Dduw, yw y Duw mawr,
mi geifia'n forau attad;
Y mae fy enaid yn dra fych,
a'm cnawd mewn nych, am danad.
2 Mewn lle heb ddwfr, mewn crinder cras,
ceifiais o'th ras dy weled,
Mal y'th welfwn yn y deml gynt,
ar helynt nerth gogoned.
3 Can's dy drugaredd (O Dduw byw)
llawer gwell yw na'r bywyd:
A'm gwefufau y rhof it' fawl,
a cherdd ogonawl hyfryd.
4 Felly tra fwyf fi fyw y gwnaf,
ac felly 'th folaf etto:
Ac yn dy enw di, fydd gu,
y caf ddyrchafu 'nwylo.
5 Digonir f' enaid, fel a mer,
a chyflawn frafder hefyd:
A'm genau' gan dy foliant tau
a phur wefufau hyfryd.
6 Tra fwyf fi yn fy ngwely clyd,
caf yn fy mryd dy gofio:
Ac yngwyliadwriaethau 'r nos
caf achos i fyfyrio.
7 Ac am dy fod yn gymmorth ym',
drwy fawr rym dy drugaredd,
Fy holl orfoledd a gais fod
dan gyfgod dy adanedd.
8 Y mae f' enaid wrthyd ynglyn;
dy ddeau fy 'n fy nghynnal:
9 Elont i 'r eigion, drwy drom loes,
y rhai a'm rhoes mewn gofal.
10 Syrthiant hwynt-hwy ar fin eu harf,
fy noeth er tarf i'r gwirion:
A chwedi eu meirw, hwynt-hwy dod
yn fwyd llwynogod gwiltion.
11 Ond y Brenhin, yn enw ei Dduw,
boed tra fo byw yn llawen:
A phawb a dyngo i'w Fawredd,
a gaiff orfoledd amgen.
Ond o'r diwedd y daw yn wir,
fe a dywelltir tywod,
I gau fafnau y rhai y fydd
yn tywallt celwydd parod.

## SALM LXIV.

O Arglwydd Dduw, erglyw fy llef,
a chlyw o'r nef fi 'n erfyn;
2 Dduw, cadw fy einioes i,
y fydd yn ofni 'r gelyn.
3 A chuddia fi dros ennyd baeh
rhag cyfrinach y rhai drwg
A rhag terfyfg y rhai fy'n gwau
i wneuthur cammau amlwg.
4 Hogi tafodau fel y cledd,
a d'wedyd buflledd ddigon:
Saethant ergydion i'm farhau,
a'r rhai'n oedd eiriau chwerwon.
5 I faethu 'n ddirgel higau dur
yn erbyn pur ei galon.
Yn ddifymmwth heb ofni neb,
a thrwy gafineh creulon
6 Ymgryfhant hwy yngwaith y fall,
gan guddio'n gall eu rhwydau:
Yna y d'wedant, Pwy a'n gwel
yn bwrw dirgel faglau?
7 Can chwilio dyfnder drygau trwch,
o fewn dirgelwch eigion:
A phawb i'w gilydd yn rhoi nod
o geuedd gwaelod calon.
8 Ond y mae Duw a'i faeth ynghudd,
rhydd yn ddi-rybudd ergyd:
Ef a dal adref yr hawl hon,
yn ddyfn archollion gwaedlyd.
9 Gwaith y tafodau drwg lle bo,
a fyn lwyr fyrthio arnynt:
Pob dyn a'u gwel, a dybia'n well
gillio ym mhell oddiwrthynt.
10 Yna y dywaid pawb a'i gwel,
Gwaith y Goruchel yw hyn:
Can's felly y ddeallant hwy
y cofpir fwyfwy'r gelyn.
11 Ond yn yr Arglwydd llawenha,
ac y gobeithia'r cyfion:
A gorfoledda ynddo'n iawn
pob dyn ag uniawn galon:

## SALM LXV.

I Ti (O Dduw) y gweddai mawl
yn y fancteiddiawl Seion:
I ti y telir, trwy holl gred,
bob gwir adduned calon.
2 Pawb fydd yn pwyfo attad ti,
a wrendy weddi doftur:
Ac attad ti y daw pob cnawd,
er mwyn gollyngdawd llafur.
3 Pethau trawfion, a geiriau mawr,
myfi i'r llawr bwriafant:
Ond tydi, Dduw, rhoi am gamwedd
drugaredd a maddeuant.
4 Dy etholedig dedwydd yw,
caiff nefnes fyw i'th babell:
Trig i'th gynteddau, ac i'th lys,
a'th fanctaidd weddus gangell.
5 Duw'n Ceidwad, attebi i ni
o'th ofni i'th gyfiawnedd:
Holl obaith wyd trwy 'n ddaear hon,
a'r mor cynhyrfdon rhyfedd.
6 Hwn a fierha bob uchel fryn
a'i wregys yn gadernyd:

7 Hwn a oſtega'r mor, a'r don,
a rhuad eiglon enhyd.
8 A holl breſwyliwyr eithaf byd
ſy'n ofni' gyd d'arwyddion,
I ti, gan fore, a chan hwyr,
y canant lafwyr ffyddlon.
9 Dyfrhau y ddaear ſych yr wyd,
afon Duw llanwyd drofti:
Darperaiſt lif-ddwfr i rhyd ei llawr,
i'w thiamawr gyfoethogi.
10 Pob rhych yr wyt yn ei ddyfrhau,
a'i chwyfau'r wyt i'w goſtwng:
A'i thoi ym mwyd mewn cafod wlith,
i'w chnwd rhoi fendith deilwng.
11 Coronſ 'r ydwyt ti fal hyn
y flwyddyn a'th ddaioni:
Y ffordd hyn a'r modd (Duw fy Ner)
diferaiſt fraſder arni.
12 Ef a ddifera ffrwyth dy ferch
ar bob rhwy lannerch ddyrys:
Pob mynydd ſych yn uchder gwlad
o ſirwyth dy rad y dengys
13 Trwy dy fendith y gwaſtad dir
a guddir oll a defaid:
Crechwennant, canant bawb ynghyd,
a'r wlad ag yd ei llonaid.

## SALM LXVI.

YN Nuw ymlawenhewch i gyd,
Yr holl fyd: a datganwch
2 Ogoniant ei enw hyd y nef,
a'i foliant gref a draethwch.
3 Wrth Dduw d'wedwch, Fo bair dy law
i'th elyn oerfraw anfad:
Rhag amled yw nerth y llam hon,
a dy gaſelion danad.
4 Felly 'r holl fyd i gyd a'u rhi
i ti a ymoſtyngant:
Canant ſt' fawl, ac ant hyd lawr:
i'th enw mawr y canant.
5 O dowch, edrychwch, ofnus yw
gweithredoedd ein Duw cyfion;
Ofn ei weithredoedd a rydd ddyſg
ym myſg holl feibion dynion.
6 Fo droes y mor coch yn dir ſych,
a'i wyr yn droed-ſych trwyddo,
A thrwy yr afon: llawen fu
eu bod heb wlychu yno.
7 Ef byth hydd Lywydd cadarn gwych,
a'i olwg edrych beunydd
Ar y cenhedloedd rhwy 'r holl fyd;
ni chyſyd rhai anufudd.
8 O bobloedd, molwch Dduw ar gais,
a moeſwch lais ei foliant:
9 Hwn ſy'n dal bywyd yn y gwaed,
a ddeil ein traed na lithrant.
10 O Dduw, profaiſt a choethaiſt ni
un modd a choethi arian:
11 Yn gaeth y dygaiſt ni i'th rwyd,
ein cyrph a waſgwyd weithian.
12 Aethom trwy ddwfr a than yn gaeth,
bu rai'n marchogaeth arnom:
O peraiſt hyn; ni bu chwaith hir,
i ddiwall dir y daethom.
13 Ag offrwm poeth i'th dy yr af,
talaf fy addunedau,
14 Y rhai mewn cyſwng, rhag mwy trais,
addewais a 'm gweſuſau.
15 Poeth ebyrth breiſion i' a rof,
arogleth cof cyfammod
Yehen, hyrdd, offrymmu a wnaf,
ac etto rhoddaf fychod.
16 O dowch yn nes, a gwrandewch chwi
fy'n ofni Duw trag fythoes
Mi'a fynegaf i chwi'n ffraeth
pa les a wnaeth i'm heinioes.
17 Lleſais i arno a'm genau,
a'r tafod mau a'i molawdd:
18 Pe troiſwn fy nghalon at fai,
Duw a'm gwrandawſai'n anhawdd.
19 Diau Duw a'm clybu yn hawdd,
gwrandawawdd ar fy ngweddi:
20 Bendigaid yw: fo a'm clywawdd
ni throes mo'i nawdd oddiwrthi.

## SALM LXVII.

TRugaredd Duw i'n plith,
a rhoed ei fendith drofom:
A thywynned ei wyneb pryd,
a'i nawdd, a'i lechyd, arnom.
2 Fel y gwyper dy ffyrdd
Trwy 'r ddaear gyd-wyrdd
A'th iachawdwriaeth di (O Dduw)
ym myſg pob rhyw genhedloedd.
3 Duw, moled pobloedd di,
rhont fawl a bri trwy'r holl fyd:
4 A'r holl genhedloedd is wybren,
byddant lawen a hyfryd.
Can's ti a ferni'n iawn
y bobl trwy lawn wybodaeth:
Ac a roi'r holl genhedloedd ar
y ddaear mewn llywodraeth.
5 Duw, moled pobloedd di,
rhont fawl a bri trwy'r holl-fyd:
6 Yna rhydd y tir ffrwyth i'n plith,
a Duw ei fendith hefyd.
7 A Duw, ſef Duw ein Tad,
a roddo 'i rad a thyciant,
A therfynau y ddaear gron,
a phawb ar hon a'i hofnant.

## SALM LXVIII.

YMGYFODED un Duw ein Ner,
gwaſgarer ei elynion:
Un drygddilyn honynt na arhoed,
o'i flaen ffoed ei gaſelion.
2 Os chwalu mwg mewn gwynt fy hawdd
os tawdd cwyr wrth eiriaſ-dan:
Fel hynny o flaen Duw (yn wir)
yr enwir a ddiflannan'.
3 Ond llawenycher ger bron Duw
y cyfion, i'w orfoledd:
A'u hyſtrydwch hwynt hwy a fydd
yn llawenydd cyfannedd.
4 Cenwch, a molwch enw Duw,
ſef hwn yw uwch y nefoedd
Yn marchogaeth, megis ar farch,
i'w enw rhowch barch byth bythoedd.
5 A gorfoleddwch gar ei fron,
Duw tirion, Tad ymddifaid:
Ac i'r gweddwon mae'n Farnwr da
yn ei bieſwyſa gannaid.

6 Duw

6 Duw a wna rai mewn ty'n gyttun,
ei hun mae'n gollwng gefyn:
Ac yn rhoi trigfan mewn tir cras,
i ddynion ateas cyndyn.
7 Pan aethoft (Dduw) o flaen dy lu,
dy daith a fu trwy dd'rylni:
8 Y ddaear crynodd o flaen Duw
a'r nef rhoes amryw ddefni.
Ac felly Sinai o flaen Duw
(fef un-Duw Ifrael hawddgar)
9 Ar d'etifeddiaeth hidlaift wlaw,
i ddifflinaw y ddaear.
10 Gwrteithiaift hon dy bobloedd di
fydd ynddi yn prefwylio:
O'th rad darperaift (Dduw) i'r tlawd
i gael digondawd yno.
11 Yr Arglwydd Dduw a roddai'r gair,
mawr mintai'r cantorefau:
12 Cilient gedyrn; gweinlaid arhont,
yr yfpail rhont yn rhannau.
13 Pe'r ymdroech mewn parddu a llwch,
chwi fyddwch fel y g'lommen,
A'i phlu yn aur ac arian teg,
yn hedeg is yr wybren;
14 Hon, pan wafgarodd Duw yn chwyrn
bob cedyrn o'i gafelon,
Oedd mor ddifgleirwych, ac mor wen,
ac eira'r ben bryn Salmon.
15 Mynydd Duw (fef Seion) y fydd
fel Bafan fynydd tirion:
Mynydd Bafan, uchel ei grib,
eyffelyb yw i Seion.
16 Chwychwi fynyddoedd cribog, pa'm
y bwriwch lam mewn cyffro?
Duw ar Seion ei ferch a roes,
lle myn ef eifoes drigo.
17 Rhif ugain mil o lluoedd yw
angyfion Duw mewn cerbyd:
Ynghyffegr Sinai bu ei wlith;
hydd Duw 'w plith hwy hefyd.
18 I'r uchelder y dyrchefaift,
a chaethgludaift gaethiwed:
Cym'raift, doduft ddoniau, Duw Ion,
i ddynion oedd ddiniwed.
19 Bendigaid fyth fo'r Arglwydd mau,
am ddoniau ei dwaloni:
A'i lachawdwriaeth i ni'n llwyth,
o ber-ffrwyth ei haelioni.
20 Efe ei hun yw'n Duw i gyd,
fef Duw ein hiechyd helaeth:
Trwy'r Arglwydd Dduw cawn yn ddifwrth,
ddiangc oddiwrth farwolaeth.
21 Duw yn ddiammeu a dyr ben
a thalcen ei elynion:
A choppa walltog rhai a fo
yn rhodio mewn drwg crenlon.
22 Dygaf fy mhobloedd (meddai ef)
hyd adref fel o Bafan:
A dygaf hwynt i'w hol drachefn,
fel o'r mor don-lefn allan.
23 Fel y gwlychech dithau dy draed
yn llif gwaed dy ddigafau:
Ac y llyfo dy gwn, heb gef,
y gwaed a ddel o'u briwiau.
24 Gwelodd pawb (O Dduw) dy yftad,
yn dy fynediad fanctaidd,
Mynediad fy Nuw, Frenhin fry,
fel hyn i'w dy cyffegraidd.
25 Y cantorion aen' hwy o'r blaen,
cerddorion aen' ol ynol:
Yna'r gwyryfon, burakid gan,
a'r tympan yn y canol.
26 Clodforwch Dduw, hynny fydd dda
ymhob cyn'lleidfa ddiwael.
A chlodforwch yr Arglwydd Ion.
chwi fydd o ffynnon Ifrael,
27 Doed Benjamin y llywydd bach,
doed bellach dugiaid Juda:
Doed Nephtali, a Zabulon,
a'u tywyfogion, yna.
28 Dy Dduw a drefnodd iti nerth,
a'i law fydd brydferth geidwad:
Duw, cadarnha eito yn faith
arnom ni waith dy gariad.
29 Fr mwyn Caerfalem, adail deg,
rhydd cedyrn anrheg i ti:
30 Difetha dyrfa y gwaywffyn,
a'r rhai a fyn ryfelu.
Dewr fel teirw; nwyfus fel lloi,
y rhei'ni a toi yr arian:
Delont i'r lawn, tyn nerth a nwy',
a gofiwng hwy yn fuan.
31 Y pendefigion o'r Aipht draw
a ddaw, ac Ethiopia,
At Dduw yn bryfur i roi rhodd,
ac aberth gwirfodd, yna.
32 Holl d'yrnafoedd y ddaear fawr,
i Dduw mawr cenwch foliant:
Cenwch, cenwch ei glod yn rhwydd,
fef Arglwydd y gogoniant.
33 Hwn a farchogodd y nef fry,
a hynny o'r dechreuad:
Wele, daw nerthol fain ei lef
o eitha 'r nef i wafiad.
34 Rhoddwch gadernid i Dduw Ner,
fef uchder ei ragoriaeth,
Y fydd ar Ifrael, a'i nerth
uwch wybrau prydferth gwaeth,
35 Duw, o'th gyffegr y'th ofnir di,
Duw Ifrael, dodi nerthoedd:
A chadernid mawr wyd i'th blaidd;
bendigaid fych oes oefoedd.

## SALM LXIX.

A Chub fi, I'duw (yr hwn a'm gwnaeth)
tros f' enaid daeth llif-ddyfroes:
2 Yr wyf mewn dyfnder tom ynglyn,
heb le i 'mddiffyn f' einioes.
O'r dyfnder daethum fel ar fawdd,
a'i ffrwd a lifawdd uchodd:
3 Sychodd fy nghcg, blinodd fy llais,
a'm llygaid pallais ganfod.
4 A hyn wrth ddifgwyl Duw a'i ras,
wele, fy nghas yn amlach
Na'r gwallt ar ben fy nghoppa fry,
a'r trawfion fy'n gadarnach.
Y rhai celwyddog, taerion ynt,
thois iddynt beth ni chefais:
5 Adwaenoft (Dduw) f' ynfydrwydd mau,
a'm beiau fi ni chuddiais.
6 O'm plegyd i dim gwarth ni chant.
y rhai a goeliant arnad:

Na

Na ad (Dduw'r lluoedd) fefl na thrais
i'r rhai a ymgais attad.
7 (Duw Iſrael, ſef er dy fwyn,
yr wyf yn dwyn gwrthrudd-deb:
A thrwy gywilydd ymarhois,
mewn chwys y tois fy wyneb.
8 I bobl ddieithr wyf fi (gwn pa'm)
i blant fy mam fel eſtron:
9 A'm ſod fy ſerch a'm zel i'th dy
i'm hyſu hyd fy nghalon.
Can's cubl y rhai a'th gablant di,
ar f' uchn i mae 'n diſgyn:
10 Fy nagrau, cyſtudd, a'm hun-pryd,
yn: worth i gyd i'm herbyn.
11 A phan wiſgwn i liain ſach,
bum ddiyſtyrach lawer i
12 Bum chwedyl drwg i gryf a thlawd,
i'r meddw yn wawd i'w harſer.
13 Ond, f' Arglwydd Dduw, gwnafattad ti
fy ngweddi yn anſenol:
O gwrando fi, i'th wirfawr hedd,
ac i'th wirioneddgrafol.
14 Duw, gwared fi, a gwna fi'n rhydd,
o'r dom y fydd i'm ſuddo:
Sef caſcion, dyfnoedd dyfnion,
a mi nid ofnaf gyfiro.
15 Na lifed dwfr drofuſ yn ffrwd,
na'm llyngced amrwd ddyfnder:
Na chaned gydew arnaf chwaith
mo'i fafn diffaith yſgeler.
16 Gwrando fi bellach, Arglwydd Dduw;
can's da yw dy drugaredd:
Yn amlder dy doſturi mawr,
edrych i lawr rhag trawſedd.
17 O'm cyfyngder oddiwrth dy was
na chudd mo ras dy wyneb:
Rwyf yn gweddio yn fy nghloes;
Duw, bryſia, moes i'm hateb.
18 Neſa at f' enaid, Arglwydd mau,
er fy rhyddhau a'm gwared.:
Moes ymddiſlyn, rhag cael o hon
gan fy ngelynion niwed.
19 Duw, di a weli o bob parth
fynghw'r adwydd, gwarth, a'm c'wilydd:
O herwydd rhodio ger dy fron
mae fy ngelynion beunydd.
20 Mewn gorthrwm ofid yr wyf fi,
a gwarth yn torri 'nghalon:
Diſgwyl cymhorthwyr, ni ddoe neb,
ni chawn gyſurdeb tirion.
21 Buſt a roiſan' yn fwyd i mi,
finegar i dorri fyched.
22 Eu bwrdd boed iddynt fagl aſlwydd,
a'u llwydd yn dramgwydd bydded.
23 Ar eu llygaid dallineb doed:
i'w llwynau boed crynſeydd:
24 Tywallt arnynt dy ddig a'th lid;
doed iddynt ofid beunydd.
25 Boed eu palaſau 'n wag heb wedd,
ac anghyfanedd iddyn'.
Na a'lo neb na dydd na nos
mo'r aros yn eu tyddyn'.
26 Can'r yr hwn a darawſid ti,
mae'r rheini yn ei erlid:
A'r doluriau y fydd o'th friw,
y maent i'w hedliw hefyd.
27 Dod gamwedd ar eu camwedd hwy,
na ddont mwy i'th gyfiawnder:
28 Ymaith o lyfr y bywyd llawn,
o fyſg y cyfiawn, tynner.
29 Finnau pan fwyf ofidus wan,
a phan fwyaf druan hefyd.
Dy iachawdwriaeth di (O Dduw)
eilchwyl i fyw a'm cyfyd.
30 Moliannaf d'enw, Dduw, ar gan,
fal dyna f' amcan innau:
31 A hyn fydd gwell gan Dduw deyrn
nag ych a chyrn a charnau.
32 A phob truan, pan weler hyn,
a ennyn o lawnydd:
A'ch calon chwi fy'n ceiſio Duw,
cyfyd i fyw o newydd.
33 Duw gwrendy dlawd, ni ddirmyg lef
ei gaethwas of fy fethlant:
34 Nef, a daear, a mor, a hy
a ymluſg ynddyn', molant.
35 Can's Duw a geidw Seion deg.
a threfna'n 'chwaneg Juda:
Adeilada ddineſydd hon
i ddynion yn breſwylfa.
36 Ie, ei weſſion ef, a'n hil,
a'n heppil, a'i meddiannant:
A'r rhai a hoffa'i enw ſo,
yn honno a breſwyliant.

## SALM LXX.

DUW, pryſura i'm gwared i;
Ion, bryſia di i'm cymmorth:
2 Gwarth a gw'radwydd a ddel i'r blaſd
a gais i'm henaid ammhorth.
Trwy w'radwydd troir y rhai a ddwg
i mi ddim drwg ewyllys:
3 Meſi fo eu gwobr a draeth, Ha, ha,
am dana' yn ddirmygus.
4 Y fawl a'th gais, calonnog fydd,
o dra llawenydd ynod:
D'weded' fawl a'th gar bob amſer,
Mawryger ein Duw hynod.
5 Minnau'n dlawd, ac yn druan fydd:
Duw, bryſia, bydd yn agos:
Fy mhorth a'm ceidwad wyt yn wir,
(O Arglwydd) na hir aros.

## SALM LXXI.

MI a 'mddiriedais ynod, Ner;
na'm gw'radwydder byth bythoedd:
2 Duw, o'th gyfiawnder gwared fi,
a chlyw fy nghri hyd nefoedd.
3 Duw, bydd yn graig o nerth i mi
i gyrchu atti 'n waſtad:
A phar fy nghadw i yn well;
ti yw fy nghaſtell caead.
4 Duw, gwared fi o law'r trahaus,
a'r gwr trofaus, a'r trawſddyn:
5 Ynot ti, Dduw, bu 'ngoglud maith,
a'm gobaith, er yn grymddyn.
6 O groth fy mam y tynnaiſt fi,
rhoiſt ynof egni etto:
I tithau fyth, am hyn o hawl,
y canaf fawl heb beidio.
7 I lawer dyn bum anſerth iawn,
ti yw fy nerthiawn Lywydd:

8 Fy ſafn bydd lawn o'th fawl gan dant,
ac o'th ogoniant bennydd.
9 Nac eſgeulusa fi na'm braint
yn amſer henaint truan:
Er pallu'r nerth, na wrthod fi
Duw, edrych di ar f' oedran.
10 Medd fy nghaſeion 'r wyf yn wan,
hwy a ddiſgwyliant f' anaf:
Ymgynghorasant yn ddi syn,
gan ddwedyd hyn am danaf:
11 Duw a'i gwrthododd (meddant hwy)
erlidiwch ſwyſſwy bellach,
A delliwch ef: nid oes trwy'r byd
yr un a'i gwerydd hayach.
12 Er hyn o ſrad (Duw) bydd di well,
na ddos yn mhell oddiwrthy':
Fy Nuw, pryſura er fy mhorth,
ac anſon gymmorth i mi.
13 Angau gwarthus pob rhai a gant,
a wrthwynebant f' einioes:
Gw'radwydd a gwarth iddynt a drig,
a gynnig i mi ddrygioes.
14 Fy ngobaith innau a ſaif byth
yn ddilyth a ſafadwy:
Ymddiried ynot (Dduw) a wnaf,
ac a'th foliannaf fwyfwy.
15 Dy iachawdwriaeth a' i'm genau,
yr hwn ni thau funudyn,
A'th gyſiawnder: ac ni wn ai
ddim o'r rhifedi arnyn'.
16 Ynghadernid yr Arglwydd Dduw,
tra fwy ſi byw, y credaf:
A'th gyſiawnder di hyd y brig,
yn unig hyn a gofiaf.
17 Duw, di a ddyſgaiſt i mi hyn,
do, er yn blentyn bychan:
A hyd yn hyn 'rwyf yn parhau
i oſod d'wyrthiau allan.
18 O Dduw, na wrthod ſi yn hen,
a'm pen a'm gen yn llwydo,
Nes i'm ddangos i'r rhai ſy'n ol
dy wyrthiau nerthol etto.
19 Dy gyſiawnder yn uchel aeth,
yr hwn a wnaeth bob mawredd?
Duw, pwy y ſydd debyg i ti?
nid ydym ni ond gwagedd.
20 Duw, gwnaethoſt di im' fyw yn brudd,
a gweled cyſtodd mynych:
Troiſt ſi i fyw, dychwelaiſt ſi,
trwy 'nghodi o'i ſedrodd-rych.
21 Mwy ſydd fy mawredd nag a ſu,
troi i'm diddanu innau:
22 Yna y molaf' air am hyn,
ar nabl offeryn dannau.
O Sanct Iſrael canaf hyn
ar delyn, ar a'm genau?
23 Am i ti wared f' enaid i,
gwnaf iti hyfryd leiſiau.
24 Canaf it' hefyd gyfion glod
a'm tafod: wyt i'w haeddu,
Am it' warthau a gwarthruddiaw
fy nghas ſy'n ceiſiaw 'nrygu.

## SALM LXXII.

DUW, dod i'r Brenhin farn o'r nef,
dod i'w Fab ef gyſiawndeb:
2 Yna y rhydd rhwng pobl lawn frawſ
ac i'r dyn tlawd uniondeb.
3 Hedd a chyſiawnder, ar ol hyn,
cair yn mhob bryn a mynydd:
4 Y gwan a'r lleſg achub wna,
ſe ddryllia y gorthrymmydd.
5 Hwy a'th ofnant byth ar boh tro,
tra treiglo haul a lleuad:
6 Fo ddiſgyn ſel gwlaw ar wellt glas,
neu gawod fras ar waſlad.
7 I'w ddyddiau ef carir yr iawn,
a'r cyſiawn a ſodeun:
Ac ami fydd hedd ar ddaear grun,
tra fo'r lloer hon yn para.
8 Llwydda efe o for hyd for,
o'r ffrwd nyd oror tiredd:
9 Ei gas ymgrymmant, llyfant lwch,
hyd yr aululweh cyrredd.
10 Cedyrn o Tarſus frenhinoedd,
ac o'r ynyſoedd canol,
O Seba ac Arabia deg,
doe pawb a'i anrheg relol.
11 Yr holl frenhinoedd doent yn llu,
a than ymgrymmu, atto:
A'r holl genhedloedd, ſel yn gaeth,
a wnant waſanaeth iddo.
12 Can's y dyn rheidus, a'r gwr gwan,
fo'i gweryd pan weddio:
Bydd i bob dyn yn nerthol dwr,
a'r ni bo pleidiwr gantho.
13 Ef a erbyd y tlawd mewn rhaid,
fo achub enaid glanddyn:
14 Fo a'n gweryd rhag twyll a drwg,
gwerthfawr i'w olwg ydyn'.
15 Felly bydd byw: rhoir iddo dda,
ſef aur o Seba ddedwydd:
Hwy a weddiant arno ſu,
gan ei fendithio beunydd:
16 'Rhyd pen y mynydd yd a gan,
fel brig coed Liban' ſiglant:
A'r plant, cyn amled a'r gwellt glas,
o'r ddinas a flagurant.
17 Os haul cylch wybren byth a dry,
byth pery enw iddaw:
Pawb a'i bendithia ef yn wir,
pawb a fendithir ynddaw.
18 Bendigaid ſo yr Arglwydd Dduw,
(ſef Duw yr Iſrael dirion)
Efe 'n unig byth ſy'n parhau
i wneuthur gwyrthiau mawrion.
19 Bendigaid fyddo 'i enw byth,
gogonedd dilyth iddo:
A'i glod llenwir y ddaearen,
Amen, Amen, hyn ſyddo.

## SALM LXXIII.

YS da yw Duw i Iſrael,
wrth bawb a wnel yn union:
2 Minnau llithrais, braidd na ſyrthiais:
ſwrth-wael ſu fy amcanion.
3 Can's cynfigennais wrth y ffol,
a'r dyn annuwiol dihir:
Braidd na chwympais pan y gwelais
eu hedd a'u golud enwir.
4 Gan nad oedd arnynt ewymau caeth,
i gael marwolaeth ddynol:

# Salmau LXXIV.

Lle maent yn byw yn heini hyf,
yn traidd gryf ddigonol.
5 Ac ni ddoe arnynt lafur blin,
hyd y bawn i'n eu deall:
Na dim dialedd, na dim gwyn,
fel y doe ar ddyn arall.
6 Am hynny fyth maent yn ymddwyn
fel o fewn cadwyn balchder:
A gwafgant am danynt yn dynn
(megis dilledyn) drawfder.
7 A'u llygaid hwynt hwy wrth dewhau,
doent yn folglymmau drofodd.
A'u golud hwy, er hyn o wyn,
uwch meddwl dyn a dyfodd.
8 Traethu eu trawfder, bod yn dynn,
a boftio hyn ar wafgar:
9 Egori fafn at wybren fry,
a thafod cry' trwy'r ddaear.
10 Am hyn rhai o'i bobl ef a chwant
a ymddychwelant yma,
Yn gweled y dwfr yn loyw len,
a thybio y can' eu gwala.
11 Cas's ymrefymmant hyn yn fyw,
Pa'm? ydyw Duw yn canfod,
Pwy fydd yn ddrwg, a phwy fy'n dda?
ydyw'r Gorucha'n gwybod?
12 Wele, y drygddyn mwyn 'i chwant
caiff fwyaf llwyddiant gwaftad:
Yn cafglu golud a mawr dda,
hwnnw fydd fwya'i godiad.
13 Ofer iawn fu i mi warhau,
a llwyr lanhau fy nghalon:
Golchi fy nwylaw, caru gwir,
a bod yn hir yn gyfion:
14 Cael fy mâeddu ar hyd y dydd:
ond trwftan fydd uniondeb:
Os y bore, ac os prydnawn,
myfi a gawn wrthwyneb.
15 Hyn os d'weddwn, a feddyliwn,
o ryw feddalaidd ammau:
Wele, a'th blant di y gwnawn gam,
i ddwyn un llam a minnau.
16 Pan geifiwn ddeall hyn yn llwyr,
o nerth fy fynwyr ddynol:
Hynny i'm golwg i oedd flin,
nes cael rhyw ria yfprydol.
17 Ond pan euthum i gyffegr Dduw,
lle cefais amryw olau:
Yna deallais i pa wedd
y bydd eu diwedd hwythau.
18 Gwybum i ti eu gofod hwy,
lle caent lam mwy'n y diwedd:
Sef mewn lle llithrig rhwydd gwymp trwch,
anialwch anghyfannedd.
19 Ond gwedi dodaift iddynt wth,
difymmwth y pallafant:
Myn'd o'r byd heb na lliw na llun,
o'u hofn eu hun darfyddant.
20 Fel breuddwyd pan ddihunai un,
y gwnai di iddyn', f' Arglwydd:
O'r newid hon y caiff fy nghas
trwy yr holl ddinas w'radwydd.
21 Bum i ddig wrthyf fi fy hun,
ac ocrni fu'n fy nghalon:
22 Na 's deallafwn hyn yn gynt,
bum ffol un hynt ag eidion.
23 Er hyn etto bum gyd a thi,
lle y'm t'wyfi'n ddilyfiant.
24 Wrth fy llaw ddeau: wedi hyn
fy nerbyn i ogonfant.
25 Pa'm? pwy (O Dduw) fydd gennyf fi
ond tydi yn y nefoedd?
Dim ni ddymunwn gyd a thi,
wrth weini ddaear leoedd.
26 Fy nghalon i, a'm nerth, a'm cnawd,
y fydd mewn palldawd beunydd:
Ond tydi, Dduw, fydd ar fy rhan,
a'm tarian yn dragywydd.
27 A elo 'mhell oddiwrthyd ti,
y rheini gwnaent yn ddiffaith.
Ac a buteiniant rhagot ti,
y rheini torrir ymaith.
28 Ond mi ddof nefnes at fy Nuw;
fy ngobaith yw i'm calon:
Y traethaf fi ei nerth, a'i wyrth,
o fewn dy byrth, merch Seion.

## S A L M LXXIV.

PAHAM (O Dduw) oddiwrthym ni
y cili yn dragywydd?
Paham y digi mor danbaid
wrth ddefaid dy borfeydd?
2 Cofia y bobl a brynaift gynt;
rhoift iddynt etifeddiaeth,
Mynydd Seion, dy breftwylfa,
i'r rhai'n yn drigfa helaeth.
3 Ymddyrcha (Arglwydd) taro'n drwm,
pob gelyn gorthrwm difa
Yn dragywydd, a wnaeth a thrais
na dyfais i'th gyffegrfa.
4 Dy elynion daethant i'n myfg,
rhuafant derfyfg greulon:
A gofodafant, dan gryf han.
fanerau yn arwyddion.
5 I'w cherfio'r faerf goreu gynt
a roefau' wynt i'w bwyill:
6 Drylliant i'r llawr gerfiadau hon
ag eirf, gyfeillion erchyll.
7 Llofgafant oll dy eglwys lan,
a'i phyrth a than yn ulw:
A halogafant, mewn dull dig,
y noddfa lle trig d' enw.
8 Awn, gwnawn gyd-artaith, meddant hwy
a dinyftr trwy yr holl-wlad:
Llofgafant holl demlau y tir,
gwnaethant yn wir eu bwriad.
9 Nid oes un arwydd in' i'w gael,
na phrophwyd diwael deftyn:
Na gwybedydd, a wyr pa hyd
y pery'r byd i'n herbyn.
10 Dywaid di, pa hyd (O Dduw Ion)
y gwna d'elynion warthrudd?
A rydd dy gas ei gabledd fri
arnat ti yn dragywydd?
11 Paham y tynni'n ol dy law,
(fef dy ddeheulaw berffaith,
Hon fydd i'th fynwes) allan tyn,
a difa d'elyn diffaith.
12 Can's o'r dechreuad, Duw ei hun
ydyw fy Nghun a'm Brenhin:
Fe a wna iachawdwriaeth hir
i bawb trwy'r tir a'i dilyn.

13 Parthu

13 Parthu a wnaethoſt di, a'th nerth,
y mor, a'i anferth donnau:
Gwahenaiſt, torraiſt, uwch y don,
bennau y blinion ddreiglau.
14 Drylliaiſt di ben (nid gorchwyl gwau)
y Leſiathan anferth:
I'th bobl yn fwyd dodaiſt efo,
wrth dreiglo yn y ddiſerth.
15 Holltaiſt graig, tarddodd ffynnon,
ac aeth yn afon ffrwd-chwyrn:
A diyſbyddaiſt yn tra ſych
afonydd dyſr-grych cedyrn.
16 Ti biau'r dydd, ti biau'r nos,
goleu a haul-dlos geinwedd:
17 Seiliaiſt y ddaear, lluniaiſt haf,
a gauaf o'th ogonedd.
18 Fy Arglwydd, bellach cofia hyn,
i'r gelyn gynt dy gablu:
Ac i'r ynfydion roi drwg fri,
a'th enw di dirmygu.
19 Oes dy durtur na ddod ar gawdd
dan nawdd anifail creulon:
Na ad o'th gof (O Arglwydd da)
dy dyrfa, y rhai tlodion.
20 Duw, edrych ar dy gyfammod,
a gwel waelod y gwledydd:
Mae ym mhob man drigfa dyn traws,
mae honynt liaws efrydd.
21 Na ddychweled y truan tlawd
mewn difrawd, ac mewn gw'radwydd:
Y dyn anghenus, lleſg, a gwan,
a ddatcan dy enw, Arglwydd.
22 Cyfod, dadleu dy ddadl (O Dduw)
dy enw yw 'n dragywydd:
Cofia gabledd, yr hon trwy'r byd
a gaiſ gan ynfyd beunyddd.
23 Duw nac anghofia lais a ſon
d'elynion y cenhedloedd:
Eu ſwn, a'u rhodres, a'u dadwrdd,
a ddring i g'wrdd a'r nefoedd.

## S A L M LXXV.

CLodforwn di (drag'wyddol Dduw)
a'th enw yw yn agos:
Maint yw dy enw a'th nerth i'th hynt,
dy wyrthiau ynt i'w ddangos.
2 D'wedaiſt, Pan dderbyniwyf y llu,
mi roſ farn gu ac union:
3 Fel y nerthais ſylfeini'r byd,
oedd rydd, a'i gyd-drigolion.
4 Minnau a dd'wedais hyn o'm bryd
wrth y rhai ynfyd, Peidiwch:
Wrth annuwiolion poethion chwyrn,
Eich mebeyrn ddyrchefwch.
5 Och, na ddyrchefwch chwi mo'ch cyrn,
na ſiglwch rychwyrn ragdal:
Ac na dd'wedwch chwi yn war-ſyth,
nid rhaid in' fyth mo'r gofal.
6 O herwydd nid o'r dwyrain draw
i ddyn y daw dyrchafiad:
Nid o'r gorllewin, na'r ddeau,
y daw i chwithau godiad.
7 Can's ar law Duw y mae y farn;
na fid gwr cadarn rygry':
Goſtwng heddyw y naill heb ball,
a chodi'r llall y fory.
8 Can's yn llaw'r Arglwydd phiol ſydd,
cymmyſg-win hyd wydd ynddi:
Tywalltodd hwn; drwg ddynion byd
yfant i gyd o honi.
9 Mynegaf finnau, ac i'm coſ,
ei gerdd (Duw Iagof) canaf:
10 Torraf gyrn yr annuwioliawn,
a phen y cyfiawn codaf.

## S A L M LXXVI.

YN Juda ac Iſrael dir
adweinir ein Duw cyfion:
2 Ei babell ef yn Salem ſydd,
a'i breſwyl ſydd yn Seion.
3 Yno drylliodd y bwa a'r ſaeth,
hir frwydr a wnaeth yn ddarnau:
A thorrodd ef yn chwilfriw man
bob tarian, a phob cleddau.
4 Trawſion fu cedyrn mynydd gynt,
mewn yſpail helynt uchel:
Uwch a chryfach wyt na hwynt hwy,
nid rhaid byth mwy mo'u gochel.
5 Pob cadarn galon a ymroes,
ac ni ddeffroes o'i gyntyn:
Pawb a ddiffrwythodd pan ddaeth braw,
ni chai un llaw ei dderbyn.
6 O'th waith (Duw Iagof) a'th ammharch,
cerbyd a'r march rho'i huno:
7 Ofnadwy wyt, pwy i'th lid wg
a ſaif i'th olwg effro?
8 Pan ddaeth o'r nefoedd dy farn di,
yr wyt yn peri 'i chym'ryd:
Y ddaear ofnodd, a'i holl lu
rhoiſt i oſtegu ennyd.
9 I farnu pan gyfododd Duw,
i gadw yn fyw y gwirion:
A'r rhai oedd lonydd yn y tir,
yr oeddyn' gywir galon.
10 Can's poethder dyn yw dy fawl di;
felly goſtegi drallod:
Eu gwres, i'r da a fag gref ffydd;
i'r drwg, a fydd yn ddyrnod.
11 Eich rhodd i'r Arglwydd Dduw addewch,
a llawn gwblhewch eich gobrwy:
Pawb ſydd o amgylch Seion deg,
rhowch anrheg i'r Ofnadwy.
12 Ef a oſtyngodd uchel fryd,
ac yſpryd, gwyr rhyfelgar:
Fo a yrr ofn ynghanol hedd,
ar holl frenhinoedd daear.

## S A L M LXXVII.

FY llais at Dduw, pan roddais lef,
fy llais o'r Nef fo'i clybu:
A'm llais gweddiais ar Dduw Ner,
pan oedd blinder yn tarddu.
2 Y dydd y rhedai 'mriw, a'r nos
ni pheidiai achos llafur:
Mewn blin gyfyngder gwn fy mod,
a'm hoes yn gwrthod cyſur.
3 Yna y cofiwn Dduw a'i glod,
pan ſyrthiai drallod enbyd:
Yna gweddiwn er s fy mai,
pan derfyſgai fy yſpryd.
4 Tra fawn yn effro, ac mewn ſan,
heb allel allan dd'wedyd:

5 Yſtyriais yna'r dyddiau gynt,
ar helynt hen o'r cynfyd
6 Cofiwn fy ngherdd y nos fy hun;
heb gael amrant-hun, chwiliwn:
A chalon effro, genau mud,
a'm hyſpryd ymddiddanwn.
7 Ai'n dragywydd y cilia'r Ion?
a fydd ef hoddlon mwyach?
8 A ddarfu byth ei nawdd a'i air?
a gair ei addaw bellach?
9 A anghofiodd Duw drugarhau?
a ddarfu cau ei galon?
A haid efe byth (meddwn i)
fal hyn a ſorri'n ddigllon?
10 Marwolaeth im' yw'r meddwl hwn;
a throis yn grwn i gofio
Ei fawr nerth gynt: cofio a wnaf
waith y Goruchaf etto.
11 Cofiaf dy weithredoedd f' Arglwydd.
a'th wyrthiau hylwydd cofiaf:
12 Am bob rhyfeddod, a phob gwaith,
a myſyr maith y traethaf.
13 O Dduw, pa Dduw ſydd fal tî, Dduw?
dy ffordd di yw'n ſanctteiddiol:
14 Dy waith dengys dy nerth i'r byd;
pair in' i gyd dy ganmol.
15 dy nerth fawr hon a ro'iſt ar led,
wrth wared yr hen bobloedd,
Iago a Joſeph, a fu gaeth.
a'u holl hiliogaeth luoedd.
16 Y deifr gwelſant, ofnaſant hyn,
a dychryn cyn eu ſymud:
17 Cymmylau dwſr cylch wybr yn gwau,
a mellt fal ſaethau enbyd.
18 Dy daran rhuodd fry'n y nen,
dy fellt gwnaent wybren olau:
Y ddaear iſod a gyffrodd,
ac a ddychrynodd hithau.
19 Yn eigion mor mae y ffordd dau,
a'th lwybrau mewn deifr ſugnedd:
Ac ni adweinir byth mo'th ol
yn dy anfeidrol Fawredd.
20 Dy bobloedd a dywyſaiſt di
trwy anial dd'rylni efnydd,
Gan law Moſes, a'i frawd Aron,
fel defaid gwirion llonydd.

## S A L M LXXVIII.

FY mhobl i gyd, gwrandewch fy neddf,
a boed fy ngreddf i'ch calon:
Cluſt-ymoſtyngweh a'm genau,
i yſtyr geiriau ffyddlon.
2 Mewn diarhebion, i barhau,
fy ngenau a egoraf:
A hen ddamhegion, oedd ar hyd
y cynfyd, a ddangoſaf:
3 Y rhai a glywſom gynt eu bod,
ac ym yn gwybod hefyd,
Ac a ſynegodd yn ddiau,
ein tadau er y cynfyd.
4 Heb gel mynegwn ninnau'n ffraeth
hyn i'w hiliogaeth hwythau:
Canmolwn Dduw i'r oes a ddel,
ei nerth, a'i uchel wyrthiau.
5 Felly gorch'mynodd ef fod cof
yn Iago ſ: ac i'r hynaf,
Yn Iſrael ddyſgu i'w blant,
ngoniant y Goruchaf.
6 Fel y gwypid, o oes i oes,
y rhoes ef ei dyſtiolaeth,
O dad i fab, o fab i wyr,
i gadw Ilwyr wybodaeth.
7 Gobeithio'n Nuw, cofio ei waith,
y ſydd mal rhaith eneidiol:
I gael cadw ei orchymyn,
rhoes Duw'r wers hyd yn rheidiol.
8 Rhag ofn myn'd o'r genhedlaeth hyn
yn gyndyn ac anufudd:
A cholyn wan, ac yſpryd gwael,
heb afael gyd a'u Llywydd.
9 Eu tadau, ſel plant Ephraim,
yn arfog lym er faethu,
Troiſant eu cefnau yn y gad,
ymroi a dad annelu.
10 Cyfammod Duw a wrthodent;
ni rodient yn ei gyfraith;
11 Anghofio 'i wyrth a welſent gynt,
a'i ddeddfau oeddynt berffaith.
12 Yn nhir yr Aipht, ym maes Soan,
gwnaeth Duw gyſlafan fwyfwy:
13 Rhoi dwfr y mor yn ddau dwr crych,
a'r llawr yn ſych i dramwy.
14 Y dydd mewn niwl, y nos a than,
tywyſai 'n lan ei bobloedd:
15 Hollti 'r creigiau, a'u troi 'n llynniau,
a llenwi ei lu a dyfroedd.
16 Er tynnu dwfr o'r garreg las,
er llithro'n loyw fras ffrydau:
17 Yn yr anialwch digient Dduw,
chwanegent amryw feiau.
18 Yn y diffeithwch profent Dduw,
oes fwyd i fyw? meddylient:
19 A all Duw gael in' yma fwyd
mewn cyfryw lochwyd? d'wedent.
20 Er turo 'r graig, a rhedeg dwr
yn ffrydau, cyflwr diball:
A eill ef roi in' fara a chig,
i'n cadw yn ddiddig ddiwall?
21 Pan glybu Duw yr araith hon,
fel tan yn wreichion 'nynodd:
Yn Iago ac yn Iſrael,
gan lid yn uchel digiodd.
22 A'i ddig oedd, am na chredent hwy
'i Dduw, a'r fwyfwy Fawredd:
Ac na welent pa iechyd oedd
yn ei weithredoedd rhyfedd.
23 Gorchymyn wybren, a 'gwarhau;
egoryd dryſau'r neſoedd:
24 A manna 'n fwyd, ſel gwenith Nef,
a wlawiodd ef i'w luoedd.
25 Rhoi i ddyn gael rhyw luniaeth da,
ſef bara yr angylion:
26 Gyrru'r hyd wybren ddwyrien-wynt,
gyd a'r deheu-wynt nerthlon.
27 Fel y llwch y rhoes gig i'w hel,
ac adar fel y tywod:
28 Ynghylch eu gwerſyll a'u trigf'ydd
y gwlawiai beunydd gawod.
29 Bwytta digon o wledd ddiwael,
a chael eu bwyd dymunol:
30 Ac heb ommedd dim ar eu blys,
nac mo'u hewyllys gnawdol.

# Salmau LXXIX.

31 A'u tammeidiau hwy i'w ſafnau
(yſ ofnwn y Goruchaf:)
Yn Iſrael lladdodd i'w ddig
wyr etholedig braſaf.
32 Er hyn pechent, ac ni chredent
hwy i'w iach radau rhyfedd:
33 Treuliodd Duw eu hoes hwy, am hyn,
mewn dychryn ac oferedd.
34 Tra fyddai Duw yn eu lladd hwy,
os ceiſient dramwy atto:
Os doent trwy hiraeth at ei ras,
yn fore glas i'w geiſio.
35 Os cofient fod Duw i'w holl hynt
graig iddynt a gwaredydd:
36 (Er ceiſio ſiommi Duw'n y daith
a'u gweniath, ac a'u celwydd:
37 Er nad oedd eu calon yn iawn,
na ffyddlawn i'w gyfammod:)
38 Er hyn trugarhai Duw o'r Nef,
a'i nodded ef oedd barod:
Rhag eu difa, o'i lid y troes,
ac ni chyffroes i'w hartaith.
39 Cofiodd ddyn, os marw a wnai,
na's gallai ddychwel eilwaith.
40 Pa ſawl gwaith y cyffroiſant hwy
wrth fyned trwy 'r anialwch!
Gan ddigio Duw, a'i lwyr driſtau,
ynghreigiau y diffeithwch?
41 Troiſant, profaſant Dduw a'u chwant,
gan demtio Sant yr Iſrael:
42 Anghofio eu cadw hwynt fal hyn,
rhag cael o'u cafddyn afael.
43 Rhoiſai 'n yr Aipht arwydd o'i ras,
a'i wyrth yn ninas Soan:
44 Y modd y troes eu dwſr yn waed,
ni chaed dim glan-ddwfr allan.
45 Rhoes Duw yngwlad yr Aipht, i'w plau,
waed, gwybed, llau, a llyffaint:
46 Lindys, locuſt, i ddifa'u ffrwyth,
a chenllyſg lwyth, a mall-haint.
47 Diſtrywiodd Duw eu hyd, gwellt, gwydd
eu coedydd, a'u han 'ſeiliaid:
48 A chenllyſg, ceſſair, mellt a roes,
bu wrth eu heinioes danbaid.
49 Rhoes arnynt bwys ei lid, a'i far,
ac ing angh'reugar digllon:
Ffrwyth ei lidiowgrwydd ef, a'i wg,
anfonodd ddrwg angylion.
50 Rhyw ffordd a hon i'w lid a droes,
heb ludd, i'w heinioes angau:
Ond dwyn eu bywyd hwy trwy haint,
yn ei ddigofaint yntau.
51 Yna tarawodd un Duw Naf
y plant cyntaf anedig:
Yn nhir yr Aipht, a phebyll Cam,
ſef am ei fod yn llawnddig.
52 Ond (gan droi at ei bobl yn hawdd)
fo'u t'wyſawdd trwy 'r anial-ſan,
Fel arwain defaid lwybrau pell
yn wael ddiadell ſechan.
53 Arweiniodd hwy yn ddiofn
trwy 'r mor (ffoniſ ddofn) heb wlychu:
A'i holl elynion, heb fwy 'ſtor,
ſe wnaeth i'r mor eu llyngcu.
54 Rhoes hwy etifeddu 'n rhydd
ym mynydd ei ſanctaiddrwydd:
Yr hwn a ddarfu ei warhau
a llaw ddehau yr Arglwydd.
55 Rhoes ef y wlad i ddwyn pob ffrwyth,
rhoes i bob llwyth ei gyfran
O Iſrael, ac yn eu plaid
rhoi 'r hen drigoliaid allan.
56 Er hyn temtient a digient Dduw,
hwn unig yw-ſanctaiddiol:
Ac ni fynnent mo'r ufuddhau
i'w dyſtiolaethau nefol.
57 Ond myn'd ar gil, ac ymlaccau,
fel eu holl dadau twyll-naws:
Megis bwa a fai mewn cad,
ac ynddo dafliad gwyrdraws.
58 Hwynt hwy yn fynych a'i cyffroent,
mewn camwedd troent oddiwrtho,
At wylfa nos, a delw o bren:
fal hyn y digien' efo.
59 Ond y Gorucha 'n gweled hyn,
a ddigiodd wrthyn' hwythau:
Felly dirmygodd Iſrael,
a gad'el ei ammodau.
60 Yna 'r ymadawodd efo
a chyſſegr Silo dirion:
Ei babell a'r brif yſgol ddyſg,
lle b'afai 'myſg ei ddynion.
61 Eu nerth a roes i garchar caeth;
dan elyn daeth eu mawredd:
62 Ei bobl ei hun i'r cleddau llym
(fal dyna rym ei 'ddigedd.
63 Ei wyr ieuainge fo'u rhoes i'r tan,
gwyryfon glan rhoes heibio:
64 Ei offeiraid i'r cleddyf glas,
a'i weddw ni chafas wylo.
65 Yr Arglwydd gwedi hyn deffroe,
fal un a ddoe o gyſgu:
Neu fel gwr cadarn wedi gwin,
yn erwin i'w dychrynu.
66 Taflodd y gelyn yn ei ol,
rhoes mewn trag'wyddol w'radwydd:
67 Rhoes wyrion Joſeph dan un pwyth,
ac Ephraim lwyth i dramgwydd.
68 Gwedi chwilio y rhai 'n i gyd,
fo roes ei fryd ar Juda:
Ar fynydd Seion (ei treſtad)
o gariad i'w breſwylfa.
69 Yna yr adeiladodd ef
adeilad gref a hawddgar,
Yn gyſſegr lys byth i barhau,
fel hen ſeiliadau 'r ddaear.
70 Etholodd ef Ddafydd ei was,
yr hwn oedd ddifai fugail:
Ac a'i dug ef i'r maes yn lan
o'i gorlan a'i ddefeid gail;
71 O borthi defaid mammau wyn,
i'w ddwyn i borthi dynion:
Ingo, ac Iſrael, a'u plant:
dyna ei feddiant ffyddlon.
72 Yntau a'u porthodd hwynt, yn ol
ei berffaith reiol galon:
Ac a'u trinodd hwy yn brydferth,
o nerth ei ddwylaw cyfion.

## S A L M LXXIX.

LLAWER cenedl (O Dduw) a ddaeth
i'th etifeddiaeth unig:

# Salmau LXXX, LXXXI:

Rhoed Caerſalem a'i chyſſegr hi
yn gurneddi o gerrig.
2 Rhoi cyrph dy weiſion, wrth eu rhaid,
i 'hediaid y ſſurſafen:
I 'n'feiliad maes rhoi cig dy ſaint;
fel dyma fraint aſlawen.
3 Fel ffrydiau dwfr tywallt a wnaed
eu gwaed o amgylch dinas
Caerſalem, heb roi corph mewn bedd;
fel dyna ddiwedd atgas.
4 Yn ddirmyg, gw'radwydd, ac yn warth,
i bawb o'n bob parth, ydym:
5 O Dduw, pa hyd? wyt byth yn ddig?
ai fel tan ffyrnig poethlym?
6 Tywallt dy lid ar bobl eſtron,
rhai nid adwaenon' m'onot:
Ac ar d'yrnaſoedd ni eilw
(Duw) ar dy enw hynod.
7 Can's wyrion Iago (bobl oedd gu)
y maent i'w hyſu 'n rhyfedd:
Ac a wnaethant i 'rhei'ni ſod
preſwylfod anghyfannedd.
8 Na chofia 'n camwedd gynt i 'n hoes;
Duw, bryſia, moes drugaredd:
Dy nodded a'n rhagflaeno ni,
ſy mewn trueni 'n gorwedd.
9 O Dduw ein hiechyd, cymmorth ni,
er mwyn dy fri gogonol:
A gwared, er mwyn dy enw di,
ni rhag pechodau marwol.
10 Pan y gofynant, P'le mae 'n Duw?
dod arnynt amryw ffonnod:
I ddial gwaed dy ddwyfol blant;
ac yno cant hwy wybod.
11 Duw, doed uchenaid ger dy fron
dy garcharorion rhygaeth:
Ac, yn dy ddirfawr ogoniant,
ymddiffyn blant marwolaeth.
12 Ein cym'dogion a'th gablodd di;
tal i'r rhei'ni yn gwblol:
Eu cabledd i'w mynweſau 'u hun,
O Arglwydd Gun gorcheſtol.
13 Ninnau, dy bobl a'th ddefaid man,
a wnawn it' gan ogonawl,
O oes i oes byth i barhau,
ac i'th fawrhau 'n drag'wyddawl.

## S A L M LXXX.

CLYW di, Fugail i Iſrael,
ſy'n arwain fel y defaid
Hil Iago, a llewyrcha di,
a 'lteddi ar gerubiaid.
2 Fel y gwelo Ephraim hyn,
Benjamin a Manaſſes:
Cyfod, cymmorth a gwared ni,
o'th fawr ddaioni cynnes.
3 Llewyrcha d'wyneb, dychwel ni,
Duw, di a'n cedwi'n gyflym:
4 Duw y lluoedd, clyw ein gweddi;
pa hyd y ſorri wrthym?
5 Llewa 'u bara, trwy wylo 'n doſt,
a wnaethoſt di i'r eiddod:
A rhoi iddynt ddagrau bob awr,
trwy feſur mawr, yn ddiod.
6 Duw, i'n gelynion o bob parth
rhoiſt ni yn warth i'n gwatwar:
7 Llewyrcha d'wyneb, dychwel ni;
felly y'n cedwi'n gynnar.
8 Dygaiſt o'r Aipht winwydden ir,
rhoiſt iddi dir i dyfu:
A'r holl genhedloedd o bob man
troiſt allan cyn ei phlannu.
9 Arloeſaiſt y tir o'i blaen hi,
a pheraiſt iddi wreiddio:
10 Llanwodd, cuddiodd bob bryn a llawr,
fel cedrwydd mawr yn brigo.
11 A'i hiraidd frig eſtyn yr oedd
hyd foroedd ac afonydd:
12 Pa'm y rhwygaiſt gae'r fath ber lwyn,
i bawb i ddwyn ei ffrwythydd?
Pawb ai heibio 'n tynnu ei grawn,
pan oedd hi'n llawn ffrwyth arni:
13 A'r baedd o'r coed yn turio 'r llawr,
a'r bwyſtfil mawr i'w phori.
14 O Dduw y lluoedd, edrych, gwel,
a dychwel, i ymg'leddu
Y winllan hon, a blennaiſt di
a'th law, a'i rhoddi 'dyfu.
15 Lle cadarnhe'iſt i ti dy hun,
dy brif blanhigyn dedwydd:
16 Llygrwyd a'r cledd, a'r tan yn faith,
a hyn o waith dy gerydd:
17 I gryfhau gwr dy ddehau-law,
boed droſtaw dy fraich nerthol:
Hwn a ſicrhe'iſt i ti dy hun,
ſef dros fab dyn dewiſol.
18 Tros hwn tra' rhoddych di dy law,
oddiwrthaw ni ddychwelwn:
O Dduw, dadebra, bywha ni;
ar d'enw di y galwn.
19 A dadymchwel nyni i fyw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd:
Tywynna arnom d' wyneb pryd,
ni a gawn iechyd bythoedd.

## S A L M LXXXI.

OCENWCH fawl i Dduw ein nerth,
cerdd brydferth cenwch iddo:
A llafar lais, a genau ffraeth,
gerddwriaeth i Dduw Iago.
2 Cymmerwch gathl y falltwyr lan,
a moeſwch dympan hefyd:
A cheiſiwch ganu, gyd a hyn,
y nabl a'r delyn hyfryd.
3 Cenwch udcyrn ar loer newydd,
y pryd fydd nodol iddo:
4 Sef deddf yw hon ar wyl uchel
Duw Iſrael a Iago.
5 Yn Joſeph c'lymodd hyn yn ddyfg,
pan ddaeth o fyſg yr Aiphtwyr:
Lle clywais iaith oedd ddieithr im',
heb ddeall dim o'i hyſtyr.
6 D'wedodd fy Nuw, Trwy nerth fy mraich
tynnais faich eich yſgwyddau:
Ac felly tynnais eich dwy law,
i'madaw a'r ffwrneiſiau.
7 I'th ffinder gelwaiſt arnaf fi,
gwaredais di fut yma:
Wrth lais taran fy mhrofiad oedd,
ynglan dyfroedd Meriba.
8 Fy mhobl Iſrael, gwrando fi,
os yſtyri yn ffyddlon;

9 Na

9 Na fid ynot arall yn Dduw,
na chrymma i gaudduw eſtron.
10 Myfi, yr Arglwydd Dduw, a'th ddug
o'r Aipht-dir caddug allan:
Llanwaf dy ſol heb ddiffyg dafn,
lleda dy ſafn yn llydan.
11 Ni choeliai Iſrael fy rhybudd,
ni fyddent ufudd ymy:
12 Gollyngais hwynt i'w ffyrdd eu hun,
i'w cynghor cyndyn hynny.
13 Och na wrandawſa i Iſrael,
gan rodio 'n ffel fy llwybrau:
14 A phwys fy llaw llethaſwn fron
eu holl elynion hwythau.
15 Caſeion ein Duw, yn ei lid,
a eſtyngeſid iddaw:
Ac ef a roiſai yn y tir
ammodau hir i'r eiddaw.
16 Ein Duw a roiſai iddynt borth,
trwy fraſder cymmorth rhadol:
Rhoi mel o'r graig, rhoi llaeth yn flith,
a gwenith yn ddigonol.

## S A L M LXXXII.

HOLL farnwyr byd mae Duw'n eu myſg
pe cym'rent addyſg gantho:
Duw yw ym myſg y duwiau man,
a'i farn ſy lan heb wyro.
2 Pa hyd y rhoddwch farn ar dro,
gan bleidio gyd a'r trawſion?
3 I'r tlawd, ymddifad, rheidus trwch,
paham na fernwch union?
4 Gwrandewch chwi ar y gwan a'r gwael,
a'r tlawd heb gael mo'i gyfraid,
(Pan ddel y rheini gar eich bron)
o ddwylaw'r trawſion diriaid,
5 Gwyr heb wybod, heb ddeall chwaith,
ſy'n rhodio taith tywyllni;
Ni ſyflent hwy, pe ſiglai 'nghyd
yr hollſyd a'i ſylſeini.
6 D'wedais mai duwiau ych yn ſiwr,
a phlant i'r Gwr Goruchaf:
7 Er hyn mai dyn marw a wnewch,
un gwymp a gewch a'ch hynaf.
8 Duw, cyfod, a dyro farn ar
y ddaear a'i th'yrnaſoedd:
Can's mawr yw d' etiſeddiaeth, ti
a feddi'r holl genhedloedd.

## S A L M LXXXIII.

NA oſtega, na thaw, na fydd
di lonydd, Duw y lluoedd:
2 Wele, d'elynion yn cryſhau,
gan godi 'pennau i'r neſoedd.
3 Yn gyfrinachu dichell yn',
y lle mae ganthyn' fwriad:
A dychymygu diben brudd
ni, ſy'n ymgudd danad.
4 D'wedaſant, Dewch, difethwn hwynt,
na byddo honynt genedl:
Ac na byddo byth (meddant hwy)
am Iſrael mwy mo'r chwedl.
5 Ymgynghoraſant bawb ynghyd,
ac yn un fryd i'th erbyn:
6 Edom, Iſmael, Maob blaid,
ar holl Hagariad cyndyn.
7 Gebal, Ammon, Amaleciaid,
Philiſtiaid, a gwyr Tyrus:
8 Aſſur, yn gyd-fraich a phlant Lot,
ſal dyna gnot maleiſus.
9 Tal dithau adref yn y man,
megis i Madian greulon:
I Siſera, ne'i Jabin ſwrth,
a laddwyd wrth lan Ciſon.
10 Yn Endor gynt bu laddfa fawr,
ar hyd y llawr ar waſgar:
Gwna honynt hwythau laddfa ail,
a'u cyrph yn dail i'r ddaear.
11 Goſod eu bonedd hwy fel Zeb,
ac Oreb yn un diwedd:
A'u tywyſogion fel Zeba,
a Salmunna, l orwedd.
12 D'wedent y mynnent yn eu byw
gyſſegrfa Duw i'w meddiant:
13 Fel troad rhod, neu wellt mewn gwynt
dyna yr hynt a gaffant.
14 Fal y llyſg y tan bob pren crin,
a'r fflam yr eithin mynydd:
15 Felly a'th 'ſtorm ymlid hwy'n gynt
na dychryn corwynt efrydd.
16 Llanw eu tal o warth a chwys;
ceiſiant ar frys yr Arglwydd:
17 Ac yn drag'wyddol iddynt bydd,
gywilydd, meſl, a gw'radwydd:
18 Difether hwynt; gwyped dyn byw
mai d'enw di yw Jehofa?
Ac mai ti unig Dduw ſydd ar
y ddaear yn Orucha'.

## S A L M LXXXIV.

DY babell di mor hyfryd yw
(O Arglwydd byw y lluoedd)
2 Mynych chwennychais weled hon,
rhag mor dra-thirion ydoedd.
Mae f' enaid i (fy Ion) mewn blys
i'th gyſſegr lys dueddu:
Fy nghalon i, a'm holl gnawd, yw
yn Nuw byw'n gorfoleddu.
3 Aderyn y to cafodd dy,
a'r wennol fry i'w chywion
Le wrth dy allor di i'w trin,
ſy Nuw a'm Brenhin tirion.
4 Gwyn ei fyd a drig yn dy dy,
caiff dy foliannu ddigon:
5 Ac ynot ti ſy'n cadarnhau,
a'th lwybrau yn eu calon.
6 Pe rhon a gorfod ar y rhai'n
'rhyd glyn wylofain dramwy;
Gofodant ffynnon iddyn' nhw,
a'r gwlaw a leinw fwyfwy.
7 Ant rhagddynt bawb, o nerth i nerth,
nes cael yn brydferth ddyfod
I 'mddangos i Dduw, gar ei fron,
yn Seion ei breſwylfod.
8 Arglwydd Dduw y lluoedd, clyw fi,
a'm gweddi, O Dduw Jagof:
9 Gwel wyneb d'Enneiniog, a'i ſtad;
Duw'n tarian, n'ad fi'n anghof.
10 Gwell yw na mil, un dydd i'th dy;
am hynny mwy dewiſol
Im' fod ar riniog y drws tau,
na phlaſau yr annuwiol.

11 Sef, haul a tharian yw Duw mad,
a rydd rad a gogoniant:
Ni leſtair ef ddaioni maith,
i'r rhai a berffaith rodiant.
12 O Arglwydd Dduw y lluoedd mawr,
anfon i lawr dy gymmod:
Dedwydd yw'r dyn a rotho'i gred,
a'i holl ymddiried, ynod.

## SALM LXXXV.

DA wyt i'th dir (Jehofa Ner)
dychwelaiſt gaethder Iago:
2 Maddeuaiſt drawſedd dy bobl di;
mae'u camwedd wedi 'guddio.
3 Tynnaiſt dy lid oddiarnom ni;
troiſt dy ddigllonі awch lym:
4 O Dduw ein nerth, tro pinnau'n well,
a'th lid bid bell oddiwrthym.
5 Ai byth y digi wrthym ni?
a ſorri di hyd ddiwedd?
A faif dy lid o oes i oes?
Duw, gwrando, moes drugaredd.
6 Pa'm? oni throi di a'n bywhau,
a llawenhau yr eiddod?
7 O dangos in' dy nawdd mewn pryd;
felly cawn iechyd ynod.
8 Beth a ddywaid Duw am danaf,
mi a wrandawaf hynny:
Fe draetha hedd i'w bobl, a'i ſaint,
rhag troi ym mraint ynſydu.
9 I'r rhai a ofnant Arglwydd Nef,
mae 'i iechyd ef yn agos:
Felly y caiff gogoniant hir
o fewn ein tir ni aros.
10 Ei drugaredd, a'i wirionedd,
ar unwaith cyfarfuant:
Ei uniondeb, a'i hedd ynghyd,
trwy'r tir a 'mgyd guſanant.
11 Gwirionedd o'r ddaear a ddardd,
uniondeb chwardd o'r nefoedd:
12 Duw a ddenſyn in' ddaioni,
a'n tir i roddi cyndoedd.
13 Uniondeb oedd o flaen Duw Nef,
a'r cyſion ef aed rhagddo:
A Duw a rodia yn ei waith,
fel i'r un daith ag eſo.

## SALM LXXXVI.

GOSTWNG, O Arglwydd, y gluſt dau,
clyw fy ngweddiau trymion:
Gwrando fi, fy druan a thlawd,
o'th barawd drugareddion.
2 Cadw fy oes, gwr cynnwys wy',
ac i ti 'r ydwy'n credu:
Duw, bydd Achubwr da i'th was,
o'th ras tyred i'm gwaredu.
3 Trugarha wrthyf, Arglwydd mad;
can's arnad llefa'n ddibaid:
4 Einioes dy was, Duw, llawenha;
can's attad coda' f' enaid.
5 Can's ti, O Arglwydd, ydwyt dda
i'th bobloedd, a thrugarog:
I'r rhai a alwant arnat ti,
mae dy ddaioni 'n bleidiog.
6 O Arglwydd, clyw fy llais mor llym,
a'm gweddi y'm myfyrdod:
7 Clywi fy llais, gwel fy nghlwyf,
y dydd y bwyf i'm trallod:
8 Ym myſg y duwiau nid oes un
fel dydi, Gun gogoned:
Ym myſg gweithredoedd cymmain un,
nid oes yr un un weithred.
9 Y bobloedd oll a wnaethoſt (Ion)
o'th flaen don' ac addolant:
A pha le bynnag a'r y bont,
i'th enw rhont ogoniant.
10 Can's tydi ydwyt fawr a phur,
yn gwneuthur rhyfeddodau:
A thydi 'n unig wyt yn Dduw;
ni cheiſiwn amryw ddiwiau.
11 Dyſg i mi dy ffordd (O Arglwydd)
caf yn rhwydd dy wirionedd:
Gwna fy nghalon yn un a thi,
ac ofnaf fi dy Fawredd.
12 Fy Arglwydd Dduw, moliannaf di
a holl egni fy nghalon.
Ac i'th fawr enw byth, gan dant,
y rhof ogoniant cyſſon.
13 Can's mawr yw dy drugaredd di,
tu ag attaf fi yn barod:
Gwaredaiſt f' enaid i o'r bedd,
ac o'r gorddyfnedd iſod.
14 Duw, daethant arnaf fi wyr beilch,
fel llu o weilch ewin-ddrud:
Ceiſient ddwyn f' einioes o'r byd hwn,
i'w golwg gwn nad oeddyd.
15 Ond tydi'n unig wyd hawddgar,
a chlaiar dy drugaredd:
Hwyr i'th lid, ac i gymmod hawdd,
llawn o nawdd a gwirionedd.
16 O edrych arnaf, moes dy ras
i'th was, y ſydd i'th orllwyn:
Dod im' dy nerth, cadw fal hyn
fi plentyn dy law forwyn.
17 O Dduw, doa, o'th ſerch, im' arwydd,
er gw'radwydd i'm caſeion:
Pan welant dyfod yn rhoi nerth
im', ac ymadfarth ddigon.

## SALM LXXXVII.

SEILFEINI hon (ſef Seion) ſydd
ar gyffegr fynydd ucho':
2 Ac ar dy byrth rhoes Duw ei ſerch,
uwch pob trig lannerch Iago.
3 O ddinas Duw, prefwylfa'r Ion,
mawr ydyw'r ſon am danad:
A gogoneddus air it' ſydd
uwch trigfennydd yr holl wlad.
4 Rahab, Babel, a Phaleſtin,
a Thyrus flin, a'r Mwriaid,
A fu i'th blant clynion gynt:
mae rhai o honynt unhlaid.
5 Ond d'wedir hyn am Seion ber,
ſo anwyd llawer ynddi,
Nid ymbell un: can's ſwccwr da
yw Duw gorucha' iddi.
6 Fe rydd yr Arglwydd yn ei rif
y neb ſo cyfrif hono:
Efe a eſyd hyn ar led,
ſef, Hwn a aned yno.
7 Cantor tafod, a cherddor tant,
pob rhai it' canant fawrglod:

A thrwy

# Salmau LXXXVIII, LXXXIX.

A thrwy lawenydd mae'n parhau
fy holl ffynhonnau ynod,

## SALM LXXXVIII.

ODDUW fy iechyd, nos a dydd
mae 'ngweddi 'n ufudd arnad:
2 Goſtwng dy gluſt, O Arglwydd Nef,
a doed fy llef hyd attad.
3 Can's mae fy enaid mewn dull caeth,
a'm heinioes aeth i'r beddrod:
4 Fel gwr marw y rhifwyd fi,
a'm nerth oeſid wedi darfod.
5 Mor farw a rhai wedi eu lladd,
a'u taflu 'nghladd mewn anghof,
A laddir di mor ſiwr a hyn,
na bai byth honyn' atgof.
6 Goſodaiſt fi mewn dyfnder trwch,
ac mewn tywyllwch eithaf:
7 Rhoiſt bwys dy ddig ar y corph mau,
a'th holl for-donnau arnaf.
8 Pellhe'iſt fy holl gydnabod da;
'rwy yn ffieidd-dra iddyn':
Ni chaf fi fyned at un car,
yr wyf mewn carchar rhy dyn.'
9 Y mae fy ngolwg (gan dy lid)
mewn gofid o fawr gyſtudd:
Duw, llefais arnad yn fy mraw,
gan godi 'nwylaw beunydd.
10 Ai i'r meirw 'dangoſi wyrth?
a ddont i'th byrth i'th foli?
11 A draethir dy fawl yn y bedd,
a'th lan wirionedd heini?
12 Ai mewn tywyll y mae dy rad?
a'th iawndeb yngwlad angho'?
13 Fal hyn (Duw) llefais arnat ti,
O clyw fy ngweddi etto.
14 Pa'm (O f' Arglwydd a'm Duw) i'm
y rhoi f' enaid ar wrthod? [rhaid
Ac y cuddi dy wyneb pryd?
fy nghoel i gyd ſydd ynod.
15 Truan ymron marwolaeth wyf,
mewn trymglwyf o'm hieuengctyd:
A'th ofni bum yn nych-beth gwael,
gan ammeu cael mo'r iechyd.
16 Dy ddig a llifodd droſof fi,
d'ofn fydd i'm torri'n efrydd:
17 Fel deifr y daethant yn fy nghylch,
do, do, o'm hamgylch beunydd.
18 Ym mhell oddiwrthyf rhoiſt bob car,
pob cyfaill hygar heibio:
A'm holl gydnabod a fu gynt,
yr ydynt yn ymguddio.

## SALM LXXXIX.

MYFYRIAF gerdd, byth i barhau,
o drugareddau 'r Arglwydd:
A'i wirionedd i'm genau fydd,
hyd dragywydd, yn ebrwydd
2 Sef, d'wedais hyn: Cair byth yn wir,
adeiledir trugaredd:
I barhau byth cair yn y Nef
dy gadarn gref wirionedd.
3 Fal hyn (O Dduw) attebaiſt ym',
Mi wneuthym rwym gan dyngu
I Ddafydd, f' etholedig was,
a'r gair o'm gras yn tarddu.
4 Fal hyn ſicrhaf dy had di byth,
a gwnaf wehelych drefniad:
I'th gadarn faingc, o oed i oed,
mi rof bob troed yn waſtad.
5 Am hyn y ſicrwyd trag'wyddawl:
y Nef a fawl dy wyrthiau
Yngorſedd ſaint, ynghyrchfa hedd,
am bur wirionedd d'eiriau.
6 Pwy ſydd cyſtal a'n Hargiwydd cu,
pe chwilid llu'r wybrennau?
Ym ymſg angylion pwy mal Ion,
ſef ym mhlith meibion duwiau?
7 Trwy gynnulleidfa ei ſant ef
Duw o'r Nef ſydd ofnadwy:
A thrwy'r holl fyd o'n hamgylch ni,
ei ofni ſydd ddyladwy.
8 Pwy ſydd debyg i ti, Dduw byw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd?
Yn gadarn Ior, a'th wir i'th gylch,
o amgylch yr holl nefoedd.
9 Ti a oſtyngi y mor mawr,
a'r don hyd lawr yn yſtig:
10 A nerth dy fraich curi dy gas,
yr Aipht, fal gwas lluddedig.
11 Eiddot Nef a daear i gyd,
ſeiliaiſt y byd a'i lanw:
12 Gogledd, deau, Tabor, Hermon,
ſy dirion yn dy enw.
13 I'th fraich mae grym, mae nerth i'th law
a'th gref ddeheu law codi:
14 Nawdd a barn yw dy orſedd hir,
a nawdd a gwir a geri.
15 Fu gwynfyd i'r holl bobl a fydd,
a fo'u llawenydd ynod:
Ac yn llewyrch dy wyneb glan
y rhodian' i gyfarfod.
16 Yn d' unig enw di y cant
fawl a gogoniant beunydd:
Yn dy gyfiawnder codi 'wnant,
ac felly byddant ddedwydd.
17 Can's ti wyt gryfder eu nerth hwy,
lle caffent fwy o dyciant:
Tydi a ddyrcheſi eu cyrn,
ac felly cedyrn fyddant.
18 Can's o'r Arglwydd, a'i ddaioni,
y daw i ni ymddiffyn:
O Sanct Iſrael trwy ei law,
oddiyno daw ein Brenhin.
19 I'th Sanct y rhoiſt gynt wybodaeth,
trwy weledigaeth neſol:
Goſodais gymmorth ar gryf Gun;
dyrchefais un dewiſol.
20 Cefais (enneiniais ef yn ol)
fy ngwas dewiſol Dafydd.
21 Ag olew ſanct: braich a llaw gref
rhoiſt gyd ag ef yn llywydd.
22 Ni chaiff gelyn ei orthrymmu,
na'i ddrygu un mab enwir:
23 O'i flaen y coetha'i elynion,
a'i holl gaſeion dihir.
24 Fy ngwirionedd a'm trugaredd,
rhof fi trwy gariad iddo:
Ac yn fy enw i yn ddiorn
dyrchefir ei gorn efo.
25 Goſodaf ei law ar y mor,
ac o'r goror bwygilydd:

A goſodaf

# Salmau XC.

A gofodaf ei law ddeau
hyd derfynau'r afonydd.
26 Ef a weddia arnaf fi
i'w galedi, gan dd'wedyd,
Ti yw fy Nhad, fy Nuw, fy Ngharn,
yn gadarn o'm hieuengctyd.
27 Minnau gwnaf yntau i'm yn Fab,
yn Gynfab ac Etifedd,
Ar frenhinoedd y ddaear las,
yn uwch ei ras a'i fawredd.
28 A chadwaf iddo (yr un wedd)
drugaredd yn drag'wyddol:
A'm cyfammod iddo yn llawn,
yn ffyddlawn, ac yn nerthol.
29 Gofodaf hefyd byth i'w had
nerth a mawrhad uwch bydoedd:
A'i orfedd feinge ef i barhau
un wedd a dyddiau 'r nefoedd.
30 Ond os ei blant ef (trwy afrol)
nid ant yn ol fy nghyfraith:
Os hwy ni rodiant, gan barhau,
i'm beirn a'm llwybrau perffaith.
31 Os fy neddfau a halogant,
ni chadwant fy holl eirchion:
32 Yna ymwelaf a'u cam gwrs,
a gwiail fcwrs, neu goedffon.
33 Ond ni thorraf ag ef un nod
o'm hammod a'm trugaredd:
Ac ni byddaf fi ddim yn ol
o'm hyftyriol wirionedd.
34 Ni thorraf fy nghyfammod glan,
a ddaeth allan o'm genau:
Ac ni newidiaf air o'm llw:
mi a rois bwnnw 'n ddiau.
35 Yn fy fanctteiddrwydd tyngais im',
na phallwn ddim i Ddafydd:
36 Bydd ei had a'i drwn, yn dŵr draul,
o'm blaen fel haul tragywydd.
37 Yn dragywydd y ficrheir ef,
fel cwrs (is Nef) planedau
Haul neu leuad, felly y bydd
ei gwrs tragywydd yntau.
38 Ond fi a'n ffieiddiaift ar fyr,
ac yn ddiyttyr lidiog:
Ti a gyffroaift yn dra blin
wrth dy Frenhin enneiniog.
39 Diddymmaift di dy air i'th was,
a'th ras, a'th addewidion:
Ac a'i halogaift ef yn fawr,
gan daflu i lawr ei goron.
40 A drylliaift ei fagwyrydd ef,
a'i gaer gref rhoift yn adwy:
41 Yn egored felly y mae
yn brae i bawb fy'n traiwy.
42 I'w gym'dogion gwarthrudd yw ef,
a than law gref ei elyn:
A llawen iawn y codent floedd,
bob rhai a oedd i'w erbyn.
43 Troift hefyd fin ei gleddau ef,
a'i law oedd gref, a blygaift:
44 Darfu ei lendid ef, a'i wawr,
a'i drwn i'r llawr a fwriaift.
45 Pryd ei ieuengctyd heibio 'r aeth,
a thi a'i gwnaeth cyn fyrred:
A bwriaift drofto w'radwydd mawr,
o nen hyd lawr y torred.
46 Pa hyd, fy Nuw, y byddi 'nghudd?
ai byth, fy Llywydd nefol?
A lyfg dy lid di fel y tan
yn gyfan yn drag'wyddol?
47 O cofia f' oes ei bod yn fer:
ai'n ofer gynt y gwnaethoft
Holl blant dynion? O dal dy law
ac in' ni ddaw yn rhydoft.
48 Pa wr y fydd a'i oes dan fel,
na ddel marwolaeth atto?
Pwy a all ddiangc, ac ni ddaw
y gaib a'r rhaw i'w guddio?
49 O mae dy nodded, Arglwydd gynt?
mae helynt dy drugaredd?
Mae dy lw, o yftyriol ffydd,
i Ddafydd i'th wirionedd?
50 Cofia, Arglwydd, yn w'radwydd llym
lle'r ydym ni, dy weifion:
Yr hwn a dawdd i'm mynwes i,
gan ffroft y cawri mawrion.
51 Yr hwn warth 'r oedd d'elynion di
it' yn ei roddi 'n llidiog:
(Fy Arglwydd Dduw) a'r un farhad
i droedfiad dy Enneiniog.
52 Moler yr Arglwydd byth Amen;
a byth Amen, hyn fyddo:
Moler yr Arglwydd byth, Amen;
a byth Amen, hyn fyddo.

## SALM XC.

DUW! buoft in' yn Arglwydd da,
ac yn breſwylfa i drigo:
O bryd i bryd, felly yr aeth
pob rhyw genhedlaeth heibio.
2 Er cyn rhoi fail un mynydd mawr,
cyn llunio llawr cwmpas-fyd,
Duw! o drag'wyddol wyt cyn neb,
hyd drag'wyddoldeb hefyd.
3 Weithiau i ddinyftr y troi ni;
troi dithau wedi 'n rhydda:
A d'wedi, cyn ein myn'd i'r llwch,
dychwelwch, meibion Adda.
4 Can's deg can mlynedd fel doe ynt,
pan elo 'i helynt heibio,
O'th flaen di megis gwylfa nos,
ni chaiff ymddangos etto.
5 Nid yw dyn ond fel hun, neu ail
i addail, neu lifeiriant:
Neu megis glas lyfieuyn gwan;
mor fuan y newidiant.
6 Yr hwn y bore gwyrddlas fydd,
a gwawr o newydd arno:
Ond pan y torrer ef brydnawn,
yn fuan iawn mae'n gwywo.
7 Can's yn dy lid difethwyd ni,
gan ofni-dy ddigofaint:
8 Rhoift di ein beiau gar dy fron,
a'n holl ddirgelion dryg-haint.
9 Can's trwy dy ddig mae'n dyddiau ni
a'n tegwch gwedi darfod:
A'n holl flynyddoedd ynt ar ben,
fel gorphen hen chwedl gorfod.
10 Ein holl flynyddoedd yw faith ddeg;
dau bump 'chwaneg, os bydd grym:
Yna ein nerth ai'n boen blin iawn,
i ffordd yr awn yn gyflym.

11 Ond

11 Ond pwy a edwyn nerth dy lid?
mawr ofid ſydd o'th ſorri:
Sef, fel y mae dy ofn di'n fawr,
dy ddig ſydd ddirſawr ini.
12 Dyſg felly 'n riſo 'n dyddiau gwael,
i'n calon gael doethineb:
13 Duw, pa hyd? tyr'd a dod yn hawdd
i'th weiſion nawdd ac undeb.
14 Yn ſore iawn diwalla ni
a'th fawr ddaioni eiſoes:
Fel y caffom ni lawen fyd
yn hyfryd dros ein heinoes.
15 Gwna ni'yn llawen; buom brudd,
pan oedd in' gyſtudd dybryd:
A chewdi llawer blwyddyn drom,
y rhai a gawſom adfyd.
16 O Duw, gwna weled dy fawr waith,
a'th wrthiau maith i'th weiſion:
A'th odidowgrwydd, a'th ffyniant,
ym myſg eu plant a'u hwyrion.
17 Arnom ni doed rhad Duw, a'i nerth,
ei allu pryfferth weithiaw:
Duw, dod ein gwaith mewn trefnid dda;
Duw, trefna waith ein dwylaw.

## SALM XCI.

YSAWL a drigo, doed yn nes,
yn lloches y Goruchaf:
Ef a ymerys i gael bod
ynghyſgod hwn ſydd bennaf.
2 Fy holl ymddiffyn wyt, a'm llwydd,
wrth fy Arglwydd y d'wedaf:
A'm holl ymddiried, tra fwy fyw,
ſydd yn fy Nuw Goruchaf.
3 Can's ef a weryd yr oes dau,
oddiwrth faglau yr heliwr;
Ac hefyd oddiwrth bla, a haint,
echrys haint, ac anghyflwr.
4 Ei eſgyll drofot ef a rydd,
dan ei adenydd byddi
Yn ddiogel: a'i wiredd gred
fydd gyleh a bwcled iti.
5 Ni ddychryni er twrf y nos,
na'r dydd o achos hed-ſaeth:
6 Er haint, neu bla, mewn tywyll ſydd,
neu hanner dydd, marwolaeth.
7 Wrth dy yſtlys y cwympa mil,
a dengmil o'th law ddeau:
Ac ni ddaw drwg yn dy gyfyl:
a thi a'i gwyl yn ddiau.
8 A'th lygaid y gweli di dal
i'r enwir gwammal anian:
9 Sef fy holl obaith wyt (O Dduw)
ac uchel yw dy drigfan.
10 Ni ddigwydd niweid it', ond da,
na phla, na dim echryſion,
I'th eglwys a'th gyn'lleidfa nawdd
can's archawdd i'w angylion.
11 I'th ffyrdd dy gadw, a'th gynllwyn,
a'th ddwyn a'u dwylaw hardd deg:
12 Rhag digwydd it' ddrwg (hyd yn oed)
tato dy droed wrth garreg.
13 Dy ſangfa fydd ar y llew dig,
a'r aſp wenwynig ſethri:
Ar greulon genau'r llew o'i graig,
ac ar y ddraig, y ſengi.
14 Mi a'i gwaredaf ef rhag brad,
am roi ei gariad arnaf:
Am adnabod fy enw mau,
yn ddiau y dyrchafaſ.
15 Geilw arnaf, m' a'i gwrandawaf,
mewn ing y byddaf barod:
Gwaredaf hefyd rhag ei gas,
a chaiff trwy urddas fawrglod.
16 Fo gaiff fyw yn ddigon o hyd;
caiff yn y byd hir ddyddiau:
Dangoſaf iddo radlawn faeth,
a'm hiachawdwriaeth innau.

## SALM XCII.

MOliannu 'r Arglwydd da iawn yw,
a chyfarch Duw yn bennaf:
A chanu i'th enw di fawl;
a'th ganmawl (y Goruchaf.)
2 Y bore am dy drugaredd,
a'th wirionedd ſon y nos:
3 Ar ddectant, nabyl, a thelyn,
myfyrio hyn, a'i ddangos.
4 Sef, trwy dy weithred llawen wy',
onnyn o nwy 'n fy Nuw Naf:
Yngwaith dy ddwylaw, fy Nuw Ior,
beunydd y gorfoleddaf.
5 Dy weithredoedd, ond mawrion ynt?
dy helynt ni's gwyr anghall:
6 Dy feddyſiau o ddwfn iawn fryd,
hyn ni's gwyr ynfyd ddeall.
7 Pan flodeuo yr enwir ddyn
megis llyſieuyn iraidd:
Pan ſo drygweilch yn gref eu plaid;
Duw, yno rhaid eu diwraidd.
8 Y drwg flagur uchel yr ant,
a hwy a ſyrthiant beunydd:
Tithau, yr Arglwydd, yn ddigel
wyt uchel yn dragywydd.
9 O Arglwydd, wele d'elynion,
dy gaſeion difethir:
A holl weithredwyr trais a cham,
yn ddinam, a waſgerir.
10 Tydi a ddyrcheſi fy nghorn
fel yr unicorn perffaith:
Hefyd a gwerthfawr olew ir
y'm taenellir i eilwaith.
11 Fy llygaid a welant hefyd
fy ngwynfyd o'm gelynion:
A'm cluſtiau a glywant ar frys
f' ewyllys am ddrwg ddynion.
12 Y cyfion blodeua i'r nen,
fel y balmwydden union:
Cynnyddu yn iraidd y bydd.
fel cedrwydd yn Libanon.
13 Y rhai a blannwyd yn nhy Dduw,
yn goedwydd byw y tyfant:
Ac ynghynteddau ein Dduw ni
y rheini a flodeuant.
14 A dwyn eu ffrwyth a wnant o faint,
yn amſer henaint etto:
Tirfion, iraidd, a phrofadwy,
a fyddant hwy yn hſlio.
15 I ddangos nad traws, ac nad cam,
yw f' Arglwydd a'm cadernyd:
Ac nad oes ynddo na chamwedd,
na dim anwiredd hefyd.

# Salmau XCIII, XCIV, XCV.

## SALM XCIII.

TEyrnaſu y mae yr Arglwydd,
mewn ardderchowgrwydd gwiſgodd:
Ymwiſgodd ſ' Arglwydd yn brydſerth,
a nerth yr ymwregyſodd.
2 Fe a ſicrhaodd ſail y byd
heb ſyflyd, yn ddihareb:
Dy fainge erioed a ddarpatwyd:
ti wyd er trag'wyddoldeb.
3 Y llifeiraint (fy Arglwydd) ſaint
y llifeiraint yn codi:
Tyrfau a llif yn rhwygo'r llâwr,
a thonnau mawr yn coethi.
4 Cadarn yw tonnau y moroedd,
gan dyrfau dyfroedd lawer:
Cadarnach yw yr Arglwydd mau
yn nhyrau yr uchelder.
5 Dy dyſtiolaethau ynt ſiwr iawn:
ſef cyfiawn yw ſancteiddrwydd:
A gweddus yn dy dy di fydd
byth yn dragywydd, ſ' Arglwydd.

## SALM XCIV.

O Arglwydd Dduw, Duw mawr ei rym,
dialwr llym pob traha:
O Dduw y nerth, ti biau'r tal,
a'r dial, ymddiſgleiria.
2 Ymddyrcha di, Farnwr y byd,
a thal i gyd eu gobrwy:
I'r beilchion a'r trahaus dod
y tal a ſo dyladwy.
3 Pa hyd (O Arglwydd) O pa hyd
y chwardd gwyr byd drygionus?
4 Yr ymfalchiant yn eu drwg,
gan fygwth amlwg ffroſtus?
5 A'th boſl di, Arglwydd a faeddant,
a chyſtuddiant dy dreſtad:
6 Y weddw a'r dieithr a laddant,
lliaſant yr amddifad.
7 D'wedaſant hyn heb geiſio cel;
ein gwaith ni wel yr Arglwydd:
Ac ni ddeall Duw Iago hyn;
i ni ni ddiſgyn aflwydd.
8 Ym myſg y bobloedd difraw don,
yſtyriwch ddynion anghall:
Chwithau ynfydion, O pa bryd
y rhowch eich bryd ar ddeall?
9 Hwn a wnaeth y gluſt i bob byw,
oni chlyw ef yn amlwg?
Ac oni wel hwnnw yn hawdd,
a llniawdd i ni olwg?
10 Oni cherydda hwnnw chwi,
ſy'n coſpi pob cenhedlaeth?
Ac oni wyr hwnnw ſy'n
dyſgn i ddyn wybodaeth?
11 Gwyr yr Arglwydd feddyliau dyn,
mai gwagedd ydyn', diffaith:
12 Duw, dedwydd yw a goſpech di,
a'i ſforddi yn dy gyfraith,
13 Yr hon a ddyſg i ddyn warhau,
i ſwrw dyddiau dihir,
Tra foer yn darparu y clawdd,
y fan y hawdd yr enwir.
14 Can's ein ſor ni ei hobl ni ad,
a'i wir dreſtad ni wrthyd:
15 Ef at farn iawn a gadarnha,
a phob dyn da a'i dilyd.
16 Pwy a gyfyd gyd a myfi
yn erbyn egni trawſedd?
Pa rai a ſafant ar fy nhu
yn erbyn llu anwiredd?
17 Oni bai fod Duw i mi 'n borth,
ac eſtyn cymmorth i mi,
Braidd fu na ddaethai im' y loes
a roiſai f' oes i dewi.
18 Pan fawn yn cwyno, dan drymhau,
rhag bod i'm camrau lithro:
Fy Arglwydd, o'th drugaredd drud,
di a'm cynhelyd yno.
19 Pan fo ynof amlaf yn gwau
bob rhyw feddyliau trymion:
Doe dy ddiddanwch di ar dro,
i gyſuro fy nghalon.
20 A oes gyfeillach i ti, Dduw,
a maint yr annuwiolion,
Hwn a lunia anwiredd maith
yn lle y gyfraith union?
21 Y rhai ſy'n ymdyrru ynghyd,
ar fryd dwyn oes y cyfion:
Ac yn eu cynghor ar ymwnaed
i geiſio gwaed y gwirion?
22 Ond yr unig Ior fydd, er hyn,
yn llwyr ymddiffyn f' enaid:
Ef yw fy nerth o'm hol a'm blaen,
a ſylfaen fy ymddiriaid.
23 Efe a dal i bob dyn drwg
yn amlwg am ei gamwedd:
Y maleiſus tyn Duw o'r byd,
am ei chwyd o anwiredd.

## SALM XCV.

O Dowch, a chanwn i'r Arglwydd,
efe yw llwydd ein bywyd:
Ac ymlawenhawn yn ei nerth,
ef yw ein prydferth iechyd.
2 Duw o down yn unfryd ger ei fron
a chalon bur ddiolchgar:
Bryſiwn at Dduw, dan lawenhau,
a chanwn ſalmau 'n llafar.
3 Herwydd yr Arglwydd Nef a llawr
y ſy Dduw mawr yn ddiau:
Tywyſog mawr yw ef mewn trin,
a Brenhin yr holl dduwiau.
4 Efe biau'r holl ddaear gron,
a'r dyfnder eigion danaw:
Uchelder hefyd, eithafoedd,
mynyddoedd fydd yn eiddaw.
5 Ef biau'r moroedd uwch pob traeth,
ac ef a'n gwnaeth i ruo:
Ei ddwylaw ffurfiaſant yn wir
y ſychdir, ac fydd ynddo.
6 Dowch, addolwn, cyd-ymgrymmwn,
ac ymoſtyngwn iddaw:
Ef yw ein Hargiwydd unben Rhi,
ef a'n gwnaeth ni a'i ddwylaw.
7 Can's ef i ni y fydd Dduw da,
a phobl ei borfa ydym:
A'i ddefaid ym, os chwi a glyw
ei air ef heddyw'n gyflym.
8 Meddyliwch fod eich bai ar led;
na fyddwch galed galon:

Fel

Fel yn nydd prawf, mewn anial dir,
lle' cofir bod ymryſon.
9 Y lle temtiodd eich tadau fi,
a'm profi i'm hadnabod:
Faint ydoedd y gweithredoedd mau,
yn ddiau cawſant wybod.
10 Dros ddeugain mlynedd a'r llin hon,
trwy ſawr ymryſon, d'wedais,
Pobloedd ynt cyfeiliornus iawn,
a'u calon yn llawn malais.
11 Can's nid adwaenent y ffordd mau,
onid amlhau eu tuchan:
Wrthyn i'm llid y tyngais hyn,
na ddelyn' i'm gorphwyſfau.

## S A L M XCVI.

O Cenwch glod i'r Arglwydd mad,
a moeſwch ganiad newydd:
Yr holl ddaear, datgenwch ſawl
yr Arglwydd neſawl beunydd.
2 Cenwch chwi glod i'r Arglwydd Nef,
a'i enw ef bendigwch,
A'i iachawdwriaeth, trwy grefydd,
o ddydd i ddydd cyhoeddwch.
3 Datgenwch byth ei glod a'i rad
yngwlad y cenhedlaethoedd,
A'i ryfeddodau ef ym mhlith
pob amryw, amrith bobloedd.
4 Can's ein Harglwydd ni ſydd Dduw mawr,
a rhagawr canmoladwy:
Uwch yr holl ddduwiau y mae ef
yn Frenhin Nef ofnadwy.
5 Duwiau y bobl eulynod ynt;
ni ellynt mwy na chyſgod:
A'n Duw ni a wnaeth Nef a llawr;
fel dyna ragawr gormod.
6 Can's mawr ydyw gogoniant Nef,
ac o'i flaen ef mae harddwch:
Yn ei gyſſegr ef y mae nerth,
a phrydferth yw 'r hyfrydwch.
7 Chwi dylwythau y bobloedd, trowch,
yn llawen rhowch i'r Arglwydd,
I'r Arglwydd rhowch ogonedd fry,
a nerth; a hynny 'n ebrwydd.
8 Rhowch ogoniant i'w enw ef,
yr Arglwydd Nef byth bythoedd:
A bwyd offrwm iddo a rowch,
a chwi dowch i'w gynteddoedd.
9 Addolwch f' Arglwydd ger ei fron
i'w gyſſegr, digon gweddol:
A'r ddaear rhagddo, hyd a lled,
dychryned yn aruthrol.
10 I'r holl genhedloedd d'wedwch hyn;
Yr Arglwydd ſy'n teyrnaſu:
Nid yſgog y byd, fy'n ſicr iawn;
ef a wyr uniawn farnu.
11 O llawenhaed neſolaidd do,
i'r ddaear bo gorfoledd:
Rhued y mor a'i donnau llawn,
a'r pyſg ſy' mewn ei annedd.
12 A gorfoledded y maes glas,
ei dwf, a'i addas ffyniant:
A phob pren gwyrdd ſydd yn y coed,
i'r Arglwydd rhoed ogoniant.
13 Am ei ddyfod, am ei ddyfod,
a'i farn ſydd hynod iawnwedd;
Barna yn gyfion yr holl fyd,
a'r bobl, a'i gyd-wirionedd.

## S A L M XCVII.

YR Arglwydd ydyw ein pen rhaith,
bo perffaith y ddaearen:
Ynyſoedd cedyrn yr holl fyd,
bont hwy i gyd yn llawen.
2 Niwl a thywyllwch ſ' i'w gylch ef,
hyfrydwch Nef gyfannedd.
Iawnder a barn ydynt yn ſail
ac adail maingc ei orſedd.
3 Tan a o'i flaen ef ac a lyſg
ym myſg ei holl elynion:
4 A'i feilt yn fflamio trwy'r holl fyd,
oedd olwg enbyd ddigon.
5 O flaen Dduw, fel y tawdd y cwyr,
y bryniau 'n llwyr a doddent:
O flaen hwn (ſef yr Arglwydd) ar
y ddaear y diflannent.
6 Yr holl neſoedd yn dra hyſpys
a ddengys ei gyfiawnedd:
A'r holl genhedloedd a welſant
ei fawr ogoniant rhyfedd.
7 Gw'radwydd i'r rhai a waſ'naethan'
y delwau man cerfiedig:
Addolwch ef (nid eilun gau)
holl dduwiau darfodedig.
8 Dy farnedigaeth (O Dduw Ion)
a glybu Seion ddedwydd:
Merched Juda (o herwydd hyn)
fy'n ennyn o lawenydd.
9 Can's ti (O Arglwydd) wyt, fy Naf,
Oruchaf dros y ddaear:
Rhagorol yw'r dyrchafiad tau
uwchlaw'r holl dduwiau twyllgar.
10 Pob drygioni chwi a gaſewch,
caru a wnewch yr Arglwydd:
Hwn ſydd yn cadw oes ei ſaint,
i'w dwyn o ddrygfaint afrwydd.
11 Mewn daear yr egina 'i had,
goleuad daw i'r cyfion:
Ar ol triſtwch, ſo dry y rhod
i lan gydwybod union.
12 Yn yr Arglwydd, o'r achos hon,
chwi gyfion, llawenychwch:
Trwy goffa ei ſanctaiddrwydd ef,
a llais hyd Nef moliennwch.

## S A L M XCVIII.

CENWCH i'r Arglwydd newydd gan;
ei waith fu lan rhyfeddod:
Ei law ddehau a'r fraich a wnaeth
in' iachawdwriaeth parod.
2 Yr Arglwydd hyſpys in' y gwnaeth
ei iachawdwriaeth gyhoedd:
A'i gyfiawnder ef yn dra hawdd
datguddiawdd i'r cenhedloedd.
3 Fe gofiodd ei drugaredd hir,
a'i wir, i dy Iſrael:
Fel y gwelodd terfynau'r byd
ei iechyd yn ddiymgel.
4 I'r Arglwydd a chaniad llafar,
chwi, yr holl ddaear, cenwch:
A llafar lais, ac eglur lef,
fry hyd y Nef y lleiſiwch.

# Salmau XCIX, C, CI, CII.

5 Cenwch i'r Arglwydd Dduw fel hyn,
a'r delyn a chywirdant:
A chyd a'r delyn, lais a thon,
rhowch iddo gyfion foliant.
6 Canu yn llafar ac yn rhwydd,
o flaen yr Arglwydd Frenhin,
Ar yr bdgyrn, a'r chwythgyrn pres;
fel dyna gyffes ddibrin.
7 A rhued y mor mawr i gyd,
a'r byd, ac oll fydd ynddynt:
8 Y llif-ddyfroedd, a'r mynyddoedd,
y mae yn addas iddynt.
9 Curant, canant, o flaen Duw cu,
yr hwn fy'n barnu'r bydoedd:
I'r byd y rhydd ei farn yn iawn,
ac yn uniawn i'r bobloedd.

## S A L M XCIX.

YR Arglwydd Dduw yw ein Brenhin,
er maint yw trin y bobloedd:
Mae'n eiſtedd rhwng dau gerubyn;
ſe gryn pob daear-leoedd.
2 Canys Brenhin mawr ydyw 'r Ion
yn Seion, o'i ddyrchafel:
Ac uwchlaw pobloedd yr holl fyd,
y ſydd o ryddyd uchel.
3 Cyd-foliannant, o'r Nef i'r llawr,
dy enw mawr rhagorol:
Ofnadwy, ſanctaidd, yw i'w drin.
tithau (O Frenhin nerthol)
4 A geri farn, darperi iawn,
yn gyfiawn heb drawsoſgo:
A barnedigaeth bur ddidoſt
a wnaethoſt di yn Iago.
5 Dyrchefwch yr Arglwydd ein Duw;
ſef ſanctaidd yw i'w fawredd:
Ymgrymmwch o flaen ei ſtol-draed;
felly parhaed ei fawledd.
6 Moſes ac Aron, ſanctaidd blaid,
ym mhlith offeiriaid gyrrodd:
Samuel galwai ei enw ef;
yntau o'r Nef atebodd.
7 Mewn colofn o niwl y bu wiw
gan Dduw lafaru wrthynt:
Tra ſuant hwy yn cadw ei fodd,
a'r ddeddf a roddodd iddynt.
8 Gwrandewaiſt arnynt, dodaiſt ged,
a'u harbed, gan ymattal:
Duw ein Naf, dy nawdd parod fu,
a hwythau 'n haeddu dial.
9 Dyrchefwch ein Duw Ior am hyn,
yn Seion fryn cyſſegraidd:
Ymgrymmwch iddo yn eich byw;
ſef unig Dduw ſydd ſanctaidd.

## a A L M C.

I'R Arglwydd cenwch lafar glod,
a gwnewch ufudd-dod llawen fryd:
2 Dowch o flaen Duw a pheraidd don,
trigolion y ddaear i gyd.
3 Gwybyddwch mai'r Arglwydd ſydd Dduw
a'n gwnaeth ni'n fyw ſel hyn i fod,
Nid ni'n hunain: ei bobl ym ni,
a defaid rhi' ei borfa a'i nod.
4 O ewch i'w byrth a diolch brau;
yn ei gynteddau molwch ef:
Bendithiwch enw Duw hynod;
rhowch iddo glod trwy lafar lef.
5 Can's da yw 'r Arglwydd Awdur hedd;
da ei drugaredd, a dilyth:
A'i wirioneedd i ni a roes,
o oes i oes, a bery byth.

## S A L M CI.

DATGANAF drugaredd a barn,
i'r Arglwydd cadarn canaf:
2 Byddaf ddeallus mewn ffordd wych,
hyd oni ddelych attaf.
A rhodiaf yn fy nhy yn rhwydd,
a thrwy berffeithrwydd calon:
3 Pob peth drwg ſydd gennyf yn gas,
a childyn ddiras ddynion.
4 Calon gyndyn ynof ni bydd:
drwg weithydd ni 'dnabyddaf:
5 'Sglandrwf dirgel, a'r balch uchel,
o'r achos hi ddefaf.
6 Ar ffyddloniaid mae 'ngolwg i;
ſe lyn y rheini wrth 'i;
A'r hwn a rodio mewn ffordd dda,
hwn a waſanaetha i mi.
7 Ni chaiff aros o fewn fy nhy
un dyn ag fy dwyllodrus:
Yn fy ngolwg un dyn ni bydd
a lunio gelwydd trefnus.
8 Holl annuwiolion fy ngwlad faith
yn fore ymaith torraf:
Fel na ddelont i ddinas Duw,
y cyfryw a ddiwreiddiaf.

## S A L M CII.

O Arglwydd, erglyw fy ngweddi,
a doed fy nghri hyd attad:
2 Na chudd d'wyneb mewn ing tra fwyf;
clyw, clyw, gan alwyf arnad.
3 Fy nyddiau aethant fel y mwg,
ſef cynddrwg y'm cyſſuddiwyd:
Fy eſgyrn poethant achos hyn,
fel tewyn ar yr aelwyd.
4 Fy nghaloh trawyd a chryn ias,
ac fel y gwelit glas gwywodd:
Fel yr anghofiais fwytta 'mwyd;
dirmygwyd fi yn ormodd.
5 Glynodd fy eſgyrn wrth fy nghroen,
gan faint fy mhoen a'm tuchan:
6 Fel un o'r anialwch, lle trig
y pelig, neu'r dylluan;
7 Neu fel un o adar y to,
a fai yn gwylio 'i fywyd,
Yn rhodio 'n unig ben y ty,
wyf anhy, ac anhyfryd.
8 Fy ngelynion, a thafod rhydd,
hwy beunydd a'm difenwant:
A than ynfydu yn eu gwyn,
i'm herbyn y tyngafant.
9 Fel llwch a lludw yn fy mhla,
fu'r bara a fwytteais:
Yr un wedd yn y ddiod fau
fy nagrau 'a gymmyſgais.
10 A hyn fu o'th ddigofaint di,
am it' fy nghodi unwaith:
Ac herwydd bod dy ddig yn fawr,
i'r llawr y'm teflaiſt eilwaith.

# Salmau CIII.

11 Fy nyddiau troiſant ar y rhoed,
ac fel y cyſgod ciliant :
Minnau a wywais, achos hyn,
ſêky glaſwelltyn methiant.
12 Ond tydi, Dduw, fy Arglwydd da,
a barhei yn drag'wyddol :
O oes i oes dy enw a aeth
mewn coffadwriaeth graſol.
13 O cyſod bellach, trugarha,
O Dduw, bydd dda wrth Seion :
Mae'n fadws iddi drugarhau,
fel dyma'r nodau 'n union.
14 Can's hoff iawn gan dy weiſion di
ei meini a'i magwyrau :
Maent yn toſturio wrth ei Hwch,
a'i thriſtwch, a'i thrallodau.
15 Yno yr bydd genhedloedd byw
yr Arglwydd Dduw a ofnant :
A'r holl frenhinoedd trwy y byd
a ront it' gyd ogoniant.
16 Pan adeilader Seion wych,
a hon yn ddrych i'r gwledydd :
Pan weler gwaith yr Arglwydd ne',
y molir e'n dragywydd.
17 Edrychodd hwn ar weddi 'r gwael ;
rhoes iddynt gael eu harchau :
18 'Sgrifenir hyn ; a'r oes yn ol
a gaiff ei ganmol yntau.
19 Can's Duw edrychodd o'r Nef fry
ar ei gyflegr-dy, Seion :
20 Clybu ei griddfan er rhyddhau
plant angau 'i garcharorion.
21 Fel y cyd-leiſhent hwy ar gan,
yn Seion lan, ei foliant :
Ac yng Nghaerſalem, yr un wedd,
ei fawredd a'i ogoniant.
22 Hyn fydd pan gaſglo pawb ynghyd
yn unfryd i'w foliannu :
A'r holl deyrnaſoedd dont yngwydd
yr Arglwydd i'w waſ'naethu.
23 Duw ar y ffordd lleiha'dd fy nerth,
byrha'dd fy mhrydferth ddyddiau :
A mi 'n diſgwyl rhyddhad ar gais,
yna y d'wedais innau.
24 O Dduw, na thor fy oes yn frau
yngha'nol dyddiau f' oedran :
Dy flynyddoedd di fydd erioed,
o oed i oed y byddan'.
25 Di yn y dechreu dodaiſt ſail
odd' ifod adail daear :
A chwmpas wybren uwch ein llaw
yw gwaith dy ddwylaw hawddgar.
26 Darfyddant hwy, parhei di byth,
treuliant fel llyth drwſiadau :
27 Troi hwynt fel gwiſg, llygru a wnant ;
felly newidiant hwythau :
Tithau, Arglwydd, yr un wyt ti,
a'th flwyddau ni ddarfyddant.
28 Holl blant dy weiſion ger dy fron,
a'u hwyrion, a breſwyliant.

## SALM CIII.

FY enaid, mawl Sanct Duw yr Ion,
a chwbl o'in heigion ynof :
2 Fy enaid n'ad fawl f' Arglwydd Nef,
na 'i ddoniau ef, yn anghof.
3 Yr hwn ſy'n maddeu dy holl ddrwg,
hwn a'th ddŵg o'th leſgedd :
4 Yr hwn a weryd d' oes yn llon,
drwy goron o'i drugaredd.
5 Hwn a ddiwalla d'enau di
a'i lawn ddaioni pybyr :
Drwy adnewyddu it' dy nerth
mor brydferth a'r hen eryr.
6 Yr Ion cyfiawnder, barn a wnai
i'r rhai fydd orthrymmedig :
7 Dangos a wnaeth ei brif ffyrdd hen
i Foeſen yn noſedig ;
Ac i Iſrael ei holl ddawn,
Duw, llawn yw o drugaredd.
8 Hwyr yw ei lid, parod ei rad ;
fel dyna gariad rhyſedd.
9 Nid ymryſon ef a ni byth ;
nid beunydd chwyth digofaint :
10 Nid yn ol ein drygau y gwnai
a ni ; nîm coſpai cyunmaint.
11 Cyhyd ag yw 'r ffurfafen fawr
oddiar y llawer o uchder :
Cymmaint, i'r rhai a'i hofnant ef,
fydd nawdd Duw Nef bob amſer.
12 Os pell yw'r dwyrain oleu hin
oddiwrth orllewin fachlud :
Cyn belled ein holl bechod llym
oddiwrthym ef a'i fymmud.
13 Ac fel bydd nawdd, ſerch, a chwant,
tad da i'w blant naturiol :
Felly oawn ſerch ein tad o'r Nef,
os ofnwn ef yn ddŵwiol.
14 Efe a'n hedwyn ni yn llwyr ;
fe wyr mai llwch yw'n deinydd :
15 Oes dyn fel gwellt glas fy'n teghau,
neu ddaily neu flodau maeſydd.
16 Yr hwn, cyn gynted ag y del
y gwynt a'i awel drofodd :
A chwythir ymaith felly o'i le,
na wyddys p'le y tyfodd.
17 Ond graſlawn drugaredd a fydd
yn lan dragywydd feddiant :
O oes i oes, heb drangc, heb drai,
gan Dduw i'r rhai a'i hofnant.
18 A'i gyfiawnder i blant y plant
a gadwant ei gyfammod :
O chofiant ei orch'mynion ef,
mae teyrnas Nef yn barod.
19 Yno mae ei orſeddfa ef,
ſef yn y Nef trag'wyddol :
A llywio y mae ef bob peth
drwy ei frenhini'eth nefol.
20 Bendithiwch chwi yr Arglwydd Ion,
angylion a'i holl gedyrn :
Ei lan orch'mynion ef a wnewch,
a'i lais gwſtandewch yn drachwyrn.
21 Bendithiwch chwi yr Arglwydd Ner,
ei luoedd tyner tirion :
Ei 'wyllys gwnewch, canlynwch wir,
chwychwi ei gywir weiſion.
22 Bendithiwch chwi yr Arglwydd Nef,
ei holl waith ef ſy hylwydd :
Ym mhob man oll o'i dreſn a'i hawl,
o f' enaid, mawl di'r Arglwydd.

SAL

## SALM CIV.

FY enaid, mola'r Arglwydd Dduw,
O f' Arglwydd, Dduw y mawredd:
Mawr, wyt, gogoniant a gai di;
ymwisgi ag anrhydedd.
2 Megis ei ddillad, y gwisg fo
am dano y goleuad:
Rhydd yn ei gylch yr wybr ar dan,
yn llydan, fel llen wastad.
3 Ar ddeifr rhoes sail ei 'stafyll cau:
gwnaeth y cymmylau iddo
Yn drwn olwynog: mae ei hynt
uwch esgyll gwynt yn rhodio.
4 Gwnaeth bob chwythad iddo'n gennad,
gogonedd y ffurfafen:
A'i weinidogion o flam dan
a wibian 'rhyd yr wybren.
5 Cref y rhoes sail y ddaear gron,
fel na syfi hon oddiyno:
Yr hon a bery, fel y rhoes,
o oes i oes heb siglo.
6 Tydi (Dduw) a ddilledaist hon
a'r eigion yn fantellau:
Ac oni bai dy ddeheu-law,
ae'r deifr uwchlaw y bryniau.
7 Gan dy gerydd maent hwy yn ffo.
fel pan y synio taran:
Trwy draw a-brys ar hyd y ddol
y deifr i'w hol a lithran'.
8 Weithiau y codai 'r deifr yn fryn;
weithiau fel glyn pannyleut,
Lle 'trefnaist iddynt bannwl cau;
ar weithiau y gorphwysent.
9 Gosodaist derfyn lle 'r arhont,
ac fel nad elont drosto:
Ac na ddelont hwy fyth ar lawr
y ddaear fawr, i'w chuddio.
10 Rhoes Duw ffynnon i bob afon,
a phawb a ysant beunydd:
A rhed y ffrydau 'rhyd y glyn,
a rhwng pob bryn a'i gilydd.
11 Yfant yno 'nifeiliad maes,
asynod myng-laes gwylltion,
Heb ymadael a llawr y nant,
hyd onid yfant ddigon.
12 Ac adar awyr dont ger llaw,
i leisiaw rhwng y coedydd:
Yn canu 'i fawl o bren i bren,
cethlyddiaeth lawen ufudd.
13 Dwfr ar synyddoedd lle ni ddaw,
fo wlych a gwlaw oddiarno:
A'r gwastad dir efe a'i gwlych,
bob grwn a rhych i ffrwytho.
14 Parodd i'r gwellt dyfu, wrth raid
anifeiliaid: a'r llysiau,
Er da i ddyn; lle rhoes, o'r llawr,
ymborthiant mawr rhag angau.
15 A gwin llawena calon dyn,
ag olew tywyn wyneb:
A bara nerthir calon gwr,
mewn cyfiwr digonoldeb.
16 Preniau'r Arglwydd, o fugn llawn,
o'i unig ddawn y tyfan;
Sef y coed cedrwydd brigog mawr,
a roes e'n llawr y Liban.
17 Lle mae nythod yr adar man
mewn preniau glan cadeirir:
Lle, mewn ffynnidwydd gwyfwydd glyn,
mae ty'r aderyn trwynhir.
18 Y mynydd uchel, a'r bryn glas,
yw llwybr y danas fychod:
Ogof y dorgraig a wna les,
yn llioches i'r cwningod.
19 Fe roes i'r lleuad ei chwrs clau,
a'i chyfnewidiau hefyd:
A'r haul o amgylch y byd erwn,
fo edwyn hwn ei fachlud.
20 Tywyllwch nos a roed, wrth raid,
i fwyftfiliaid y coedydd:
21 Y llewod rhuant am gael maeth
gan Dduw, yfglyfaeth beunydd.
22 A chwedi cael yr ymborth hyn,
pan ddel haul attyn' unwaith,
Ymgafglant hwy i fyn'd i'w ffau,
ac i'w llochefau, eilwaith.
23 Y pryd hwn cyfyd dyn i'w waith,
ac i'w orchwyliaeth efgud:
Ac felly 'r erys dan yr hwyr,
lle 'caiff yn llwyr ei fywyd.
24 O Dduw, mor rhyfedd yw dy waith,
o'th fynwyr berffaith dradoeth!
Gwnaethoft bob peth a doethder dawn,
a'r tir fy lawn o'th gyfoeth.
25 A'r llydan for, y deifr ym myfg
lle aml yw pyfg yn llemmain:
Lle yr ymlufgant, rif yr od,
bwyftfilod mawr a bychain.
26 Yno yr a y llongau glan
dros y Leäathan heibio.
Yr hwn 'ofodaift di, lle mae
yn cael ei chwarae ynddo.
27 Hwynt oll difgwyliant, yn ei bryd,
am gael oddiwrthyd borthiant:
I gael dy rodd, ymgafglu 'nghyd,
ie am eu bywyd, byddant.
28 Duw, pan agoraech di dy law,
oddiyno daw daioni:
Pob anifail, a phob rhyw beth,
a ddaw yn ddifeth i ni.
29 Pan guddiech di dy wyneb pryd,
a chafglu d'yfpryd allan:
Crynant, trengant, ac ant i'w llwch,
mewn diwedd trwch a thwrftan.
30 Duw, pan ollyngech di dy rad,
fel rhoddi cread newidd.
Y modd hyn wyneb yr holl dir
a adnewyddir beunydd.
31 Yr Arglwydd gogoneddus fydd,
trwy fawr lawenydd, bythoedd:
Yr Arglwydd yn ddiau a fedd
orfoledd yn y nefoedd.
32 Ein Duw o'r nef'a edrych ar
y ddaear, a hi 'ddychryn:
Os cyffwrdd a'r mynyddoedd draw,
y mwg a ddaw o honyn'.
33 Canaf i'r Arglwydd yn fy myw;
canaf i'w Duw tra fyddwyf:
34 Mi a lawenhaf yn fy lon;
bydd ffyddlon hyn a wnelwyf.
35 Y trawfion oll o'r tir ant hwy;
ni bydd mwy annuwiolion:

# Salmau CV, CVI.

Fy enaid, mola Dduw yn rhodd
mae hyn wrth fodd fy nghalon.

## S A L M CV.

CLodfored pawb yr Arglwydd Nef,
ar ei enw ef y gelwch:
A'i weithredoedd ym mysg pobloedd
yn gyhoedd a fynegwch.
2 Cenwch ei gerdd, clodforwch hwn,
a'i ddidwn ryfeddodau:
3 Y rhai a gais ei enw (y Sant)
llawenant a'n calonnau.
4 Ceisiwch yr Arglwydd, a'i nerth mawr,
a'i fodd bob awr yn rhadlon:
5 Cofiwch ei holl ryfeddodau,
a barn ei enau cyson.
6 O had Abraham ei was fo,
o feibion Iago'r ethol:
7 Ef yw ein Duw, a'i farn ef aeth
dros holl diriogaeth fydol.
8 Bob amser cofiodd ei gyngrair,
ei air, a'i rwym ammodau:
9 Ag Abraham, Isac, a'i hil,
a mil o genhedlaethau:
10 Fe roes i Iago hyn yn ddeddf,
ac yn rwym greddf drag'wyddol:
11 Ac i Israel y rhoes lan
wlad Canan yn gartrefol.
12 Pan oedd yn anaml iawn eu plaid,
a hwy'n ddieithriaid ynddi;
13 Ac yn rhodio o'r wlad i'r llall,
yn dioddef gwall a chyni:
14 Lleisieiriodd iddynt gam yn dynn:
o'r achos hyn, brenhinoedd
A geryddodd ef yn eu plaid;
a'i air a gaid yn gyhoedd.
15 A'm Henneiniog na chyffyrddwch;
na ddrygwch fy mhrophwydi:
16 Galwodd am newydd ar y tir;
yn wir dug fara 'honi.
17 O flaen ei blant y gyrrodd ras;
Joseph yn was a werthwyd.
18 Ar ei draed y rhoed haiarn tyn;
mewn gefyn y cyfluddiwyd.
19 Gwisgodd y gefyn hyd y byw,
nes i air Duw amsern:
Trwy Dduw y cafas ef ryddhad,
a phrifiad, er ei garu.
20 Yna 'gyrrwyd i'w gyrchu fo
ger bron hen Pharo frenhin;
Ac y gollyngwyd ef ar led
o'i gam gaethiwed ryflin.
21 O hyn ei ofod ef a wnaeth
yn bennaeth ar ei deulu:
Ac o'i holl gyfoeth ef, a'i wlad,
ys da fawrhad oedd hynny:
22 I ddysgu rheolwyr ei lys
ei 'wyllys a'i foddlondeb:
I fforddio henuriaid y wlad
yn wastad mewn doethineb.
23 Daeth Israel i'r Aipht, tir Cam,
lle'r oedd yn ddinam estron:
24 Lle llwyddodd Duw hil Iago bach
yn amlach na'u casewn.
25 Yna y troes en calon gan
i lwyr gasau ei bobloedd:
I'w weision ef i wneuthur twyll,
a llid (nid ammhwyll) ydoedd.
26 Duw gyrrodd Foesen, ei was hen,
ac Aron llen dewisol:
27 Yn nhir Ham i arwyddocau
ei nerth a'i wyrthiau nodol.
28 Rhoes Duw dywyllwch dros y wlad;
er hyn ni chad ufudd-dod:
29 Eu dyfroedd oll a droed yn waed,
a lladd a wnaed eu pysgod.
30 I'w tir rhoes lyffaint, heidiau hyll
yn 'stefyll eu brenhinoedd:
31 Daeth ar ei air wybed, a llau,
yn holl fannau eu tiroedd.
32 Fo wlawiodd arnynt genllysg mad,
a'n tir a than a ysodd:
33 Eu gwinwydd a'u ffigyswydd mad,
a choed y wlad, a ddrylliodd.
34 Ceiliog rhedyn, a lindys brwd,
yn difa cnwd eu meusydd:
35 Uwchlaw rhif, trwy yd, gwellt a gwair;
a hyn trwy air Duw Ddofydd.
36 Cyntaf-anedig pob pen llwyth,
a'u blaenffirwyth, ef a d'rawodd,
Ym mhob man trwy holl dir ei gas;
a'i bobl o'i ras a gadwodd:
37 Ac a'u dug hwynt yn rhydd mewn hedd,
o 'winedd eu cascion,
Heb fod o honynt un yn wan,
ag aur ac arian ddigon.
38 A llawen fu gan wyr y wlad,
o'r Aipht pan gad eu gwared:
Daeth arnynt arswyd y llaw gref
a ddaeth o'r Nef i wared.
39 Rhoes Duw y dydd gwmmwl uwch ben;
fel mantell wen y tooid:
A'r nos goleuodd hwynt a than;
fal hyn yn lan y t'wysodd.
40 Fe a roes iddynt, ac y gair,
gig fofl-fair i'w boddloni:
A bara, o'i orchymyn ef,
a ddaeth o'r Nef i'w porthi.
41 Holltodd y graig, daeth deifr yn llif,
fel pe baent brif afonydd:
Cerddodd yr hedlif, a rhoes wlych
'rhyd pob lle fych o'r gwledydd.
42 Cofio a wnaeth ei air a'i ras
i Abram ei was ffyddlon:
43 A thrwy fawr nerth, yn rhydd o gaeth
y gwnaeth ei dewisolion.
44 Tir y cenhedloedd iddynt rhoes,
a'n llafur troes i'w meddiant:
45 Er cadw ei air a'i gyfraith ef,
rhowch hyd y Nef ei foliant.

## S A L M CVI.

MOLWCH yr Arglwydd, can's da yw;
molienwch Dduw y Llywydd:
Oblegyd ei drugaredd fry
a bery yn dragywydd.
2 'R Arglwydd pwy all draethu ei nerth,
a'i holl dirion-ferth foliant?
3 A wnel gyfiawnder gwyn eu byd,
ei farn i gyd a gadwant.
4 O Arglwydd, cofia fi dy was,
yn ol dy ras i'r eiddot:

Ymwel

# Salmau CVI.

Ymwel a mi, i'm cyſtudd caeth,
a'th iachawdwriaeth bárod.
5 Fel y gwelwyſ, ac y chwarddwyſ,
wych urddas d'etifeddiaeth:
Ac y cyd-ganwyſ fawl un don
a'th ddewiſolion odiaeth.
6 Pechod, camwedd, ac annoethedd,
a wnaethom gyd a'n tadau:
Ef a gaed arnom ormod gwall,
heb ddeall dy fawr wyrthiau.
7 Yngwlad yr Aipht, wrth y mor coch,
yn gyndyn groch anufudd:
Heb gofio amlad fu dy ras,
haeddaſom ingas getydd.
8 Etto er mwyn ei enw ei hun,
Duw gun a ddaeth i'n gwared:
I beri i'r byd gydnabod hyn,
ei ſod ef cyn gadarned.
9 Y dyfnfor coch, a'i ddyfrllyd wlych,
a wnaeth e'n ſych a'i gerydd:
Trwy ddyfnder eigion aeth ar frys,
fel myn'd 'rhyd yſtlys mynydd.
10 Fel hyn y dug hwynt trwodd draw
o ddwylaw eu caſeion:
Ac y tywyſodd ef ei blant
yn feddiant en gelynion.
11 Y deifr a guddiodd yr Aipht ryw;
nid oedd un byw heb foddi:
12 Yna y credent i'w air ef,
a'i gerdd hyd Nef ae'n wiſgi.
13 Er hyn, dros gof, mewn amſer byr,
y rhoent ei bybyr wyrthiau:
Heb ſefyll wrth air un Duw Ior,
na'i gyngor, na'i ammodau.
14 Ond cododd arnynt chwant a blys
yn nyrys yr anialwch:
Gan demtio Duw a rheibus fol
ynghanol y diffeithwch.
15 Rhoes iddynt lenwi eu holl flys;
rhoes annhyccíannus aſlwydd:
16 Lle digient Moſes wrth ep ehwant,
ac Aron, ſant yr Arglwydd:
17 Egorai 'r ddaear yn y man,
y llyngcai Ddathan ddybryd:
Ac a gynhalodd i'r un lam
holl lu Abiram hefyd.
18 Ac yn ei ddig ennynodd tan
yn fuan yn eu canol:
Lloſgi y rhain, eu terfyn fu,
yn niw, y llu annuwiol.
19 Yn Horeb gwnaethant dawdd-lun llo,
ac iddo ymgrymmaſant:
20 I lun llo, a borai wellt man,
y troiſan' eu gogoniant.
21 Anghofient wyrthiau Duw ar hynt,
(a f' aſai gynt Achubwr
22 Yngwlad yr Aipht, mor coch, tir Ham)
heb feddwl am eu cyſlwr.
23 D'wedodd mai eu difetha 'wnai,
oni bai i'w was Moeſen,
Trwy ſefyll o'i flaen i'w lid maith,
dwol ymaith eu drwg ddilen.
24 Dirmygent hwy y prydferth dir,
ac i'w air gwir ni chredent:
25 Ond y eu pebyll grwgnach fro,
heb wrando ni wrandawent.
26 Yno dyrchafodd Duw ei law,
i'w cwympaw trwy'r anialwch:
27 'Rhyd tirodd, a phobledd anghu,
i'w tanu mewn di'ſtyrwch.
28 a Baal-peor aent ynghyd,
yſpreilu i gyd ag eſo:
Ebyrth y meirwon a fwytt'ant,
a Duw a roddent beibio.
29 Fal hyn digiaſant f' Arglwydd Dduw
a chyfryw goeg ddych 'mygion:
Yntau anſonodd bla'n eu myſg;
fal dyna derfyſg greulon.
30 Yna cyfodoild Phinehes,
mewn cyflawn wres i ddial;
A phan roes hwn ei farn yn dda,
Duw ar y bla roes attal.
31 A chyfrifwyd y weithred hon
yn weithred gyfion yndilo.
O oes i oes (trwy air Duw Ion)
pan ddelai ſon am dano.
32 Ac wrth lan dwfr Meriba gynt,
yno cyffroynt gynnen:
Lle digient Duw a'u craſder ffraeth;
am hyn bu'n waeth i Foeſen.
33 Wrth gythruddo yſpryd y ſant,
hwy a baraſant hefyd:
I'w enau draethu gair ar fai,
a'r na pherthynai 'i dd'wedyd.
34 Ni laddent chwaith bobloedd y wlad,
wrth archiad Duw y lluoedd:
35 Ond ymgymmyſgu a hwynt yn gu,
a dyſgu eu gweithredoedd.
36 Gwaſanaethu eu duwiau gau,
y rhai fu faglau iddyn':
37 Aberthu eu plant, yn fab, yn ſerch,
o ſerch i'r cythraul eilun.
38 A thywalltaſant wirion waed
dan draed gau-dduwiau Canan:
Y tir (wrth aberthu eu plant)
a gwaed llygraſant weithian.
39 Felly o'u gweithredoedd eu hun
yn un ymhalogaſant:
Putteinio wrth eu cwrs a'u bryd,
ac felly cyd-lygraſant.
40 Wrthynt ennynodd Duw mewn dig,
am hyn, a ffyrnig gyffro:
Cas a ffiaidd felly yr aeth
ei etifeddiaeth ganddo.
41 O'r achos hwn eu rhoddi a wnaeth
dan bob cenhedlaeth gyndyn:
Mewn Cyflwr cas dan eſtron blaid,
a'u cas yn feiſtraid arnyn'.
42 Eu gelynion aethant yn ffrom,
a'u llaw fu drom a ffyrnig:
Felly y daroſtyngwyd hwy,
a mwyfwy fu eu dirmyg.
43 Mynych-waredodd Duw ei blant,
hwy a'i digiaſant yntau:
A'u cwrs eu hun: daeth cyſtudd hir
am waith eu henwir feiau.
44 Pan welai arnynt' ing na thrais,
fo glywai lais eu gweddi:
45 Gan gofio'i air, rhoi nawdd a wnaeth,
o'i helaeth fawr ddaioni.
46 A throi yn drugarog a wnaeth
y gwyr yn gaeth a'u cludynt:

# Salmau CVII.

Y rhai y b'afai 'n fawr en cas,
cael mwy cymmwynas gandd ynt,
47 Achub ninnau o birth y rhaiu,
i arwain d'enw hyglod:
O Arglwydd Dduw, cymmell ni'n gu
i orfoleddu ynod.
48 Dduw Iſrael bendigaid fydd,
yn dragywydd Jehofa:
A d'weded yr holl bobl, Amen:
molwch Dduw llen Gorucha'.

## SALM CVII.

MOlwch yr Arglwydd, can's da yw;
moliennwch Dduw ein Llywydd:
Oblegyd ei drugaredd fry
a bery yn dragywydd.
2 Y gwaredigion canent fawl
i Dduw, gerdd nodawl gyſſon:
Y ſawl 'achubwyd, caned hyn,
o law y gelyn creulon.
3 A gaſgledd o bedwar-ban byd,
dowch chwi i gyd ganeuau:
O dir y dwyrain dowch mewn hedd,
gorllewin, gogledd, deau.
4 Trwy yr anialwch, wyrdraws hynt,
y b'aſent gynt yn crwydro
Allan o'r ffordd: heb dref na llan,
lle caent hwy fan i drigo.
5 Trwy newyn, ſyched, bu'r daith hon,
a'u calon ar lewygu:
6 Ar Dduw y galwent y pryd hyn,
pan oeddyn' ymron trengu.
Yna eu gwared hwynt a wnaeth,
o'u holl orthrymgaeth foddion:
7 'Rhyd yr iawn ffordd fe'u dug mewn hedd
i dref gyfannedd dirion.
8 Addefant hwythau ger ei fron
ei fwynion drugareddau;
Ac er plant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.
9 Ddiwallu honaw einioes dyn
rhag newyn, a rhag ſyched:
Ac o'i fawr ras eu cadw i gyd,
pan oedd y byd yn galed.
10 Y rhai mewn tywyllwch a drig,
ynghyſgod llewyg angau,
Yn rhwym mewn nychdod, ac mewn bar,
a hieyrn ar eu fodlau.
11 A hyn o herwydd iddynt fod
mewn anufudd-dod eithaf:
A llwyr ddirmygu gair Duw Ior,
a chyngor y Goruchaf.
12 A thrymder calon cwympwyd hwy;
nid oedd neb mwy a'u cododd:
13 At Dduw mewn ing y rhoiſan' lef;
ac yntef a'u gwaredodd.
14 Ef a'u gwaredodd hwynt o'u drwg,
ſef o dywyllwg caethglud:
O gyſgod angau eu rhyddhau,
a thorri rhwymau hefyd.
15 Addefant hwythau ger ei fron,
ei fwynion drugareddau:
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.
16 Can's y pyrth pres torrodd yn chwyrn,
a'r barrau heiyrn hefyd:
17 Am eu bai a'u camwedd, yn wir
y poenir y rhai ynfyd.
18 A hwynt yn 'lafu ar bob bwyd,
fe'u dygwyd at byrth angau.
19 Ar Dduw mewn ing y rhoiſant lef;
achubodd ef hwynt hwythau:
20 Gan yrru ei air i'w hiachau,
ac i'w rhyddhau yn ſuan:
A hwynt a'i air tynnu wnaeth
o'u methedigaeth alſan.
21 Addefant hwythau ger ei fron
ei fwynion drugareddau;
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.
22 Aberthant hefyd aberth mawl
i'w ogoneddawl Fawredd:
A mynegant ei waith a'i wyrth,
yn ei byrth, mewn gorfoledd.
23 Y rhai ant mewn llongau i'r don,
a'u taith uwch mawrion ddyfroedd.
24 A welant ryfeddodau'r Ion,
a hyn mewn eigion moroedd.
25 A'i air cyffroe dymheitloedd gwynt,
y rhain a godynt donnau.
26 Hyd awyr fry, hyd eigion llawr,
ac ofn bob awr rhag angau:
27 Gan yſgwyd a phendroi fel hyn,
dull meddwyn, ſynnai arnynt:
28 Ar Dduw mewn ing y rhoiſant lef;
daeth ef a chymmorth iddynt.
29 Gwnaeth e'r yſtorm yn dawel deg,
a'r tonnau 'n oſteg gwaſtad:
30 Yn llawen ddiftaw doen i'r lan,
i'r man y bai 'dymuniad.
31 Cyffeſent hwythau ger ei fron
ei fwynion drugareddau:
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.
32 Holl gynnulleidfa ei bobl ef
clod Duw hyd Nef dyrchafant:
Holl eiſteddf'ydd pennaethiad hen
yn llawen a'i moliannant.
33 Y ffrydau'n ddyrys dir a wnai;
fe ſychai ddwfr lle tarddo:
34 A thir ffrwythlawn a wnai'n ddi-ffrwyth,
lle trig drwg dylwyth ynddo.
35 Troes yr anialwch yn llyn glas,
a'r tir cras yn ffynhonnydd:
36 Lle gwnai ef drigfan i'r gwael ddyn,
i dori 'newyn beunydd.
37 Lle yr hauaſant faeſydd glan,
a llawer gwinllan dyner;
Y rhai a roddant lawnder ffrwyth,
a chyndlwyth, yn ei amſer.
38 Can's cynnydaſant hwy gan wlith
graſol fendith un Duw Cun:
A'u hanifeiliaid hyſp a blith,
rhoes yn un fendith arnyn'.
39 Daeth caethder gwedi hyn i gyd,
a dryg'fyd, er eu goſtwng:
Gadawodd eu gorthrymmu a'u plau,
cawſant flinderau teilwng.
40 Eu dirmyg ar y beilchion troes,
ac ef a'u rhoes i grwydro
Mewn d'ryſni, heb lun ffordd i'w chael,
lle buant wael en gortho.

41 Yna thoeaſ y tlawd i well fri;
dug o'r tpeni allan:
Gan lwyddo 'i deulu, a'i holl blaid,
fel defaid wrth y gorlan.
42 Y rhai cyfnawn a welant hyn,
a chanddyn' bydd yn hyfryd:
A'r enwir ceuir ei ddwy en
ar ei gynfigen fawlyd.
43 Pa rai fy ddoeth i ddeall hyn,
fe roddir iddyn' wybod
Faint yw daioni f' Arglwydd yn':
wrth hyn y can' gydnabod.

## SALM CVIII.

PAROD yw fy nghalon (O Dduw)
O parod yw fy nghalon:
Canaf it', a datganaf wawd
o fawl fy nhafawd ffyddlon.
2 Deffro dafod, a deffro dant,
a chan ogoniant beunydd:
Y nabl a'r delyn yn gyttun;
deffrof fy hun ar las-ddydd.
3 Mawl iti, f' Arglwydd, pan ddeffrof,
a rof ymmyſg y bobloedd:
A chlodfori dy enw a wnaf
lle amlaf y cenbedloedd.
4 Can's cyrhaeddyd y mae dy ras
hyd yn uheyrnas y nefoedd:
A'th wirionedd di hyd at len
yr wybren, a'i therfynoedd.
5 Ymddyrcha, Dduw, y Nef uwchlaw,
oddiyno daw d'arwyddion:
A bydded dy ogoniant ar
y ddaear a'i thrigolion.
6 Fal y gwareder, trwy hon hwyl,
bob rhai o'th anwyl ddynion:
O achub hwynt a'th law ddehau,
a gwrando finnau'n ffyddlon.
7 Yn ei ſancteiddrwydd d'wedodd Duw,
llawen yw fy nghy lammod:
Mi ranna' Sichem 'rhyd y glyn:
meſuraf ddyffryn Succod.
8 Myfi bian y ddwy dreſtad,
fef Gilead a Manaſſe:
Ac Ephraim yw nerth fy mhen,
a Juda wen f' anneddle.
9 Ym Moab ymolchi a wnaf;
dros Edom tafiaf f' eſgid:
A chwardded Paleſtina gaeth;
ei chwerthin aeth yn rhybrid.
10 Duw, pwy a'm dwg i'r ddinas gref?
pwy a'm dwg i dref Edom?
11 Er it' ein gwrthod, pwy ond ti,
O Dduw, a 'mleddi drofom?
12 O unig Dduw, bydd in' yn beith;
mae'n ofer cymmorth undyn:
13 Yn Nuw y gwnawn wrolaeth fawr;
fe fathr i lawr ein gelyn.

## SALM CIX.

O Dduw, fy moliant i na thau:
Can's genau'r annuwiolion:
2 A'u tafod twyllgar, a'u ſafn rhwth,
arnaf fy'n bygwth digon.
3 Daethant i'm cylch a geiriau cas;
thoent ddiſlas ſen anynad:
4 Fal hyn ym' talent ddrwg dros dda,
a chas a ga' am gariad:
5 Ac fel yr oeddynt hwy fal hyn
i'm herbyn wedi codi;
Fy wyneb attad ti a drois,
ac arnat rhois fy ngweddi.
6 Bid Satan ar ei ddehau-law,
i'r ſwydd y daw yn barod:
7 A phan roer barn, yn euog boed,
a'i wedli troed yn bechod.
8 Bo 'i oes yn fer, ac yn ddilwydd,
a'i ſwydd arall i'w chym'ryd:
9 Poed yn amddifaid y bo 'i blant,
a'i weddw yn fethiant hefyd.
10 A boed ei blant yn crwydro byd,
i gym'ryd man gardodau:
A cheiſiant hyn 'rhyd dyrie dir,
lle byddo hir eu prydiau.
11 Yn rhwyd y celſiad ei dda ſyrth,
a'i lafur pyrth ddieithriaid:
12 Na ddel iddo nawdd am ei fai,
na chwaith i'w rai amddifaid.
13 Doed diſtryw dial ar ei hil,
a'i eppil a ddileer:
14 Am bechodau ei dad a'i fam,
y caiff ei lam ryw amſer
15 A bydded hyn i gyd ger bron
yr Arglwydd gyfion farnwr,
Yr hwn a'i torro, fel na bo
mwy gofio ei anghyfiwr.
16 Erioed ni cheiſiodd wneuthur hedd,
na thrugaredd i ddyn gwan:
Ond erlid tlawd a'r iſel radd,
a cheiſio lladd y truan.
17 Hoffodd felldith, a hi a ddaeth;
ac fel y gwnaeth, bid iddo:
Caſaodd fendith, ac ni chai,
ond pell yr ai oddiwrtho.
18 Gwyſgodd ſelldith fel dillad gwr,
a daw fel dw'r i'w galon:
Fel olew doed i'w eſgyrn fo,
hyd oni chaffo ddigon.
19 A'r felldith bid i'w gylch yn dynn,
fel yn ddilledyn iddo:
A'i gwiſgo hi bid iddo 'n daſg,
fel gwregys gwaſg am dano.
20 A hyn gan Dduw a gaf yn dal,
i'r gelyn gwammal enbyd,
A dd'wetto neu a wnelo gam,
neu niweid am fy mywyd.
21 Dithau Dduw, er mwyn d'enw, gwna
herwydd mai da d'ymwared:
Gwna dy drugaredd a myfi,
a bryfia di i'm gwared.
22 O herwydd tlawd a rheidus wyf,
a dirfawr glwyf i'm calon:
23 Symmudiad cyfgod a fai'n ffo,
hyn er na welo dynion.
Mor anſefydlog yw fy ſtad
a'r mudiad geiliog rhedyn:
24 Fy nghnawd yn gul, fy ngliniau'n wan
a ſiglan', o dra newyn.
25 Gwarth wyf i'm cas yn fy ngwael ddrych
a hwynt, wrth edrych arnaf,
A'm diyſtyrent, dan droi tro,
a than benſiglo attaf.

26 Cym-

26 Cymmorth di ſi, Arglwydd fy Nuw;
cadw ſi'n fyw a'th nodded:
27 Fel y gwyper mai gwaith dy law
yw'r lles a ddaw i'm gwared.
28 Melldithiant, nac eirlachant hwy;
dod fendith fwy i minnau:
Bid gwarth i'm gwrthwynebwyr cas,
gorfoledd i'th was dithau.
29 A gwarth a gw'radwydd gwiſger hwy,
ac fwyfwy y del attynt:
A mantell laes, o g'wtlydd mawr,
gwiſg di hyd lawr am danynt.
30 Ond ſi, gan ddiolch i'm lor mau,
a'm genau mawl a ganaf:
Ac a rof glod i'w enw cu,
lle bytho'r llu yn amlaf
31 O herwydd ar ddeheulaw'r tlawd
y ſaif ddydd brawd yn geſnog,
I gadw ei enaid ef yn gu,
rhag ei farnu yn euog.

## SALM CX.

D'Wedai'r Arglwydd wrth f' Arglwydd
ar fy llaw ddehau eiſtedd, [mau,
Nes rhoddi 'r rhai a gais dy waed,
yn fainge draed it' i orwedd.
2 'R Arglwydd denfyn ffrewyll dy nerth
o ddinas fawrwerth Seion:
Pan lywodraethech yn eu myſg,
gwna derfyſg ar d' elynion.
3 Yn nydd dy nerth dy bobl a ddaw
ag aberth llaw 'n 'wyllwyſgar:
Yn ſanctaidd hardd daw'r cynnyrch tau
o wlith y borau hawddgar.
4 Yr Arglwydd tyngodd ac ni wad,
ti ſy'n Offeiriad bythol:
Wrth urdd Melciſedec odd' fry,
a bery yn drag'wyddol.
5 Yr Arglwydd ar dy ddehau law
breuhinoedd draw a friwa:
Yn nydd ei ddig gwna'n archollion
frenhinoedd cryfion, medda'.
6 Ar y cenhedloedd rhydd farn iawn,
a'u gwlad gwna'n llawn celanedd
A llawer pen, dros wledydd mawr,
a dyr i lawr yn unwedd.
7 O wîr frys i'r gyſlafan hon,
ſe yf o'r afon nefa'
A gaffo ar ei ffordd yn rhwydd
a'r Arglwydd a'i dyrchafa.

## SALM CXI.

CLodforaf ſi fy Arglwydd lon,
o 'wyllys calon hollol,
Mewn cynnulleidfa ger eu bron,
mewn tyrfa gyfion rafol.
2 Mawr iawn yw gwyrthiau'n Harglwydd [ni,
hyſpys i bawb a'i hoffant:
3 Ei waith a'i iawnder pery byth,
a'i wehelyth ogoniant.
4 Yr Arglwydd a wnaeth ei goffau,
am ryfeddodau nerthol;
Can's Arglwydd neddfawr yw i ni,
llawn o dofturi grafol.
5 Kf i bob rhai a'i hofnant ef
rhydd gyſtran gref ar fywyd;
Ac yn dragywydd y myn fod
cof o'i gyfammod hefyd.
6 Mynegodd ef i'w bobl i gyd
gadernyd ei weithredoedd:
A rhoddi iddynt hwy a wnaeth
'tifeddiaeth y cenhedloedd.
7 Gwirionedd a barn ydyw gwaith
ei ddwy law berffaith eſo:
A'i orch'mynion ſy ffyddlon iawn;
a da y gwnawn eu gwrando.
8 Y rhai'n ſy gwedi eu ſicrhau
dros byth yn ddeddfau cyfion:
Gwedi eu gwneuthur hwy mewn hedd,
a thrwy wirionedd union.
9 Anfonodd gymmorth i'w bobl ef,
cyfammod gref ſafadwy,
Archodd hyn: bo i'w enw fawl,
ſancteiddiawl ac ofnadwy.
10 Dechreuad pob doethineb ddofn
i bawb, yw ofn yr Arglwydd,
Da yw deall y ſawl a'i gwnai,
a'i ofn a fai'n dragywydd.

## SALM CXII.

DEdwyddol yw mewn buchedd dda,
y ſawl a ofna'r Arglwydd,
A'i orchymynion anwyl ynt,
bydd iddo helynt hylwydd.
2 Ei had fydd nerthol yn y tir,
bendithir hîl rhai union:
3 Golud a chyfoeth yn ei dy,
dros byth y pery'n gyfion.
4 Yr union yn y tywyll cau
caiff fodd i olau weled:
Yſtyriol, a thoſturiol iawn,
a chyfiawn fydd ei weithred.
5 Gwr da a fydd trugarog fwyn,
rhydd echwyn a chymmwynas,
A'i air mewn pwyll a barn a rydd,
a'i weithred fydd yn addas.
6 Ni'ſgoger byth y cyfiawn, gwna
ei goffa yn dragywydd:
7 A chalon ddifigl, ddwys, ddiofn,
a ſail ddoin yn yr Arglwydd.
8 Hwn yn nerth Duw diofnog fydd,
ac atteg ſydd i'w galon:
Hyd oni chaffo trwy lawn wys,
ei 'wyllys o'i elynion.
9 Rhannodd a rhoes i'r tlawd yn hy,
byth pery ei gyfiawnedd,
A chryfder ei goron yn wir,
dyrchefir mewn gogonedd.
10 Yr anwir edrych, ffromma o ddig,
trwy ffyrnig yſgyrnygiad:
Yr annuwiol a dawdd: fal hyn
fydd terfyn eu dymuniad.

## SALM CXIII.

CHWI weiſion Duw molwch yr Ion,
molwch ei enw a llafar don.
2 Bendigaid fyddo ei enw ef,
o godiad haul hyd fachlud dydd.
3 Mawr enw yr Ion moliannus fydd,
yn y byd hwn, ac yn y Nef.
4 Dyrchafodd Duw uweh yr holl fyd,
a'i foliant aeth uweh Nef i gyd.
5 Pwy ſy gyffelyb i'n Duw ni?
yr hwn a breſwyl yn y Nef.

6 I'r ddaear hon daroſtwng eſ,
gwel eſ ein cam, clyw eſ ein cri.
7 Yr hwn ſy'n codi'r tlawd o'r llwch,
a'r rheidus o'i ddiyſtyrwch.
8 I'w goſod uwch pennaethiaid byd,
i'r ammhlantadwy mae'n rhoi plant.
9 Hlll teg, a thylwyth, a llwyddiant;
am hyn moliennwch Dduw i gyd.

SALM CXIV.

PAN ddaeth Iſrael o'r Aipht faith,
a thy Iago o eſtron iaith.
2 Juda oedd ei ſancteiddrwydd eſ,
Iſrael oedd bennaithiaeth Ior.
3 Gwelodd hyn a chiliodd y mor,
a throes i'w hol Iorddonen gref.
4 Neldiai'r mynyddoedd megys hyrdd,
a'r bryniau fel wyn llamment ffyrdd.
5 Cawſant waſtad naegis llawr dol,
ciliaſt (O ſor) dywaid pa ham?
Tithau Iorddonen lathraidd lam,
pa'm y dadredaiſt dithau'n d'ol?
6 Chwychwi fynyddoedd pa'm y ffoech
fel hyrddod? a pham nad arhoech.
7 A chwithau fryniau fel wyn man?
am mai rhaid ofni Duw Iago.
8 Yr hwn ſy'n troi'r graig yn llyn tro,
a'r caleſtr yn ffynnon dowfr glan.

SALM CXV.

NID i ni, Arglwydd, nid i ni,
y dodi y gogoneddi,
Ond i'th enw dy hun yn hawdd,
er mwyn dy nawdd a'th wiredd.
2 Pa'm y d'wedant am danat ti
y cenhedlaethi eſtron:
A thrwy edliw hynny yn fwy,
P'le mae eu Duw hwy 'r awrhon?
3 Sef ein Duw ni mae yn y Neſ,
lle y gwnaeth ef a fynnodd.
4 Eu delwau hwy, aur, arian yn';
a dwylaw dyn a'u lluniodd.
5 Safn heb draethu: llun llygaid glan,
y rhai'n ni welan' ronyn:
6 Trwyn heb arogl, clufliau ar lled
heb glywed, y fydd genddyn'.
7 Ac i bob delw y mae dwy law
heb deimlaw, traed heb fymmyd:
Mae mwnwgi iddynt heb roi llais,
fal dyna ddyfais ynfyd.
8 Felly ynt hwy ydyw'r rhai a'u gwnant,
a'r rhai a gredant iddynt:
Am hyd ni ddylai neb trwy gred
roi mo'r ymddiried arnynt.
9 O Iſrael, dod ti yn rhwydd
ar yr Arglwydd dy holl-fryd:
Ef yw eu nerth a'u dwg i'r lan
eu porth a'u tarian hefyd.
10 O ty Aaron, dod dithau'n rhwydd,
ar yr Arglwydd dy holl-fryd:
Ef yw eu nerth a'u dwg i'r lan,
eu porth a'u tarian hefyd.
11 'Rhai a ofnwch yr Arglwydd Ion,
phowch arnoch union holl-fryd:
Efe yw'r neb a'ch dwg i'r lan,
eich porth a'ch tarian hefyd.
12 Duw naf a'n coflodd, ac i'n plith
fo roes ei fendith rhadlon,
I dy Iſrael rhydd ei hedd,
ac unwedd i dy Aaron.
13 Sawl a'i hofnant bendithiant ef,
yr Arglwydd Nef canmolan',
A'i enw ſanct o'r Nef i'r llawr,
bendithied mawr a bychan.
14 Yr Arglwydd arnoch, arnoch chwi,
a wna ddaioni amlach:
Ac a chwanega ar eich plant
ei ſwyniant yn rymmuſach.
15 Y mae iwch' fendith a mawr lwydd
gan y gwir Arglwydd cyflawn:
Yr hwn a wnaeth y nefoedd fry,
a'r ddaear obry 'n gyflawn.
16 Y Nef, ie 'r nefoedd uwchlaw;
fy yn eiddaw Duw yr Ion,
A'r ddaear, lle y preſwyliant,
a roes ef i blant dynion.
17 Pwy a folant yr Arglwydd? pwy
gwn nad hwynt-hwy y meirwon,
Na'r rhai a ant i'r bedd yn rhwydd,
lle 'mae diſtawrwydd ddigon.
18 Ond nyni daliwn yn ein co'
fyth fyth fendithio'r Arglwydd,
Molwch yr Arglwydd yn un wedd,
a mawl gyfannedd ebrwydd.

SALM CXVI.

DA gennyf wrando 'r Arglwydd Nef
ai lais fy llef a'm gweddi:
2 Am iddo fy nghlywed i'n hawdd,
byth archaf ei nawdd i mi.
3 Mae maglau angau i'm cynllwyn,
ym mron fy nwyn i'm beddrod:
4 Cefais ing; ond galwaf fy Ner
i'm hoes, moes dyner gymmod.
5 Cyfion yw'r Ion, trugarog lawn,
ein Duw fy lawn o nodded.
6 Duw a geidw'r gwirion: bum i,
mewn cyni, daeth i'm gwared.
7 O f'enaid dadymchwel o'r llwch,
tyr'd i'th lonyddwch bellach;
Am i'r Arglwydd fod i ti'n dda,
fef i'th orphwyſa hayach.
8 O herwydd i Dduw wared f'oes,
a'm cadw rhag gloes angau,
Fy nhraed rhag llithro i lam drwg,
a'm golwg i rhag dagrau.
9 Yn y flydd hon o flaen fy Nuw,
ym myſg gwyr byw y rhodia'.
10 Fel y credais felly tyſtiais
i ar y teſtyn yma.
11 Yn fy ffrwſt d'wedais i fel hyn,
mae pob dyn yn gelwyddog.
12 Ond, O Dduw, beth a wnaf i ti,
am dy ddaioni cefnog?
13 Mi a gymmeraf, gan roi mawl,
y phiawl iechydwriaeth.
Ac a alwaf er mwyn fy llwydd,
ar enw yr Arglwydd bennaeth.
14 I'r Arglwydd talaf yn foran
fy addunedau ffyddlon,
Y pryd hyn o flaen ei holl lu,
y modd y bu'n fy nghalon.

15 Mar-

13 Marwolaeth ai ſant gwerthſawr yw
yngolwg Duw: O cenſydd,
16 Dy was, dy was wyf, mewn dirmyg,
mab dy forwynig ufydd.
17 Dattodaiſt fy rhwymau yn rhydd,
ſy offrwm fydd dy ſoliant;
Enw 'r Arglwydd nid a o'm co',
i hwanw bo gogoniant.
18 I'r Arglwydd bellach tala'n frau
ſy addunedau cyfion.
19 Yng Nghaer-Salem dy ſanctaidd dy,
o flaen dy deulu ffyddlon.

## S A L M CXVII.

O Cenwch ſawl i'r Arglwydd Nef,
moliennwch ei genhedloedd,
Molwch ei enw ef trwy'r byd,
chwithau i gyd y bobloedd.
2 Am ei fod ini yn dda iawn,
yr Arglwydd llawn trugaredd,
A'i air ef ſydd yn parhau byth,
ſef ei ddilyth wirioned.

## S A L M CXVIII.

MOlwch yr Arglwydd, can's da yw
moliannu Duw y llywydd,
O herwydd ei drugareddau,
ſydd yn parhau'n dragywydd:
2 D'weded Iſrael, da yw ef,
a'i nawdd o Nef ni dderfydd.
3 D'weded ty Aaron mai da yw,
trugaredd Duw 'n dragywydd.
4 Y rhai a'i hofnant ef yn lan,
a ganan' yr un cywydd,
Rhon' i'w drugaredd yr un glod,
ſef ei bod yn dragywydd.
5 I'm hing gelwais ar f' Arglwydd cu,
hawdd ganddo fu fy nghlywed:
Ef a'm gollyngudd i yn rhydd
o'i lau dragywydd nodded.
6 Yr Arglwydd ſydd im' gyd a mi,
nid rhaid im' ofni dynion.
7 Yr Arglwydd ſydd ynghyd a mi,
er gofbi fy ngelynion.
8 Gwell yw gobeithio yn Nuw Cun,
nag mewn un dyn o'r apluf:
9 Gwell yw gobeithio yn yr Ion,
na'r tywyſogion pennaf.
10 Doed y cenhedloedd arna' i gyd,
a'u bryd ar wneuthur artaith
Ond yn enw y gwir Arglwydd Naf,
myfi a'u torraf ymaith.
11 Daethant i'm cylch ogyleh i'm cau,
ac ar berwyleu diffaith,
Ond yn enw yr Arglwydd Naf,
myfi a'u torraf ymaith.
12 Daethant i'm cylch fel gwenyn man:
fel diffodd tan mewn goddaith,
Yn enw yr Arglwydd yr wyf fi
yn eu diffoddi ymaith.
13 Fy nghaſáu'n gwthiaſt atta'n gryf
i gaifio geunyf fyrthio,
14 Duw a'm cadwodd, ſef Ion fy ngrym
fy lechyd ym', ac ettu.
15 Am orfoledd Duw y bydd ſun,
yn nhai rhai cyfion dwyfol,
Mai'r Arglwydd Dduw a'i law ddehau,
a wnaeth y gwyrthiau nerthol.
16 Deheulaw'r Arglwydd trwy ei nawdd
ef a'i dyrchafawdd arnom,
A dehau-law yr Arglwydd Ner,
a wnaeth rymmuſder drofom.
17 Nid marw oniu byw a wnaf,
mynegaf waith yr Arglwydd.
18 Hwn a'm gofbodd, ond ni'm lladdodd,
yn llymtrach lluddiodd afiwydd.
19 Agorwch im' byrth cyfiawnder,
o'u mewn Duw Ner a folaf.
20 Porth yr Arglwydd fel dyma fo,
ant iddo'r rhai cyfiawnaf.
21 Minnau a'th folaf yn dy dy,
o herwydd yty 'nghlywed,
Yno y canaf nefol glod,
it' am dy fod i'm gwared.
22 Y maen fy ben congi-faen i ni,
a ddarfu'r ſeiri wrthod:
23 O'r Arglwydd Dduw y tyfodd hyn
fy gan ddyn yn rhyfeddodd.
24 Yr Arglwydd a'i gwnaeth, dyma'r dydd,
er mawr lawenydd yny,
Ynddo cym'rwn orfoledd llawn,
ymlawenhawn am hynny.
25 Attolwg Arglwydd y pryd hyn
yr yin yn erfyn ſeibiant:
Attolwg Arglwydd Dduw par yn',
y pryd hyn gaffael llwyddiant.
26 Bendigaid yw y ſawl a ddel
yn enw yr uchel Arglwydd:
O dy Dduw bendithiafom chwi,
trwy weddi a ſanctaiddrwydd.
27 Yr Arglwydd ſydd yn Dduw i ni,
rhoes in' oleuni ragor.
Deliwch yr oen a rhowch yn chwyrn
yn rhwym wrth gyrn yr allor.
28 Tydi, O Dduw, wyt Dduw i mi,
am hyn tydi a folaf:
(Da gwedd it' ſawl, fy Nuw man fi)
a thydi a ddyrchafaf,
